

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
56/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
28/09/2017

Gwerthusiad o'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Adroddiad Terfynol

Gwerthusiad o'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Adroddiad Terfynol

SQW

Christopher Carr, Marian Morris, Katie MacLeod a Farai Chipato

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

David Roberts

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5485

E-bost: david.roberts@llyw.cymru

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2017

Cynnwys

Geirfa.....	2
Crynodeb Gweithredol	3
1. Rhagymadrodd	12
2. Barn am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Profion Cenedlaethol	19
3. Cynnydd mewn cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol	31
4. Cynnydd mewn gweithredu'r Profion Cenedlaethol	41
5. Ymwybyddiaeth o'r RhLIRhC ymhlith disgyblion a rhieni	48
6. Effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad y RhLIRhC	57
7. Effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael gan y Consortia i gefnogi gweithrediad y RhLIRhC	68
8. Effaith y RhLIRhC mewn cefnogi gwelliannau i ymarfer proffesiynol	78
9. Effaith y RhLIRhC ar ganlyniadau dysgu disgyblion	86
10. Canfyddiadau ac Argymhellion	105
Cyfeiriadau	109
Cefndir i'r RhLIRhC.....	A-1
Dyluniad yr Ymchwil	B-1

Geirfa

CH	Cynghorydd Her
Consortiwm	Consortiwm Addysg Rhanbarthol
FfLIRhC	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
ALI	Awdurdod Lleol
GMYA	Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol
Profion Cenedlaethol	Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol
RhLIRhC	Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
RhGG	Rhaglen Gymorth Genedlaethol
CDdGD	Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion
ALIRhRh	Rhaglen Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol
ALIRh	Athro Llythrennedd Rhagorol
ARhRh	Athro Rhifedd Rhagorol
CDP	Cymunedau Dysgu Proffesiynol

Crynodeb Gweithredol

Beth yw'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol?

1. Bwriad y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, a lansiwyd yn 2013, yw gwella cyrhaeddiad disgyblion a chodi safonau addysgol drwy well ymarfer addysgu ym meysydd llythrennedd a rhifedd a newidiadau mewn defnydd data asesu i gefnogi addysgu a dysgu.
2. Ers 2013 mae'r rhaglen polisi wedi cael ei newid/diwygio (fel y gellid disgwyl) gyda'r nod o wella cyfatebolrwydd â mentrau eraill a chyhoeddiadau rhaglenni a pholisïau newydd Llywodraeth Cymru. Mae elfennau allweddol y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cynnwys: mesurau deddfwriaethol megis cyflwyniad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol; gweithgareddau cefnogi megis y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (a fu'n weithredol o 2013 hyd 2015) a'r rheini a gomisiynwyd drwy Gonsortiwm Addysg Rhanbarthol (megis y gefnogaeth a roddir gan Gynghorwyr Llythrennedd a Rhifedd).

Beth allwn ni ei ddysgu gan y RhLIRhC?

3. Er mwyn dysgu gan y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, comisiynodd Llywodraeth Cymru SQW i gynnal gwerthusiad annibynnol. Cynhaliwyd hwn rhwng mis Gorffennaf 2013 a mis Ionawr 2017 a'i fwriad oedd archwilio ac ymchwilio newidiadau mewn:
 - ymarfer addysgu
 - safonau addysgol
 - gwybodaeth disgyblion
4. Drwy gyfuniad o ddata ansoddol a meintiol, mae hi wedi bod yn bosibl nodi enghreifftiau o ymarfer effeithiol, a allai gynorthwyo athrawon i oresgyn rhai rhwystrau i weithrediad effeithiol y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (RhLIRhC). Cyflwynir y rhain isod.

Beth yw'r ffordd orau i hwyluso cydweithrediad cymar i gymar?

5. Mewn ymateb i gyflwyniad y RhLIRhC, roedd tystiolaeth i awgrymu bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi cymryd gwahanol gamau er mwyn annog mwy o gydweithredu rhwng athrawon yn eu hysgol a gydag athrawon mewn ysgolion eraill. Mewn nifer o achosion, teimlwyd bod y camau hyn (a amlinellir ac y rhoddir enghreifftiau ohonynt isod) wedi cefnogi cynnydd yn ansawdd a

chysondeb addysgu llythrennedd a rhifedd, o fewn a rhwng gwahanol leoliadau.

Cefnogaeth ar gyfer dysgu ysgol gyfan

6. Mae'n ymddangos bod nifer o ddulliau yn ddefnyddiol i annog cydweithrediad rhwng athrawon:
- nodi llythrennedd a rhifedd fel blaenoriaeth datblygu ysgol gyfan a gosod targedau penodol ar gyfer gwella ansawdd addysgu llythrennedd a/neu rhifedd ar draws yr ysgol
 - codi proffil/statws y Cydlynnydd Llythrennedd a/neu Rhifedd, drwy roi cysylltiad i Gydlynwyr i'r Uwch Dîm Arwain, er enghraifft, neu drwy gynnig athrawon cyflenwi i Gydlynwyr er mwyn cefnogi datblygiad a chyflawniad strategaeth llythrennedd a/neu rhifedd ysgol gyfan
 - cefnogi recriwtiad mewnol hyrwyddwyr FfLIRhC i gynorthwyo'r Cydlynnydd Llythrennedd a/neu Rhifedd i gyflawni strategaeth llythrennedd a/neu rhifedd yr ysgol

Defnyddio hyrwyddwyr FfLIRhC i gefnogi gweithio ar y cyd

Mewn cydnabyddiaeth o'r anghysonderau amlwg yn y ffyrdd yr oedd athrawon yn addysgu cysyniadau allweddol mewn llythrennedd a rhifedd gwnaed y penderfyniad, mewn ysgol cyfrwng Saesneg y gwnaethom ymweld â hi, i recriwtio hyrwyddwyr y FfLIRhC er mwyn modelu ymarfer effeithiol i gydweithwyr. Cafodd y rolau, a recriwtiwyd drwy broses gais fewnol, eu marchnata fel modd y gallai arweinwyr canol uchelgeisiol gael cyfrifoldeb ychwanegol mewn rôl hyfforddi. Yn dilyn hyfforddiant gan y Cydlynwyr Llythrennedd a Rhifedd, gofynnwyd i Hyrwyddwyr rannu eu hymarfer drwy agor eu dosbarthiadau i'w cydweithwyr ac yna trafod eu dull. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r Hyrwyddwyr am gyflymu'r gwaith o ymgorffori'r FfLIRhC mewn gwersi heblaw am Saesneg a Mathemateg.

Annog cydweithio gydag ysgolion partner

7. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, ar y cyfan croesawodd yr athrawon y cyfle i weithio gydag ysgolion eraill fel modd o rannu ymarfer effeithiol. Dywedodd athrawon bod y berthynas yn fwyaf cynhyrchiol yn y sefyllfaoedd canlynol:

- pan fo staff consortia, oedd â digon o allu i drefnu a chydlynu digwyddiadau a chydlynu ffrydiau gwaith a gytunwyd, yn hwyluso'r gweithgareddau
- pan oedd perthynas wedi'i meithrin gydag ysgolion a oedd yn rhannu nodau/amcanion cyffredin
- pan gytunodd uwch arweinwyr ar ba adnoddau y gellid eu neilltuo i gefnogi cydweithio o'r dechrau a'u bod yn cyfateb i'r hyn fyddai ei angen er mwyn cyflawni eu nod datganedig

Gweithio gyda Chonsortia tuag at weithredu rhaglenni DPP a arweinir gan yr ysgol

Canmolodd athrawon yr Adran Dylunio a Thechnoleg mewn un ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg effaith y rhaglen DPP yr oeddent wedi'i chyrchu'n ddiweddar i'w cefnogi i wreiddio'r FfLIRhC. Roedd y rhaglen, a drefnwyd gan staff Consortia, yn cynnwys cyfres o sesiynau datblygu. Ym mhob sesiwn cafodd athrawon o wahanol ysgolion y cyfle i gydweithio er mwyn datblygu cynlluniau gwaith newydd. Roedd athrawon yn gwerthfawrogi'r dull hwn (lle roeddent yn teimlo bod gan bawb ohonynt rywbeth i'w gyfrannu a rhywbeth i'w ddysgu) yn hytrach na'r sesiynau a oedd yn dilyn y patrwm DPP 'traddodiadol', lle'r oedd athrawon eraill (neu staff Consortia) yn cyflwyno'r dull a ffafrwyd ganddynt hwy a lle mai prin oedd y cyfle i gydweithredu. Cydnabuwyd presenoldeb ar y rhaglen am eu hyrwyddo i newid eu dulliau ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd a datblygu cysylltiadau newydd gydag ysgolion eraill, a barhaodd i fod yn ffynhonnell her a chefnogaeth.

Beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio data asesu i gefnogi addysgu a dysgu?

8. Yn y rhan fwyaf o ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy, teimlai'r athrawon ei bod yn rhy gynnar i ddweud a oedd cyflwyniad y RhLIRhC wedi cefnogi gwelliant yn y defnydd o ddata asesu i gefnogi addysgu a dysgu. Wedi dweud hyn, roedd llawer o athrawon yn hyderus y byddai'r camau yr oeddent wedi eu cymryd yn arwain at welliannau tymor canolig i hirdymor.

Defnyddio systemau tracio ysgol gyfan i gefnogi addysgu a dysgu cyson

9. Yn 2016 roedd yr holl ysgolion yr ymwelwyd â hwy wedi cymryd camau i ddatblygu a gwreiddio defnydd systemau tracio ysgol gyfan. Cynlluniwyd y rhain er mwyn rhoi ffordd i uwch arweinwyr/arweinwyr canol fonitro cynnydd

disgyblion yn erbyn disgwyliadau cysylltiedig ag oedran y FfLIRhC. Er nad ydynt yn ofyniad statudol, dywedodd staff bod system o'r fath yn ei gwneud hi'n llawer haws i uwch arweinwyr nodi meysydd o gryfder/gwendid. Teimlwyd bod nifer o ffactorau'n ganolog i lwyddiant system tracio:

- roedd angen iddi gael ei gweld fel rhan allweddol o'r strwythur rheoli perfformiad ehangach ar gyfer yr ysgol
- rhoddwyd hyfforddiant i'r holl athrawon yn yr ysgol i'w helpu i asesu cyrhaeddiad disgyblion yn erbyn disgwyliadau cysylltiedig ag oedran y FfLIRhC mewn modd cyson
- cynhwysodd arweinwyr canol ddilysiad data tracio o fewn gweithgareddau rheoli perfformiad, megis arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau

Defnyddio triadau athrawon i gefnogi tracio ysgol gyfan o gynnydd disgyblion yn erbyn disgwyliadau cysylltiedig ag oedran y FfLIRhC

Anogwyd athrawon mewn un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i agor eu dosbarthiadau i'w cydweithwyr. Yn dilyn pob rhaglen arsylwi ar wersi cynhaliwyd sesiwn dad-frifffio, lle cafodd y cyfranogwyr gyfle i drafod beth oedd wedi mynd yn dda/dim cystal. Ffocws penodol i'r sesiynau hyn oedd datblygu dealltwriaeth a rennir o'r dystiolaeth oedd ei hangen er mwyn i ddisgybl ddangos cynnydd yn erbyn y datganiadau disgwyliad cysylltiedig ag oedran yn y FfLIRhC. Teimlwyd bod y broses hon, a reolwyd gan Gydlynnydd Llythrennedd a Rhifedd yr ysgol, wedi arwain at system dracio'r ysgol yn cael ei mabwysiadu'n gyflym a gwelliant cyffredinol yn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd wrth i athrawon ddod yn fwy hyderus mewn gwreiddio tasgau llythrennedd a rhifedd yn eu gwersi.

Defnyddio data lefel disgybl yn effeithiol

10. Ers 2013 mae'n ymddangos bod athrawon wedi dod yn fwyfwy hyderus yng ngallu data o'r Profion Cenedlaethol i gefnogi addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mae amrywiaeth sylweddol yn parhau i fod yn sut y caiff data ei ddefnyddio a theimlai nifer o'r athrawon a holwyd y gallent ddefnyddio'r data'n fwy effeithiol nac yr oeddent yn ei wneud ar hyn o bryd. Nododd rhai athrawon eu bod yn defnyddio data i ganfod cryfderau a gwendidau disgyblion unigol, er enghraifft. Pan ddefnyddiwyd data yn y modd hwn, dywedodd uwch arweinwyr bod iddo nifer o fanteision, yn bennaf cynyddu eu hyder yng

nghywirdeb barn a aseswyd gan athrawon a'u gallu i nodi anghenion cefnogaeth athrawon a disgyblion. Wedi dweud hynny, cydnabuwyd bod llwyddiant y math hwn o ddull yn dibynnu ar:

- hyblygrwydd system rheoli data'r ysgol i gynnwys data o'r Profion Cenedlaethol a chaniatáu ar gyfer creu adroddiadau ar lefel grŵp blwyddyn a dosbarth
- hyder arweinwyr canol/athrawon dosbarth i greu/trin adroddiadau lefel disgybl a defnyddio detholiadau o ddata i hysbysu eu gwaith cynllunio gwersi
- ymrwymiad ysgol gyfan i gynllunio wedi'i ganoli ar y disgybl ar gyfer addysgu a dysgu

Defnyddio data o'r Profion Cenedlaethol i gefnogi cynllunio wedi'i ganoli ar y disgybl

Mewn un ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, roedd arweinwyr canol mewn pynciau craidd wedi rhoi rhaglen reolaidd o asesu diagnostig ar waith lle'r oedd disgyblion yn cwblhau gwiriad cynnydd personol mewn darllen a rhifedd. Defnyddiwyd y rhain i fonitro eu cynnydd mewn meysydd lle nodwyd gwendid. Yna addasodd athrawon dosbarth eu cynlluniau gwersi am yr wythnos, yn dibynnu ar y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion unigol. Cafodd y dull hwn ei gydnabod am y twf yng nghyfradd cynnydd disgyblion, gan arwain at y disgyblion hyn yn cyflawni sgoriau uwch yn y Profion Cenedlaethol.

Beth yw'r ffordd orau i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm?

11. Ers cyflwyniad y FfLIRhC yn 2013, mae'n ymddangos bod ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn gwreiddio'r FfLIRhC yn eu cwricwlwm a'u cylchoedd asesu. Ar y cam hwn mae tystiolaeth i awgrymu bod newidiadau a wnaed gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi dechrau trosi'n ddefnydd cynyddol o ddulliau trawsgwricwlaidd, yn arbennig mewn ysgolion uwchradd lle teimlwyd yn gyffredinol bod ymateb i'r FfLIRhC wedi bod yn fwy heriol. Er mwyn cefnogi gwelliannau yn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, mae'n ymddangos bod ysgolion wedi defnyddio gwahanol ddulliau.

Adnewyddu cynlluniau gwaith

12. Roedd mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy wedi ceisio adnewyddu eu cynlluniau gwaith presennol er mwyn sicrhau bod datganiadau disgwyliad y FfLIRhC wedi eu cynnwys ar draws y cwricwlwm. Dywedodd athrawon bod y dull hwn wedi bod yn fuddiol mewn datblygu teimlad o atebolrwydd a rennir am addysgu llythrennedd a rhifedd ac yn sail i ysgogi gwelliannau parhaus. Er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl i'r math hwn o ddull, roedd hi'n ymddangos bod nifer o ffactorau'n bwysig:
- Blaenoriaethu'r gwaith hwn o fewn cynllun datblygu ysgol. Ystyriwyd yn gyffredinol bod hwn yn sbardun cryf mewn ysgogi ymddygiad athrawon.
 - Ymrwymiad i adolygu'n rheolaidd berfformiad cynlluniau gwaith o ran cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Teimlai athrawon eu bod wedi elwa o ymrwymiad uwch arweinwyr/arweinwyr canol i waith parhaus oedd â'r nod o wreiddio'r FfLIRhC.
 - Dull o'r bôn i'r brig lle rhoddwyd rôl allweddol i athrawon dosbarth mewn nodi cyfleoedd i gynnwys dulliau trawsgwricwlaidd ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd. Dywedodd athrawon bod y dull hwn wedi arwain at lawer mwy o ddealltwriaeth/perchnogaeth dros y broses weithredu

Adnewyddu cynlluniau gwaith i gefnogi gwelliannau mewn addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd

Penderfynodd uwch arweinwyr mewn un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg y dylid defnyddio cyflwyniad y FfLIRhC fel cyfle i adnewyddu cynlluniau gwaith ar draws y cwricwlwm. Yn hytrach na chyfyngu cwrdd yr ymarferiad hwn i sicrhau bod y sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gwersi, nododd athrawon bod y ffocws wedi bod ar drawsnewid i raglen astudio gwbl thematig lle'r oedd tasgau llythrennedd a rhifedd wedi'u cynnwys dim ond pan oeddent yn cefnogi cyflawniad amcanion dysgu trawsgwricwlaidd. Cafodd y dull hwn ei gydnabod am wella ansawdd addysgu ar draws y cwricwlwm, nid dim ond addysgu llythrennedd a rhifedd.

Newidiadau i gynllunio gwersi

13. Er efallai nad yw'n syndod, mewn nifer o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy roedd athrawon yn cydnabod y pwyslais a roddwyd gan uwch arweinwyr

ar nodi cyfleoedd priodol i gynnwys tasgau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Dros amser teimlwyd bod hyrwyddo'r math hwn o weithgaredd yn arwain at ddull cynyddol drawsgwricwlaidd. Wrth i athrawon addasu i'r heriau sy'n gynhenid mewn addysgu yn y modd hwn, teimlwyd bod yr ansawdd neu'r hyfforddiant cyffredinol yn dechrau gwella. Yn yr ysgolion hynny a wnaeth y mwyaf o gynydd, roedd nifer o'r canlynol ar waith:

- Cydnabyddiaeth o bwysigrwydd nodi amcanion dysgu penodol ar gyfer tasgau llythrennedd a rhifedd. Teimlai athrawon bod hyn yn sicrhau bod tasgau yn ystyrlon ac nid mynd trwy'r broses yn unig.
- Ymrwymiad i wreiddio tasgau llythrennedd a rhifedd mewn modd a oedd yn cefnogi prif amcan y wers (nad oedd yn gysylltiedig i llythrennedd na rhifedd).
- Dealltwriaeth/dull a rennir mewn perthynas ag addysgu sgiliau llythrennedd/rhifedd allweddol.
- Ymrwymiad i nodi a mynd i'r afael â bylchau sgiliau ymhlith athrawon nad sy'n arbenigwyr Saesneg/Cymraeg a Mathemateg (yn arbennig, er nad yn gyfan gwbl, mewn cyd-destun uwchradd).

Hyrwyddo ymgorffori addysgu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm

Roedd y cydlynnydd llythrennedd a rhifedd mewn un ysgol arbennig wedi cyflwyno system i gynyddu'r pwyslais a roddwyd ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Roedd hyn yn golygu bod athrawon dosbarth yn cwblhau pro fforma cyn pob gwers. Roedd y pro fforma yn gofyn i'r athro nodi: prif amcan y wers; y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cefnogi a pha ddisgyblion fyddai'n cael mynediad atynt (yn dibynnu ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u hanghenion addysgol); i ba raddau y byddai'r wers yn datblygu sgiliau a hyrwyddir yn y FfLIRhC; a sut y byddai cynnydd disgybl tuag at gyflawni amcanion y wers yn cael eu hasesu. Yn yr ysgol hon roedd dosbarthiadau fel arfer yn cynnwys disgyblion oedd â galluedd gwahanol iawn ac roedd staff cymorth yn aml yn chwarae rôl bwysig mewn cefnogi cyflwyniad gweithgareddau allweddol. Cafodd y pro fforma ei gydnabod am sicrhau bod ffocws clir ar gefnogi cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Beth fu effaith y RhLIRhC?

14. Bwriadwyd i'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol gefnogi gwelliant mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion yng Nghymru a gwella lefelau cyrhaeddiad. Felly, mae hi wedi bod yn bwysig i ystyried I ba raddau y mae'r lefelau wedi newid yn dilyn cyflwyniad y Rhaglenni yn 2013.
15. Er bod rhai gwelliannau yn digwydd cyn y lansiad; ers 2011 mae'n drawiadol bod cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel cyrhaeddiad disgwyledig mewn Saesneg, Cymraeg¹ a Mathemateg wedi cynyddu, a gwelwyd hefyd leihad yn y bylchau rhwng disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a/neu sydd o gefndiroedd amddifadus a'u cyfoedion.
16. Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ar y cam hwn i awgrymu y gellir priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i weithrediad y RhLIRhC. Fodd bynnag, mae peth arwydd bod cynnydd, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi cyflymu ar gyfer rhai disgyblion wrth bontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Gwnaeth disgyblion carfan Cyfnod Allweddol 2 2012 fwy o gynnydd i Gyfnod Allweddol 3 (2015) na'u cyfoedion mewn blynyddoedd blaenorol. Dim ond rhagor o ddadansoddi yn y blynyddoedd i ddod fydd yn dangos a yw'r canfyddiad hwn (o gynnydd cyflymach) yn cael ei ailadrodd.
17. Nid oes data 'caled' er mwyn asesu i ba raddau y mae'r RhLIRhC wedi cefnogi gwelliant yn ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae adborth gan athrawon yn dynodi ei fod yn cael ei dderbyn yn gyffredin bod cyflwyniad y FfLIRhC, yn benodol, wedi arwain at newidiadau mawr mewn ymarfer addysgeg sy'n dechrau cyflawni gwelliannau adnabyddadwy mewn perfformiad athrawon (efallai'n fwyaf pwysig y rheini sydd ddim yn arbenigwyr Saesneg/Cymraeg neu Fathemateg). Mae hefyd peth tystiolaeth i awgrymu bod y RhLIRhC wedi cefnogi nod ehangach Llywodraeth Cymru o wella ansawdd ac amllder cydweithredu rhwng athrawon.

Beth oedd y ffynonellau tystiolaeth?

18. Er mwyn bodloni nodau'r gwerthusiad, mabwysiadwyd cynllun dull cymysg. Roedd elfennau allweddol yn cynnwys:
 - Cyfweiliadau gyda **rhanddeiliaid allweddol**. Rhwng mis Medi 2013 a mis Gorffennaf 2016 cynhaliwyd 47 o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol megis Arweinwyr Prosiect yn Llywodraeth Cymru, yr Arweinydd Llythrennedd a/neu Rhifedd yn Estyn, staff y National

¹Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.

Foundation for Educational Research (a ddyfeisiodd y Profion Cenedlaethol) ac Ymddiriedolaeth Addysg CfBT (a ddarparodd yr RhGG cyn trosglwyddo cyfrifoldeb i'r pedair ardal Consortia).

- Anfonwyd e-arolwg at yr holl **uwch arweinwyr** mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru (yn cynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion) rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2014 a mis Mai a mis Gorffennaf 2015. Cafwyd ymatebion gan 352 o ysgolion yn 2014 a 431 o ysgolion yn 2015.
 - Dwy don o **astudiaethau achos seiliedig ar ardal** o fis Medi hyd fis Tachwedd 2014 ac o fis Ionawr hyd fis Gorffennaf 2016. Dros gyfnod y gwaith maes gwnaethom ymweld â 39 o ysgolion mewn pedwar clwstwr (un ym mhob ardal Consortiwm). Yn ystod yr ymweliadau cafwyd adborth mewn sawl ffordd gan uwch arweinwyr, athrawon dosbarth, disgyblion a rhieni a, lle bo hynny'n bosibl, Cynghorwyr Her a staff yn y tîm Llythrennedd a Rhifedd ym mhob ardal. Denodd y cyfweiliadau/grwpiau trafod adborth gan 426 o bobl.
 - Dadansoddiad o **ddata lefel disgybl** o'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion i ystyried newidiadau yn lefelau cyrhaeddiad yr holl ddisgyblion yng Nghymru ar Gyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 o 2011 hyd 2015.
19. Mae'r crynodeb gweithredol hwn, a ysgrifennwyd er mwyn iddo gael ei ddefnyddio gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil ar weithrediad effeithiol y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol fel sbardun gwelliannau ehangach mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd. Gellir gweld cyflwyniad llawnach o effaith y RhLIRhC yn yr adroddiad llawn.

1. Rhagymadrodd

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil a gynhaliwyd gan SQW ar ran Llywodraeth Cymru fel rhan o werthusiad y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (RhLIRhC). Mae'n ystyried, cymaint ag sy'n bosibl ar y cam hwn, effaith gweithrediad y RhLIRhC ar ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn defnyddio ystod o ffynonellau tystiolaeth. Ymhlith y ffynonellau allweddol mae; gwaith maes a gynhaliwyd yn 2016, canfyddiadau e-arolwg gydag arweinwyr ysgol a gynhaliwyd yn nhymor yr haf 2014 a 2015 a dadansoddiad o ddata gweinyddol lefel disgybl o 2010/11 hyd 2014/15. Pan fo hynny'n briodol, gwnaethom hefyd ystyried canfyddiadau gwaith a wnaed o fis Mehefin hyd fis Rhagfyr 2014 fel y cyflwynwyd yn ein Hadroddiad Interim a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 (Carr C a Morris M, 2015).

Cefndir

- 1.2 Mae'r RhLIRhC yn ganolog i Raglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013) a Chynllun Gweithredu Gwella Ysgol yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) (Leighton Andrews, 2011). Yn fwy diweddar, mae'r Rhaglenni (Llywodraeth Cymru, 2016) wedi cael eu cefnogi yn Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru, 2014) a Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson G, 2015). Y rhesymeg sy'n sail i'r RhLIRhC yw'r dyhead i fynd i'r afael â mater lefelau llythrennedd a rhifedd isel ymhlith disgyblion yng Nghymru, ac i gymryd camau i sicrhau y gwneir hyn. Nod y RhLIRhC yw gwella cyflawniad a chodi safonau addysgol drwy well ymarferion addysgu llythrennedd a rhifedd a gwella defnydd data i gefnogi addysgu a dysgu (wedi'i gefnogi gan gyflwyniad y rhaglen asesu genedlaethol). Mae'r RhLIRhC yn cynnwys nifer o elfennau, ac yn eu plith mesurau deddfwriaethol megis cyflwyniad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y cyfeirir ati wedi hyn fel y 'FfLIRhC') a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (y cyfeirir atynt wedi hyn fel y 'Profion Cenedlaethol' neu'r 'Profion') a gweithgareddau cefnogi (megis y Rhaglen Gymorth Genedlaethol a'r rheini a gomisiynir drwy'r Consortia).
- 1.3 Fel y gellid disgwyl, ers 2013 mae'r rhaglen polisi wedi cael ei newid/diwygio er mwyn gwella cyfatebolrwydd gyda mentrau eraill. Er enghraifft, yn seiliedig ar gynnydd canfyddedig y Consortiwm Addysg Rhanbarthol (a elwir wedi hyn yn Consortia) mewn gwella eu gallu i gefnogi gwella ysgol yn eu rhanbarthau perthnasol, gwnaed y penderfyniad i ddod â Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) i ben ym mis Gorffennaf 2015 (blwyddyn ynghynt nag a fwriadwyd). Mewn ymateb i'r cyd-destun newidiol y mae'r Consortia yn gweithredu ynddo, gwnaed y penderfyniad i ddiwygio'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio

Rhanbarthol. Mae'r model diwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015, yn cefnogi hyrwyddiad 'system hunan-wella... wedi'i chefnogi gan bartneriaeth wirioneddol a threfniadau cefnogi ysgol i ysgol' (Llywodraeth Cymru, 2015). Er mwyn sicrhau bod newidiadau mewn polisi/ymarfer wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad, bu'n rhaid mabwysiadu dull hyblyg. Trafodir goblygiadau hyn yn yr isadran nesaf. Gellir gweld gwybodaeth gefndir ychwanegol am y RhLIRhC yn Atodiad A.

- 1.4 Bu'n rhaid i'r gwerthusiad hefyd fod yn ymwybodol o'r newidiadau parhaus yn y system addysg a'r drafodaeth a'r cynllunio ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y diwygiadau sydd i ddigwydd yn fuan i'r cwricwlwm ac asesu, yn dilyn cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson G, 2015). Bu hefyd newidiadau yn y system cymwysterau mewn ymateb i'r 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2012). Yn hwn gwelwyd cyflwyno, yn 2015,² ddau TGAU newydd gan ddisodli TGAU Mathemateg (TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg - Rhifedd) yn ogystal â TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith a Saesneg Iaith. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cynlluniau ar waith i ddisodli'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol gydag 'asesiadau personol' addasol, ar-lein. Caiff y rhain eu cyflwyno'n raddol o flwyddyn academaidd 2018-19.

Nodau ac amcanion y gwerthusiad

- 1.5 Nododd Llywodraeth Cymru ddau brif nod ar gyfer yr astudiaeth yn gyffredinol. Y rhain oedd; yr angen i werthuso sut mae'r RhLIRhC wedi cael eu dehongli a sut y mae'r gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r RhLIRhC yn cael eu gweithredu. Roedd gan y Llywodraeth ddiddordeb penodol mewn archwilio ac ymchwilio unrhyw newidiadau mewn:
- **ymarfer addysgu**, yn cynnwys unrhyw newidiadau i ymddygiad a dull athrawon yn yr ystafell ddosbarth, mewn perthynas ag addysgeg a'r modd yr addysgir llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, a sut y defnyddir y data o'r Profion Cenedlaethol i hysbysu addysgu a dysgu
 - **safonau addysgol**, yn benodol i ba raddau y mae cyrhaeddiad disgyblion wedi gwella o ganlyniad i weithrediad y RhLIRhC
 - **sgiliau'r disgyblion**, archwilio i ba raddau y mae ffocws ar lythrennedd a rhifedd wedi arwain (neu ei fod yn debygol o arwain) at

² Cyflwynwyd y cyrsiau newydd ym mis Medi 2015 gyda myfyrwyr yn sefyll yr arholiadau cyntaf ym mis Tachwedd 2016.

welliannau mewn cyrhaeddiad disgyblion mewn pynciau eraill, o ganlyniad i well sgiliau darllen a rhifedd.

- 1.6 O gofio mai prif fuddiolwyr yr ymyriadau fu athrawon (ac felly ysgolion), bu angen nodi pa gysylltiadau a allai fod rhwng mewnbynnau'r RhLIRhC (yn cynnwys yr holl fecanweithiau a oedd yn cael eu sefydlu i wella gwybodaeth am bwnc ac addysgeg) a'r canlyniadau a ragwelwyd o'r RhLIRhC.


Dyluniad yr Ymchwil

- 1.7 Yn ystod yr astudiaeth bu hefyd yn bwysig newid dyluniad yr ymchwil er mwyn addasu i newidiadau mewn cyd-destun polisi y cyflwynir y RhLIRhC ynddo (megis ymestyn y FfLIRhC i Gyfnod Allweddol 4 ac i'r plant ieuengaf yn y Cyfnod Sylfaen). Mae'r ymchwil hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r mewnbynnau polisi a gefnogir gan Llywodraeth Cymru a drafodir uchod. Rydym wedi ceisio cynnwys mewnbwn newidiadau o'r fath drwy ddiweddarau'r model rhesymeg ar gyfer y Rhaglenni. Fel y nodir yn Ffigur 1-1, mae'r model hwn yn crynhoi:

- cysyniadau newid gwaelodol ar gyfer y RhLIRhC (yn cynnwys y farn seiliedig ar dystiolaeth bod codi cyflawniad yn ddibynnol ar godi ansawdd a chysondeb addysgu)
- y tybiaethau polisi ac ymarfer sy'n sail i'r ymyriadau (yn tanategu lefel llwyddiant y RhLIRhC mae nifer o ffactorau, yn benodol ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad ymarferwyr addysgol, a chefnogaeth rhanddeiliaid megis y Consortia)
- y gwahanol fewnbynnau sy'n deillio o gyflwyniad y RhLIRhC, yn cynnwys y FfLIRhC, y Profion Cenedlaethol, ac Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol (ALIRhRh) ochr yn ochr â'r gefnogaeth a ddarperir gan y RhGG a'r Consortia
- y berthynas ddisgwyliedig rhwng y mewnbynnau a'r canlyniadau a ragwelir, megis nifer/cyfran yr ysgolion sydd wedi cyrchu cefnogaeth drwy'r RhGG a'r Consortia
- y canlyniadau a ragwelir (tymor byr a hirdymor) a allai gynnwys, ar gyfer athrawon ac ysgolion yng Nghymru, ddefnydd mwy effeithiol o ddata asesu i gefnogi addysgu a dysgu; gwell addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a diwylliant cryfach o gydweithredu ymhlith ymarferwyr addysg i gefnogi gwell addysgu a dysgu llythrennedd
- effaith ragamcanedig yr ymyriadau, yr oedd disgwyl iddynt fod yn welliant yng nghyrrhaeddiad llythrennedd a rhifedd disgyblion yng

Nghymru gan arwain at well canlyniadau addysgol yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.

Ffigur 1-1: Crynodeb o fodel rhesymeg ar gyfer y RhLIRhC



Ffynhonnell: SQW

1.8 Er bod y rhaglen, yn ei chyfanrwydd, yn y pen draw wedi'i chynllunio i wella canlyniadau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion, nid hwy yw prif grŵp triniaeth yr ymyriadau (fel y nodir ym mharagraff 1.4). O gofio hynny, sefydlwyd ein fframwaith gwerthuso i'n galluogi ni i archwilio:

- Iefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r RhLIRhC ac ymgysylltiad â hwy (ac, yn fwy penodol, y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol) ymhlith uwch arweinwyr ac ymarferwyr addysg eraill (e.e. Consortia), ac ymhlith disgyblion a'u rhieni
- effeithiolrwydd cymharol y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) a'r ystod eraill o strategaethau cefnogi (yn cynnwys gwefan Dysgu Cymru) mewn cyfathrebu, hyrwyddo a chynorthwyo gweithrediad y RhLIRhC
- effaith gymharol gwell hyfforddiant athrawon a DPP ar allu athrawon i hyrwyddo strategaethau dysgu effeithiol yn y dosbarth

- cyn belled â phosibl, effaith newidiadau mewn ymarfer proffesiynol ar gyrhaeddiad disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd.

Ffynonellau tystiolaeth

1.9 Gellir gweld manylion llawn y fframwaith a'r methodolegau gwerthuso yn Atodiad B. Prif ffynonellau tystiolaeth yr adroddiad hwn yw:

- Cyfweiliadau gyda **rhanddeiliaid allweddol** yn cynnwys Arweinwyr Prosiect yn Llywodraeth Cymru, yr Arweinydd Llythrennedd a/neu Rhifedd yn Estyn, staff y National Foundation for Educational Research (a ddyfeisiodd y Profion Cenedlaethol) ac Ymddiriedolaeth Addysg CfBT (a ddarparodd y RhGG cyn trosglwyddo cyfrifoldeb i'r pedair ardal Consortia).
- Anfonwyd e-arolwg at yr holl **uwch arweinwyr** mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru (yn cynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion).
- **Astudiaethau achos seileidig ar ardaleodd** yn cynnwys ymweliadau â 19 o ysgolion mewn pedwar clwstwr (un ym mhob Consortiwm). Roedd yr ymweliadau'n cynnwys cyfweiliadau gydag uwch arweinwyr, athrawon dosbarth, disgyblion a rhieni.
- Dadansoddiad o **ddata lefel disgybl** o'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion (CDdGD) i ystyried newidiadau yn lefelau cyrhaeddiaddisgyblion yn dilyn cyflwyniad y RhLIRhC.

Yr adroddiad hwn

1.10 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro yn y modd canlynol:

- **Adran 2: Barn am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Profion Cenedlaethol;** mae'r adran hon yn ystyried barn prif grwpiau rhanddeiliaid megis y Consortia ac ymarferwyr mewn ysgolion am y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol. Rydym hefyd yn archwilio i ba raddau y mae'r RhLIRhC wedi cefnogi newidiadau yn y pwysigrwydd a roddir i wella ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd.
- **Adran 3: Cynnydd mewn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol;** yn yr adran hon rydym yn ystyried y cynnydd a wnaed gan ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig mewn gwreiddio'r FfLIRhC ar draws y cwricwlwm. Rydym hefyd yn ystyried pa rai o'r dulliau a fabwysiadwyd gan uwch arweinwyr sydd fel petaent

wedi bod yn fwy, neu'n llai, effeithiol mewn cefnogi gweithrediad y FfLIRhC ac yn ystyried effaith cyflwyniad y FfLIRhC ar ymarfer addysgeg a phrosesau gweinyddol ysgolion.

- **Adran 4: Cynnydd mewn gweithredu'r Profion Cenedlaethol;** mae'r adran hon yn ystyried y cynnydd a wnaed gan ysgolion cynradd ac uwchradd mewn gwreiddio'r Profion Cenedlaethol ac yn archwilio sut y caiff data Profion ei ddefnyddio i gefnogi addysgu a dysgu. Rydym hefyd yn ystyried effaith cyflwyniad y Profion ar ymarfer addysgeg a phrosesau gweinyddol ysgolion.
- **Adran 5: Dealltwriaeth o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Profion Cenedlaethol ymhlith disgyblion a rhieni;** mae'r adran hon yn ystyried lefel y ddealltwriaeth o'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol ymhlith disgyblion a'u rhieni ac yn archwilio'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion i gefnogi codi ymwybyddiaeth. Byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'n ymddangos bod argaeledd data ar gynnydd disgyblion wedi cefnogi mwy o ymglymiad/ymgysylltiad rhieni mewn addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd.
- **Adran 6: Effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael gan Lywodraeth Cymru;** rydym yn ystyried effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael i ymarferwyr gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cyflwyniad y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol. Yn benodol byddwn yn ystyried ymwybyddiaeth, defnydd a defnyddioldeb canfyddedig yr adnoddau canllaw a'r deunyddiau addysgu a gynhyrchwyd ar ran Llywodraeth Cymru ac effeithiolrwydd canfyddedig y Rhaglen Gymorth Genedlaethol.
- **Adran 7: Effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael gan Consortia Addysg Rhanbarthol;** yn yr adran hon rydym yn ystyried effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael i ymarferwyr gan Consortia i gefnogi cyflwyniad y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried pa fathau o gefnogaeth sydd fel petaent wedi bod yn fwyaf effeithiol mewn bodloni anghenion cefnogaeth ymarferwyr.
- **Adran 8: Effaith y RhLIRhC mewn cefnogi gwelliannau i ymarfer proffesiynol;** rydym yn ystyried effaith y RhLIRhC ar ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd, ar y defnydd o ddata asesu i gefnogi addysgu a dysgu, ac ar ansawdd y cydweithredu rhwng ymarferwyr.

- **Adran 9: Effaith y RhLIRhC ar ganlyniadau dysgu disgyblion;** rydym yn archwilio'r dystiolaeth ynglŷn ag a yw'r RhLIRhC wedi cefnogi gwelliannau cyflawniad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 ai peidio.
- **Adran 10: Canfyddiadau ac Argymhellion;** yn yr adran hon rydym yn crynhoi canfyddiadau'r astudiaeth ac yn nodi argymhellion ar gyfer rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Consortia ac ysgolion.

2. Barn am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Profion Cenedlaethol

- 2.1 Bydd y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol ond yn cefnogi newidiadau yn y dulliau a fabwysiadir gan ymarferwyr o ran addysgu llythrennedd a rhifedd os bydd yr ymarferwyr yn deall pam y cawsant eu cyflwyno ac yn gweld potensial y RhLIRhC fel modd o gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu. Wrth gefnogi gweithrediad y RhLIRhC mae'n bwysig cydnabod rôl rhanddeiliaid allweddol megis y Consortia Addysg Rhanbarthol (a elwir wedi hyn yn Consortia). Mae eu barn am, ac yna eu blaenoriaethu o'r RhLIRhC wedi cael y potensial i ddylanwadu ar i ba raddau y mae uwch arweinwyr (ac yn y pen draw ymarferwyr dosbarth) wedi ymateb i'r diwygiadau.

Blaenoriaethu'r RhLIRhC gan Consortia

- 2.2 Ers eu sefydlu yn 2013 mae'r Consortia, mewn partneriaeth ac Awdurdodau Lleol sy'n gynwysedig, wedi bod yn gyfrifol am gefnogi ysgolion yn eu rhanbarth i wella'r canlyniadau addysg ar gyfer disgyblion. Fel y'i codiwyd yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014), mae disgwyl i'r Consortia-i ddarparu 'arweinyddiaeth strategol ar gyfer llinynnau gwaith allweddol megis... llythrennedd a rhifedd'. Mae disgwyl iddynt hefyd sicrhau bod 'cyflwyniad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn effeithiol ar draws yr holl ysgolion a chydlynw a sicrhau ansawdd darpariaeth hyfforddiant a datblygiad er mwyn cyflawni hyn' (Llywodraeth Cymru, 2014a).

Goblygiadau strategol

- 2.3 Yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru (2013a), mae dogfennau a gynhyrchir gan y Consortia (megis eu cynlluniau busnes blynyddol) yn amlygu gwella'r canlyniadau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn llythrennedd a rhifedd fel blaenoriaeth allweddol.³ Ategodd cyfweleion o'r Consortia y pwyslais hwn. Fel y nodwyd gan Estyn (2015) yn ei adolygiad diweddar o berfformiad y Consortia, mae 'ffocws cryf ar gefnogi gwelliant mewn llythrennedd a rhifedd'. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod llai o eglurder ynglŷn â'r pwysigrwydd cymharol ar roddir i'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol fel modd o gefnogi gwelliant mewn safonau o gymharu â

³Fel enghraifft gweler: Cynllun Busnes 2016-19 Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru (2015) (Casnewydd: Gwasanaeth Cyflawni Addysg)

gweithgareddau eraill a fwriadwyd i gefnogi gwelliant mewn ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd.

- 2.4 Er enghraifft, er bod y Consortia yn ystyried codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaeth, amrywiol oedd y flaenoriaeth a roddwyd i gyflwyniad y FfLIRhC fel modd o gefnogi'r amcan hwn. Er enghraifft, fel y nodwyd gan un Cynghorydd Her (a oedd hefyd yn arbenigwr llythrennedd)

'ffocws y flwyddyn hon [2015/16] fu helpu ysgolion uwchradd i baratoi ar gyfer y TGAU newydd. Byddai disgwyl bod y FfLIRhC yn flaenoriaeth [ar gyfer ysgolion eleni] yn naïf. Fy ngwaith i oedd sicrhau bod y FfLIRhC yn cael ei weld fel offeryn y gellir ei ddefnyddio i baratoi pobl ifanc i gyflawni'r cymwysterau newydd' (Cynghorydd Her).

- 2.5 Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae'r amrywioldeb yn y blaenoriaethu a roddir i weithredu'r RhLIRhC wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â'r dulliau a fabwysiadir gan y Consortia er mwyn cefnogi gwelliannau mewn safonau addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd. Ar lefel strategol, roedd y model a fabwysiadwyd gan Consortia yn cynnwys yr elfennau cyffredin canlynol:

- Mynegiant o'r rôl allweddol a chwaraewyd gan **Gynghorwyr Her** mewn nodi'r person a oedd yn gyfrifol am nodi anghenion cefnogaeth ysgolion partner a broceru mynediad at gefnogaeth pan a phryd y bo hynny'n briodol (gan yr AALI lleol, y Consortia neu ysgolion lleol eraill).
- Darpariaeth ar gyfer tîm craidd o **arbenigwyr llythrennedd a rhifedd** sydd â'r gwaith o gefnogi gwelliannau mewn ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd o fewn eu rhanbarth. Wedi dweud hyn, roedd hi'n amlwg yn dilyn newidiadau diweddar (a ddeilliodd o'r Model Newydd ar gyfer Gweithio Rhanbarthol) bod maint a chylch gwaith y timau hyn yn amrywio'n fawr ym mhob ardal Consortiwm. Fel y nodwyd gan un arbenigwr llythrennedd:

'hyd yn oed yn dilyn ehangiad diweddar y tîm dim ond 9.6 cyfwerth ag amser llawn oeddem. Rhyngom, rydym yn darparu ar gyfer dros 400 o ysgolion... Er mwyn gwneud hyn rydym yn canolbwyntio ein hymdrech ar ysgolion Coch ac Oren. Gall yr ysgolion hynny ddisgwyl cael mynediad at raglen gefnogi bwrpasol'. (Aelod staff Consortia).

Mewn Consortiwm arall, roedd hi'n ymddangos bod y ffocws ar ddatblygu offer ac adnoddau y gellid eu rhaeadru drwy'r rhanbarth; *'Does gennym mo'r gallu i fynd i mewn i bob ysgol, felly rydym wedi*

canolbwyntio ar roi map llwybr iddynt er mwyn eu rhoi ar ben y ffordd
(Aelod staff Consortia).

- Fel yr anogir drwy'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol pwyslais cynyddol ar **hwyluso gweithgarwch cydweithredol** rhwng ysgolion a/neu ymarferwyr yn eu rhanbarth. Er enghraifft, ym mhob un o'r pedair ardal Consortia roedd hi'n amlwg bod y Tîm Llythrennedd a Rhifedd wedi cefnogi nodi Ymarferwyr Arweiniol mewn Llythrennedd a/neu Rhifedd a oedd ar gael i ddarparu cefnogaeth i ymarferwyr mewn ysgolion eraill⁴. Yn ogystal â hyn, mewn dwy o'r pedair ardal Consortia nodwyd ysgolion sy'n perfformio'n dda i weithredu fel hybiau ar gyfer darpariaeth cefnogaeth ysgol i ysgol. Mae'n ymddangos bod rhai o'r ysgolion hyn wedi cael eu dewis ar sail eu rhagoriaeth ganfyddedig mewn llythrennedd a rhifedd. Yn y ddwy ardal sy'n weddill mae'n ymddangos bod y pwyslais wedi ei roi ar feithrin cysylltiadau rhwng ysgolion.

- 2.6 Wrth i ni archwilio'r adborth gan ymarferwyr ynglŷn â'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Consortia fe fydd hi'n bwysig ystyried pa ddulliau sydd fel petaent wedi bod yn fwyaf effeithiol mewn cefnogi gwelliannau mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd.

Barn ymarferwyr

- 2.7 Nododd gwaith maes cychwynnol yn 2014 nad oedd ymarferwyr o reidrwydd yn ystyried y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol yn yr un goleuni. Roedd amheuan ymhlith rhai uwch arweinwyr ynglŷn â gwerth y Profion Cenedlaethol wedi golygu bod y FfLIRhC, ar yr adeg honno, fel petai wedi cymryd rôl llawer mwy amlwg yn syniadaeth uwch arweinwyr (fel y gellid disgwyl). Ar yr un pryd roedd barn (yn arbennig ymhlith ymarferwyr uwchradd) y byddai gweithredu'r FfLIRhC yn gofyn am lawer o waith (Carr a Morris, 2015). Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae barn ymarferwyr wedi newid wrth iddynt ddod yn gynyddol gyfarwydd â'r RhLIRhC ac yn y data sydd ar gael o'r Profion Cenedlaethol.

Barn am y FfLIRhC


- 2.8 Yn nodedig, ers 2014 mae'n ymddangos y bu consensws cynyddol ymhlith uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ynglŷn â chydabyddiaeth o botensial y FfLIRhC i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. O

⁴Roedd hi'n ymddangos bod llawer ohonynt wedi'u recriwtio gyntaf gan ddefnyddio cyllid Grant Effeithiolrwydd Ysgol ar gyfer ALIRhRh.

ganlyniad, efallai nad oedd yn syndod bod pob un o'r pedair ysgol ar ddeg y gwnaethom ymweld â hwy yn ystyried hyn yn flaenoriaeth strategol (ac yn wir, mewn llawer o achosion, roedd yn amcan o fewn Cynllun Datblygu Ysgol Sengl ysgolion).

- 2.9 Mae'n ymddangos bod mabwysiadau'r FfLIRhC fel blaenoriaeth gwella ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar broffil llythrennedd a rhifedd ymhlith ymarferwyr addysg (gweler Ffigur 2-1). Fel y dangosir isod, roedd dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr i'r arolwg arweinwyr ysgol a atebodd y cwestiwn hwn yn 2015 yn teimlo bod proffil llythrennedd a rhifedd wedi cael ei godi ymhlith arbenigwyr Saesneg/Cymraeg a/neu arbenigwyr Mathemateg (i fyny o ychydig dros ddwy ran o dair yn 2014). Efallai'n fwy arwyddocaol, roedd cynnydd hefyd yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod proffil llythrennedd a rhifedd wedi cynyddu ymhlith athrawon nad oedd yn arbenigwyr Saesneg/Cymraeg nac yn arbenigwyr Mathemateg (cynnydd o bedair rhan o bump o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn 2014 i ychydig dros bedair rhan o bump ohonynt yn 2015).

Ffigur 2-1: Effaith ganfyddedig y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar broffil llythrennedd a rhifedd



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 431 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol (Arbenigwyr Cymraeg/Saesneg: 2014 = 139. 2015 = 74, Arbenigwyr Mathemateg: 2014 = 139, 2015=76, Staff ar draws yr ysgol: 2014 = 136, 2015 = 65)

- 2.10 Mae'r cynnydd amlwg ym mhroffil llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ymddangos hyd yn oed yn fwy pendant pan ddadansoddir ymatebion uwch arweinwyr yn ôl math o ysgol. Teimlai ychydig dros naw o bob deg (92%) o uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd bod proffil llythrennedd a rhifedd wedi ei godi ymhlith yr holl staff ar draws yr ysgol; roedd hyn i fyny o ychydig dan hanner yr ymatebwyr (45%) yn 2014.
- 2.11 Cefnogir y canfyddiadau hyn gan adborth ymarferwyr dosbarth -⁵ mewn ysgolion astudiaeth achos. Yn wir, roedd pob un o'r 27 ymarferydd dosbarth y gwnaethom siarad â hwy wedi cymryd camau i wreiddio'r FfLIRhC yn eu hymarfer. Wedi dweud hyn, pan ofynnwyd iddynt ystyried i ba raddau yr oedd y FfLIRhC wedi rhoi modd i gefnogi gwelliant mewn ansawdd addysgu a dysgu yn eu hysgol, roedd ymarferwyr ychydig yn fwy gwyliadwrus ac roedd barn ynglŷn â'i effeithiolrwydd fel offeryn yn amrywio rhwng ymarferwyr dosbarth mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig.

Barn ymarferwyr cynradd

- 2.12 Roedd hi'n ymddangos mai ymarferwyr cynradd oedd y mwyaf cadarnhaol o'r holl gyfweleion ynglŷn â photensial y FfLIRhC i gefnogi gwelliant mewn ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Yn wir, ym mhob un o'r saith ysgol gynradd yr ymwelwyd â hwy yn 2016, teimlai mwyafrif yr ymarferwyr ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol. Wedi dweud hyn, yn ymarferol roedd hi'n ymddangos mai ychydig iawn o newidiadau a wnaed gan ymarferwyr cynradd i gefnogi cyflwyniad y FfLIRhC. Er enghraifft, dywedodd un o'r arweinwyr canol 'nid yw'r dull y mae'n ei hyrwyddo mor wahanol i'r hyn yr oeddem eisoes yn ei wneud' (Arweinydd canol mewn ysgol gynradd). O ganlyniad, mae'n ymddangos mai prif ganlyniad cyflwyniad y FfLIRhC oedd mwy o ymrwymiad ymhlith ymarferwyr i weithredu dulliau trawsgwricwlaidd ar gyfer addysgu a dysgu. Fel y nodwyd gan un o'r athrawon: 'mae'r FfLIRhC wedi rhoi mwy o hyder i ni symud ymlaen gyda dull thematig ar gyfer addysgu'r cwricwlwm cynradd' (Athro dosbarth mewn ysgol gynradd). O ganlyniad, nodwyd bod ei ysgol yn bwriadu symud i ddull cwbl thematig ar gyfer addysgu'r cwricwlwm: yn y rhan fwyaf o ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy roedd pynciau sylfaen yn cael eu haddysgu mewn modd thematig, ond câi llythrennedd a rhifedd yn aml eu haddysgu fel pynciau penodol.

⁵ Yn cynnwys athrawon cymwysedig, ANG a chynorthwywyr addysgu

Barn ymarferwyr mewn ysgolion arbennig

- 2.13 Yn y pedair ysgol arbennig y gwnaethom ymweld â hwy, roedd ymarferwyr dosbarth yr un mor gadarnhaol ynglŷn â chyflwyniad y FfLIRhC. Fodd bynnag, roedd hi'n ymddangos bod gan gyflwyniad y Fframwaith wahanol oblygiadau ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau arbennig o gymharu â lleoliadau prif ffrwd. Fel y dywedodd un arweinydd canol:

'dros y blynyddoedd diwethaf mae'r sector wedi bod yn gweithio'n galed i wella canlyniadau dysgu ar gyfer pobl ifanc sydd yn ein gofal. Nid yw'r ffaith eu bod yn hapus ac y gofalir amdanynt yn dda yn ddigon. Mae'r FfLIRhC wedi cefnogi'r amcan hwn ac wedi gwneud i ni ganolbwyntio ar sgiliau cyfathrebu fel ffactor allweddol mewn penderfynu a yw person ifanc yn barod am annibyniaeth yn ddiweddarach yn ei fywyd' (Arweinydd canol mewn ysgol arbennig).

- 2.14 Wedi'i ystyried yn y goleuni hwn mae'n ddiddorol nodi er bod nifer o ymarferwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chysyniad y FfLIRhC fel modd o hyrwyddo gwell canlyniadau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, roedd rhai yn cwestiynu a allai'r Fframwaith ei hun fel y'i datblygwyd gan Lywodraeth Cymru gael ei weithredu'n effeithiol mewn cyd-destun ysgol arbennig. Er enghraifft, cwestiynodd llawer o'r staff y penderfyniad i ddatblygu datganiadau disgwyliad blwyddyn ar ôl blwyddyn; gan gofio bod mwyafrif y disgyblion yn gweithredu'n sylweddol y tu ôl i'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig gan blentyn o'r un oedran (felly, nid oeddent yn gallu mynychu lleoliad prif ffrwd). Yn ymarferol, gwnaethant nodi bod ymarferwyr wedi dewis asesu cynnydd disgyblion unigol yn erbyn y datganiad disgwyliad waeth beth fo'u hoedran. Tra bod hyn yn adlewyrchu'r dull a anogir gan Lywodraeth Cymru (gweler Llywodraeth Cymru, 2013c), roedd ymwybyddiaeth o'r canllawiau hyn ymhlith ymarferwyr dosbarth yn isel.

Barn ymarferwyr uwchradd

- 2.15 Yn yr ysgolion uwchradd y gwnaethom ymweld â hwy roedd ymarferwyr, er eu bod wedi ymrwymo i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd, yn fwy amheus ynglŷn â gallu'r FfLIRhC i gefnogi hyn yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae'n ymddangos bod nifer o faterion wedi cyfrannu at y farn hon:

- Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymarferwyr uwchradd ei bod fel petai'n llawer anos i wreiddio'r FfLIRhC fel offer cynllunio cwricwlwm ac asesu mewn cyd-destun ysgol uwchradd nac ysgol gynradd. Hefyd, roedd hi'n ymddangos bod rhywfaint o ansicrwydd ymhlith ymarferwyr ynglŷn sut y dylai arbenigwyr pwnc sydd ddim yn staff Saesneg/Cymraeg neu Fathemateg fod yn gwreiddio'r FfLIRhC yn eu

cynllunio gwersi a sut y dylent fod yn ei ddefnyddio i fonitro cynnydd disgyblion yn eu dosbarthiadau.

- Roedd canfyddiad ymhlith rhai uwch arweinwyr/arweinwyr canol na fyddai cyflwyno'r FfLIRhC yn unig yn ddigon i weld gwelliant yn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd oni bai bod adnoddau ychwanegol i gyd-fynd ag ef er mwyn cefnogi DPP ar gyfer athrawon (yn arbennig y rheini nad oedd yn arbenigwyr Saesneg/Cymraeg a/neu Mathemateg). Er y teimlwyd y gallai Cydlynwyr Llythrennedd a Rhifedd chwarae rôl bwysig mewn cefnogi athrawon yn eu hysgolion nid oedd hyn yn cyfateb i'r galw gan staff. Fel y dywedodd un athro dosbarth: 'mae rhai ohonom heb wneud Saesneg neu Fathemateg ers i ni wneud ein TGAU. Yn fy achos i, roedd hynny gryn amser yn ôl' (Athro dosbarth mewn ysgol uwchradd).

Barn am y Profion Cenedlaethol


- 2.16 Fel y soniwyd yn yr adroddiad interim, cymysg oedd yr ymateb gwreiddiol ymhlith ymarferwyr i gyflwyniad y Profion Cenedlaethol (gweler Carr a Morris, 2015). Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion astudiaeth achos yr ymwelwyd â hwy yn 2014 yn defnyddio data o'r Profion i gefnogi addysgu a dysgu. Roedd rhai, fodd bynnag, wedi ceisio lleihau effaith cyflwyniad y Profion Cenedlaethol ar eu hymarfer gan nad oeddent yn credu (ar y pryd) eu bod yn darparu ffynhonnell ddefnyddiol o ddata i hysbysu addysgu a dysgu (yn arbennig ar gyfer plant iau). Wrth i'r ymarferwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r Profion Cenedlaethol, mae'n bwysig ystyried y graddau y mae eu barn wedi newid a'r effaith y gallai hyn fod wedi ei gael ar faint y maent wedi defnyddio'r Profion Cenedlaethol i gefnogi newidiadau mewn addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- 2.17 Mae'n galonogol bod hyder yng ngallu'r Profion Cenedlaethol i roi asesiad cywir o sgiliau llythrennedd a/neu rhifedd wedi cynyddu rhwng 2014 a 2015. Yn 2015, roedd ychydig dan dri chwarter yr uwch arweinwyr a ymatebodd i gwestiynau perthnasol (gweler Atodiad B) yn teimlo bod y Profion wedi rhoi asesiad effeithiol o sgiliau darllen a rhifedd eu disgyblion (74% a 71% yn y drefn honno). Yn 2014, roedd cyfran lai yn teimlo mai felly yr oedd hi, teimlai 66% a 57% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn bod rhifydddeg gweithdrefnol a rhesymu rhifyddol yn yr un drefn wedi rhoi hyn. Ar y llaw arall, teimlai 70% bod y Prawf Darllen yn rhoi hyn.
- 2.18 Cadarnhawyd hyn gan adborth ymarferwyr mewn ysgolion astudiaeth achos a'r Consortia. Fel y nodwyd gan un arbenigwr llythrennedd: 'er bod yn dal rhai Penaethiaid sydd wedi ceisio brwydro yn erbyn y Profion [Cenedlaethol],

mae'r mwyafrif helaeth nawr yn ceisio gwneud defnydd o'r data' (Aelod staff Consortia). Wedi dweud hyn, er bod uwch arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion fel petaent wedi cymryd camau i ddefnyddio data o'r Profion Cenedlaethol, roedd amrywioldeb yn y ffyrdd yr oeddent yn cael ei ddefnyddio. Mewn un ar ddeg o'r pedair ysgol ar bymtheg yr ymwelwyd â hwy, defnyddiodd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddata'r Profion Cenedlaethol yn bennaf i gefnogi asesiad grwpiau blwyddyn unigol. Mewn un ysgol nododd staff mai'r flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd gwreiddio data o'r Profion Cenedlaethol yn system tracio mewnol yr ysgol. Eleni, defnyddiwyd data i ddechrau dadansoddi perfformiad gwahaniaethol gwahanol grwpiau blwyddyn a nodi meysydd ar gyfer gwella. Mewn ysgolion o'r fath roedd hi'n ymddangos nad oedd llawer o ddadansoddi wedi ei wneud i nodi cryfderau a gwendidau disgyblion unigol.

- 2.19 Roedd hi'n ymddangos bod amharodrwydd ymhlith ymarferwyr i ddefnyddio data Profion Cenedlaethol i gefnogi dadansoddiad lefel disgybl wedi'i gysylltu i bryderon parhaus ynglŷn ag effeithiolrwydd canfyddedig y Profion Cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth ddigon manwl i gynorthwyo athro dosbarth i nodi camau nesaf priodol ar gyfer unigolion, yn enwedig yn achos disgyblion sy'n hanesyddol wedi perfformio ar lefel is na'u disgwyliad cysylltiedig ag oedran. Roedd pryderon o'r fath i'w gweld yn amlwg yn ymatebion uwch arweinwyr i'n harolwg yn 2015. O'r rheini a ymatebodd i'r cwestiynau ar asesiad gwahaniaethol (tua phedwar o bob pump o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg cyfan) dywedodd dros 80% bod y Profion wedi rhoi asesiad cywir o sgiliau darllen a rhifedd y disgyblion mwy abl (neu ddawnus a thalentog) (81% a 80% yn y drefn honno – gweler Ffigur 2-2). I'r gwrthwyneb, nid oedd tua hanner (49%) yr ymatebwyr yn teimlo bod y Profion yn rhoi asesiad cywir o sgiliau disgyblion a oedd yn tanberfformio (neu'r rheini nad oedd yn perfformio i'w disgwyliad cysylltiedig ag oedran)⁶.

⁶Er hynny, mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru yn caniatáu dysgwyr sydd ag AAA sylweddol na fyddai'n gallu cyrchu'r profion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eu grŵp oedran Cwricwlwm Cenedlaethol (ac o ganlyniad mae'r profion wedi cael eu hanghymwyso ar eu cyfer) i gofrestru rhywfaint o gyrhaeddiad yn erbyn y profion drwy sefyll y rheini sy'n cyfateb orau i'w cyrhaeddiad. Fodd bynnag, ni ellir cyflwyno canlyniadau'r profion hyn i Lywodraeth Cymru ar gyfer safoni oedran fel rhan o ffurflenni blynyddol yr ysgol. (Llywodraeth Cymru, 2017)

Ffigur 2-2: Gallu canfyddedig y Profion Cenedlaethol i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion (2015)



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (426 ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol
a 427 ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol)

N. Ar goll= Newidiol (**Rhifedd**)

Pob disgybl: 141,

Disgyblion mwy abl/dawnus a thalentog: 141,

Disgyblion sy'n tanberfformio: 141,

Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol: 142,

Disgyblion gyda Chymraeg a/neu Saesneg fel iaith Ychwanegol: 149)

N. Ar goll= Newidiol (**Darllen**)

Pob disgybl: 124,

Disgyblion mwy abl/dawnus a thalentog: 124,

Disgyblion sy'n tanberfformio: 125,

Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol: 125,


Disgyblion gyda Chymraeg a/neu Saesneg fel iaith Ychwanegol: 129)

2.20 O gofio'r canlyniadau hyn, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru (a datblygwyr y prawf) ystyried a ellid (ac a ddylid) gwneud mwy i fynd i'r afael â phryderon ymarferwyr. Byddai hyn yn golygu sicrhau bod y Profion Cenedlaethol yn asesu'n fwy cywir lefelau sgiliau disgyblion llai abl, a sicrhau bod canlyniadau o'r prawf yn rhoi lefel digon manwl i wahaniaethu anghenion disgyblion sy'n gweithredu'n is na'u disgwyliad cysylltiedig ag oedran. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2018-19 bydd Llywodraeth Cymru yn disodli'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol presennol gydag 'asesiadau wedi'u

personoli' addasol, ar-lein newydd. Bydd yr asesiadau wedi'u cynllunio i addasu pa mor anodd yw'r cwestiynau yn unol ag ymatebion y sawl sy'n sefyll y prawf. Byddant hefyd yn rhoi adborth mwy manwl ar lefel dysgwr unigol, er mwyn cefnogi cynnydd. Fel rhan o'r gweithgarwch hwn, dylid rhoi ystyriaeth i fonitro ac adolygu er mwyn sicrhau bod y profion newydd hyn yn bodloni eu nod datganedig

- 2.21 O gofio'r amrywioldeb amlwg yn y ffyrdd y mae uwch arweinwyr wedi ceisio defnyddio data o'r Profion Cenedlaethol, mae'n werth nodi bod y gyfran gyffredinol o ysgolion sy'n defnyddio profion safonedig eraill i asesu sgiliau darllen a rhifedd eu disgyblion (yn ychwanegol at y Profion Cenedlaethol) wedi aros ar y cyfan yn gyson:
- Yn 2014 a 2015, dywedodd ychydig o dan bedair rhan o bump (78%) o'r uwch arweinwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod wedi defnyddio profion ychwanegol eraill i asesu sgiliau darllen eu disgyblion.
 - Dywedodd ychydig yn llai o uwch arweinwyr eu bod yn defnyddio profion eraill i asesu sgiliau rhifedd eu disgyblion. Yn 2014 dywedodd drwy ran o dair (66%) eu bod wedi gwneud hyn, ac erbyn 2015, ychydig dros dair rhan o bump a ddywedodd hynny (61% - gweler Ffigur 2-3).
- 2.22 Defnyddiodd staff mewn ysgolion astudiaethau achos ystod o brofion (rhai safonedig a ddim yn safonedig) i ategu'r data a ddarparwyd gan y Profion Cenedlaethol. Er bod nifer o'r rhain wedi cael eu datblygu gan ymarferwyr unigol (yn aml wedi'u seilio ar bapurau profion blaenorol), roedd eraill ar gael yn fasnachol megis profion New Group Reading Test and Progress in Maths (a gynhyrchwyd gan GL Assessments ac NfER).
- 2.23 Defnyddiodd ymarferwyr hefyd offer eraill i asesu gwahanol agweddau ar lythrennedd na cheir eu hasesu gan y Prawf Darllen Cenedlaethol, megis ysgrifennu. Roedd y rhan fwyaf o'r offer hyn fel petaent wedi cael eu datblygu gan athrawon unigol.

Ffigur 2-3: Defnydd o brofion safonedig i gefnogi asesiad sgiliau llythrennedd a rhifedd



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 431 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol

(Prawf Darllen Cenedlaethol: 2014 =25, 2015 =108

Profion Rhifedd Cenedlaethol: 2014 =70, 2015 =125)

- 2.24 Gellid ystyried canfyddiadau o'r fath rywfaint yn siomedig, o gofio bod staff polisi Llywodraeth Cymru wedi dynodi eu bod yn anelu i weld lleihad mewn defnydd profion safonedig eraill (a'r costau trwyddedu a delir gan ysgolion). Mae'n bwysig cydnabod bod ysgolion eraill yn dal i ddefnyddio offer asesu eraill i gefnogi asesiad cyflawn o sgiliau disgyblion (er enghraifft, cynnydd disgyblion mewn ysgrifennu, siarad a gwrando - sgiliau na asesir gan y Profion Cenedlaethol). Fodd bynnag, byddai hyder cynyddol yn effeithiolrwydd y Profion Cenedlaethol i asesu perfformiad grwpiau blwyddyn unigol yn awgrymu bod y data yn cyflawni swyddogaeth werthfawr mewn cefnogi hunanwerthusiad ar lefel ysgol a hysbysu cynllunio datblygu ysgol.

Canfyddiadau Allweddol:

Blaenoriaethu'r RhLIRhC gan Gonsortia

- Mae gwella'r canlyniadau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn Llythrennedd a Rhifedd yn flaenoriaeth strategol ym mhob un o'r pedair ardal Consortia.
- Er gwaethaf yr ymrwymiad a ddangoswyd gan Gonsortia i wella safonau llythrennedd a rhifedd, amrywiol yw'r flaenoriaeth a roddir gan Gonsortia i gefnogi gweithrediad y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol.
- Er bod y dulliau a fabwysiadwyd gan Gonsortia i gefnogi gwelliant yn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd yn sylweddol wahanol cânt eu nodweddau gan elfennau cyffredin:
 - mynegiant o'r rôl allweddol a chwaraeir gan Gynghorwyr Her mewn nodi anghenion cefnogaeth a broceru mynediad at gefnogaeth briodol
 - darpariaeth ar gyfer tîm craidd o arbenigwyr llythrennedd a rhifedd
 - pwyslais cynyddol ar hwyluso gweithgarwch cydweithredol rhwng ysgolion ac ymarferwyr i gefnogi datblygiad a rhannu ymarfer effeithiol.

Barn ymarferwyr am y FfLIRhC

- Ers 2014 mae'n ymddangos y bu cytundeb cynyddol ymhlith ymarferwyr ynglŷn â photensial y FfLIRhC i gefnogi gwelliant mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau'n dal i fodoli ym modlonrwydd cymharol ymarferwyr cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig:
 - Mae'n ymddangos mai ymarferwyr cynradd yw'r mwyaf cadarnhaol ynglŷn â photensial y FfLIRhC. Caiff y Fframwaith ei ystyried yn gyffredin fel un sy'n hyrwyddo dull thematig i addysgu'r cwricwlwm.
 - Roedd ymarferwyr mewn ysgolion arbennig yr un mor gadarnhaol ynglŷn â photensial y FfLIRhC i gefnogi gwelliant yn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd ond yn aml mynegasant bryderon ynglŷn â pherthnasedd y FfLIRhC mewn cyd-destun ysgol arbennig. Er enghraifft, nodwyd mai lleiafrif y disgyblion mewn ysgol arbennig sy'n gweithredu'n unol â'u disgwyliad blwyddyn ar ôl blwyddyn.
 - Roedd ymarferwyr uwchradd, er wedi ymrwymo i wella ansawdd eu hymarfer, yn fwy amheus o allu'r FfLIRhC i'w cynorthwyo i wneud hyn. Roedd pryderon yn gyffredin yn cynnwys; cred bod y FfLIRhC yn llawer anos i'w wreiddio mewn cyd-destun uwchradd, diffyg eglurder ynglŷn â sut y dylai athrawon nad sy'n athrawon Saesneg a Mathemateg fod yn gwreiddio addysgu llythrennedd a rhifedd yn eu hymarfer a chanfyddiad y byddai cyflwyno'r FfLIRhC yn annigonol i gefnogi gwelliant yn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd heb ddarpariaeth ar gyfer DPP ychwanegol.

Barn ymarferwyr am y Profion Cenedlaethol

- Mae'n ymddangos bod defnydd data o'r Profion Cenedlaethol i gefnogi addysgu a dysgu wedi cynyddu ers 2014. Roedd hyn yn dangos hyder cynyddol yn y Profion fel asesiad cywir o lefel cyrhaeddiad person ifanc mewn llythrennedd a rhifedd.
- Mae peth tystiolaeth yn parhau bod data o'r Profion Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i gefnogi asesiad cynnydd disgyblion unigol, yn arbennig y rheini sy'n hanesyddol wedi perfformio ar lefel is na'r disgwyliad cysylltiedig ag oedran.

3. Cynnydd mewn cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

- 3.1 Bwriadwyd i'r FfLIRhC i gynorthwyo athrawon i wreiddio llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc ar gyfer pob dysgwr 5 i 14 oed' (Llywodraeth Cymru, 2014)⁷. Mae'r adran hon yn ystyried y cynnydd a wnaed mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig ers 2013. Wrth wneud hynny, rydym hefyd yn ystyried effeithiolrwydd dulliau uwch arweinwyr i wreiddio'r FfLIRhC. Ar lefel ystafell ddosbarth, rydym yn nodi dulliau addysgeg cyffredin a'u heffeithiolrwydd cymharol.
- 3.2 Wrth ystyried y cynnydd a wnaed tuag at wreiddio'r FfLIRhC, mae'n bwysig deall yn glir y canlyniad(au) sy'n gysylltiedig â'r broses hon. Er mwyn **gwreiddio'r** FfLIRhC, mae angen i sgiliau llythrennedd a rhifedd gael eu hymgorffori yn y cwricwlwm, boed hynny fel sgiliau a addysgir **ar draws y cwricwlwm** neu drwy ddefnyddio dull **trawsgwricwlaidd**. Byddai cysyniad datblygu sgiliau **ar draws y cwricwlwm** yn dynodi y defnyddir sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob gwers, fel sy'n briodol, waeth beth fo'r pwnc. Enghraifft o hyn fyddai disgyblion mewn dosbarth celf yn defnyddio'u sgiliau llythrennedd i ysgrifennu traethawd am fudiad celf. Mae dull **trawsgwricwlaidd** yn ceisio gwneud cysylltiadau **rhwng** pynciau, megis adeiladu'n fwriadol ar wybodaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol mewn gwyddoniaeth, er enghraifft, a gall fod yn amlwg mewn dull seiliedig ar destun (sydd ar y cyfan yn fwy cyffredin mewn ysgolion cynradd nac uwchradd) neu mewn **tasgau cyfoethog**, fel y diffinnir yn Carr a Morris (2015).

Gweithredu'r FfLIRhC ar lefel strategol

- 3.3 Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, o 2014 hyd 2015 roedd cynnydd o tua un rhan o bump yng nghyfran yr uwch arweinwyr a ddywedodd bod y FfLIRhC wedi cael ei weithredu'n strategol, ar lefel ysgol gyfan, drwy system cynllunio cwricwlwm a system asesu eu hysgol.
- 3.4 Cadarnhawyd y canfyddiad hwn mewn adborth gan gyfweleion yn yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy yn 2016. Yn yr ysgolion hyn roedd hi'n ymddangos bod newidiadau strategol wedi cael eu mabwysiadu i gefnogi gweithrediad y FfLIRhC:

⁷ Llywodraeth Cymru (2014). *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Ar gael ar-lein yn <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nFfLIRhC/?lang=en> [cyrchwyd 23 Awst 2016]

- **Nodi bod gweithrediad y FfLIRhC yn flaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol:** Yn yr holl ysgolion teimlwyd bod gwneud hyn yn sicrhau bod y flaenoriaeth a roddwyd i lythrennedd a rhifedd yn cael ei chyfathrebu'n glir ac effeithiol i'r holl staff. Roedd manteision gwneud hyn yn amlwg yn ein sgysiau gydag athrawon dosbarth, yr oedd gan bob un ohonynt ddealltwriaeth glir bod llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaethau ar lefel genedlaethol a lefel ysgol. Yn ogystal â hyn, roedd hi'n amlwg bod blaenoriaethu ysgol gyfan weithrediad y FfLIRhC yn cael effaith ar waith arweinwyr canol ac yn wir athrawon dosbarth. Dangoswyd hyn gan y ffaith bod, yn y mwyafrif o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy, dystiolaeth o ysgolion yn cyfeirio at yr angen i wreiddio'r FfLIRhC mewn cynlluniau adrannol, cynlluniau gwaith ar gyfer pynciau unigol a chynlluniau gwaith athrawon dosbarth.
- **Codi proffil y Cydlynnydd Llythrennedd a/neu Rhifedd:** Cyn cyflwyno'r FfLIRhC yn 2013, roedd gan nifer o ysgolion eisoes gydlynnydd llythrennedd a/neu rhifedd. Ers hynny mae'n ymddangos bod rôl y cydlynnydd wedi newid ac, mewn nifer o achosion, mae cydnabyddiaeth uwch wedi bod i'r rôl. Erbyn 2016 roedd gan y rôl cydlynnydd nodweddiadol ffocws ysgol gyfan; roedd cydlynwyr yn gweithio'n agos gydag uwch dimau arwain ac, mewn ysgolion uwchradd, penaethiaid adrannau. Yn aml roedd gan y rôl gyfrifoldeb ychwanegol, yn cynnwys cyfrifoldeb am hyfforddiant FfLIRhC mewnol a mynychu digwyddiadau llythrennedd a rhifedd allanol. Hefyd, roedd y rôl yn rhoi amser an-addysgu i gydlynwyr fel y gallent ganolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd.
- **Asesiad diagnostig o addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm:** Roedd nifer o ysgolion wedi defnyddio archwiliad yn 2013 i sefydlu gwaelodlin ar gyfer perfformiad ysgol mewn addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Roedd tystiolaeth gyfyngedig i awgrymu bod ysgolion wedi defnyddio offeryn archwiliad RhGG i hysbysu eu dull (dim ond un ysgol a wnaeth grybwyll yn benodol ei bod wedi ei ddefnyddio, gydag ail ysgol yn dweud ei fod wedi hysbysu ei dull). Fodd bynnag, mae'r ffaith bod rhai ysgolion wedi dechrau asesiad diagnostig **cyn** gweld yr offeryn archwilio RhGG, a bod y mwyafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn 2016 wedi ailadrodd yr archwiliad (ar y cyfan yn flynyddol - gweler 3.5 isod) yn awgrymu bod y cysyniad o hunanasesu i hysbysu gweithrediad y FfLIRhC ac (addysgu llythrennedd a rhifedd) wedi cael lle mewn ysgolion.

Gweithredu'r FfLIRhC ar lefel weithredol

3.5 Fel yn 2014, er mwyn cefnogi gweithrediad y FfLIRhC, roedd yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy yn 2016 fel petaent wedi mabwysiadu nifer o ddulliau. Roedd y rhain yn gyffredin yn cynnwys:

- **Mireinio cynlluniau gwaith presennol i hyrwyddo addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm:** Yn 2016, roedd mwyafrif yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â hwy (chwech o'r saith) a'r rhan fwyaf o'r ysgolion arbennig (tair o'r pedair) wedi cwblhau adolygiad o gynlluniau gwaith presennol i sicrhau eu bod yn ymdrin â'r datganiadau disgwyliad a nodir yn y FfLIRhC. Archwiliad neu ymarferiad mapio oedd hwn fel arfer i asesu cyflawniad presennol o'r llinynnau FfLIRhC. Fodd bynnag, dywedodd llai o ysgolion cynradd (tair o'r wyth yr ymwelwyd â hwy) eu bod wedi cwblhau proses debyg.
- **Newidiadau i gynllunio gwersi:** Roedd hi'n ymddangos bod athrawon yn ymgorffori gwahanol ddulliau o fewn eu cynllunio gwersi er mwyn gwreiddio'r FfLIRhC a hysbysu eu hymarfer yn y dosbarth:
 - **Cynradd:** dysgu thematig a 'thasgau cyfoethog'
 - **Uwchradd:** adnoddau FfLIRhC (gofodau rhithwir/blychau adnoddau); cynlluniau gwaith newydd; cynlluniau adrannol/cynlluniau gwersi newydd
 - **Arbennig:** dysgu thematig

Fel y cyflwynwyd yn gynharach, er mwyn gwreiddio'r FfLIRhC defnyddiodd ysgolion ddulliau 'trawsgwricwlaidd' ac 'ar draws y cwricwlwm' ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Roedd dulliau trawsgwricwlaidd yn fwy cyffredin mewn ysgolion cynradd, tra bod ysgolion uwchradd yn tueddu i gyflwyno llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, gan adlewyrchu seilwaith yr ysgol a'r gwahanol ffyrdd yr eir i'r afael â chynllunio'r cwricwlwm. Gwelwyd bod ysgolion arbennig (yn 2016) yn defnyddio cymysgedd o'r ddau ddull, yn dibynnu ar anghenion y garfan.

- **Datblygiad a gweithrediad system tracio ysgol gyfan:** Er mwyn tracio cynnydd disgyblion yn erbyn disgwyliadau cysylltiedig ag oedran, ceisiodd ysgolion roi systemau tracio ysgol gyfan ar waith i gefnogi


cyflwyniad y FfLIRhC⁸. Yn 2014, nododd ysgolion eu bod heb fod yn deall yn glir pwy ddylai fod yn gyfrifol am gofnodi cynnydd yn y system a lle nad oedd angen i'r system weithredu ar draws yr ysgol. Erbyn 2016 roedd gan yr holl ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy system tracio ysgol gyfan ar waith ac roeddent wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sicrhau bod tracio llythrennedd a rhifedd disgyblion yn cael ei wreiddio yn yr ysgol.

Cynnydd mewn gwreiddio'r FfLIRhC

- 3.6 Ar lefel weithredol, mae'n ymddangos mai cymysg yw'r cynnydd o ran gwreiddio'r FfLIRhC, gydag ysgolion yn gwneud cynnydd llawer arafach mewn gwreiddio'r FfLIRhC **ar draws** y cwricwlwm nac yr oeddent wedi'i wneud mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Er hynny, mae'n ymddangos bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud erbyn 2015, gydag ychydig dan un rhan o dair o ymatebwyr yr arolwg (40% o'r rheini oedd yn ymateb i'r cwestiwn) yn dynodi bod y FfLIRhC nawr wedi'i wreiddio'n llawn ar draws y cwricwlwm (i fyny o bron i 30% yn 2014).

⁸Rhoddodd y FfLIRhC ddyletswydd ar ysgolion i asesu cynnydd disgyblion yn erbyn y datganiadau disgwyliad a nodir yn y FfLIRhC o fis Medi 2014 er nad oes gofyniad i ysgol ddatblygu a gweithredu system tracio ysgol gyfan

Ffigur 3-1: I ba raddau yr oedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol wedi ei wreiddio yng nghylch asesu a chynllunio cwricwlwm yn yr ysgol



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinyddwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 431 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol (**Cylch asesu**)

Mewn Saesneg / Cymraeg: 2014 = 263, 2015 = 70,

Mewn Mathemateg: 2014 = 264, 2015 = 73,

Ar draws y cwricwlwm: 2014 = 263, 2015 = 71)

N. Ar goll= Newidiol (**System cynllunio'r cwricwlwm**)

Mewn Saesneg / Cymraeg: 2014 = 159, 2015 = 103,

Mewn Mathemateg: 2014 = 159, 2015 = 104,

Ar draws y cwricwlwm: 2014 = 159, 2015 = 100)

- 3.7 Dengys dadansoddiad pellach o'r data gyferbyniad rhwng graddau'r cynnydd a wnaed gan ysgolion cynradd mewn gweithredu'r FfLIRhC o gymharu ag ysgolion uwchradd. Yn 2014 dim ond pedwar y cant o'r ysgolion cynradd oedd yn meddwl bod y FfLIRhC wedi'i wreiddio'n llawn ar draws y cwricwlwm. Erbyn 2015 roedd hyn wedi cynyddu gan 18 pwynt canran, gan olygu bod tua un rhan o bump (22%) o'r ysgolion cynradd yn teimlo bod y FfLIRhC wedi'i wreiddio'n llawn ar draws y cwricwlwm. Er y gwelwyd darlun tebyg mewn ysgolion uwchradd, roedd i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn teimlo bod y FfLIRhC wedi'i wreiddio'n llawn yn is (erbyn 2015 roedd hyn wedi cynyddu i

14% o 1% yn 2014). Rhwng 2014 a 2015 roedd nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd a ddywedodd eu bod wedi gwneud cynnydd mewn gwreiddio'n rhannol y FfLIRhC ar draws y cwricwlwm hefyd yn dangos cynnydd⁹. Yn 2014, dywedodd 20% o'r ysgolion cynradd bod y FfLIRhC wedi'i wreiddio'n rhannol ar draws y cwricwlwm. Cynyddodd hyn gan 42 pwynt canran i 63% yn 2015. Gwnaeth ysgolion uwchradd gynnydd tebyg, roedd 22% wedi gwreiddio'r FfLIRhC yn rhannol ar draws y cwricwlwm yn 2014. Yn 2015 roedd y ffigur yn 70%, cynnydd o 48 pwynt canran.

- 3.8 Mae'n ddiddorol nodi, fodd bynnag, bod, rhwng 2014 a 2015, cyfran yr uwch arweinwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a deimlai bod y FfLIRhC wedi'i wreiddio'n llawn yng nghylch asesu eu hyssgol wedi cynyddu'n sylweddol. Ar draws y ddwy flynedd, cynyddodd y gyfran o tua un rhan o bump i bron i hanner mewn Saesneg/Cymraeg a/neu Mathemateg (Gweler Ffigur 3-1). Efallai bod hyn yn dangos y ffocws yn 2014 i gael system tracio ysgol gyfan ar waith.
- 3.9 Roedd hi'n ymddangos bod ysgolion uwchradd yn parhau ychydig y tu ôl i ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig o ran gwreiddio'r FfLIRhC yn eu cynllunio cwricwlwm a'u trefniadau asesu. Awgrymodd uwch arweinwyr/arweinwyr canol a holwyd yn y pedair ysgol arbennig a'r wyth ysgol gynradd yn 2016 eu bod yn meddwl eu bod wedi gwneud cynnydd. Fodd bynnag, roedd cyfran lai o'r ysgolion uwchradd (pedair o'r saith y gwnaethom ymweld â hwy) yn teimlo eu bod nawr yn addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm mewn modd cymharol gyson. Ym mhob ysgol dywedodd cyfweleion bod mwy y gallent ei wneud i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd ymhellach.
- 3.10 Awgrymodd yr uwch arweinwyr a chydlynwyr llythrennedd a/neu rhifedd y gwnaethom siarad â hwy yn 2016 bod gwreiddio llythrennedd yn y cwricwlwm wedi'i gyflawni yn haws nag oedd hi ar gyfer rhifedd. Teimlai cydlynwyr bod llythrennedd yn gyffredinol yn tanategu pob gweithgaredd a phwnc, lle'r oedd llai o ddefnydd amlwg gan rifedd ac felly roedd llai o gyfleoedd ar gyfer ei wreiddio'n ystyrion. Er y teimlwyd ei fod yn heriol, noddodd cydlynwyr yn 2016 eu bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd mewn gwreiddio rhifedd yn y cwricwlwm, tra'n cydnabod bod y siwrnai i'r pwnt hwn wedi bod yn llai rhwydd nag mewn llythrennedd.

⁹ Yn 2014, dywedodd 20% o'r ysgolion cynradd bod y FfLIRhC wedi'i wreiddio'n rhannol ar draws y cwricwlwm. Cynyddodd hyn 42 pwynt canran i 63% yn 2015. Gwnaeth ysgolion uwchradd gynnydd tebyg, Roedd 22% wedi gwreiddio'r FfLIRhC yn rhannol ar draws y cwricwlwm yn 2014. 70% oedd y ffigur yn 2015. Cynnydd gan 48 pwynt canran.

Materion yn ymwneud â gwreiddio'r FfLIRhC

- 3.11 Wrth fyfyrion ar ganfyddiadau arolwg 2015 ac adborth gan ysgolion, mae'n amlwg bod ysgolion wedi wynebu heriau cyffredin wrth wreiddio'r FfLIRhC ar draws y cwricwlwm. Ystyrir y rhain isod.

Sicrhau bod y FfLIRhC wedi'i wreiddio mewn modd cyson ar draws y cwricwlwm

- 3.12 Roedd yr uwch arweinwyr a ymatebodd i arolwg 2015 wedi'i gweld hi'n anodd gwreiddio'r FfLIRhC yn gyson ar draws y cwricwlwm (gweler Atodiad B). Teimlai tua hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg bod gwaith eto i'w wneud er mwyn sicrhau bod y FfLIRhC yn cael ei weithredu'n gyson yn eu cynllunio cwricwlwm (50%) a/neu cylch asesu (43%). O gofio mai bwriad penodol y FfLIRhC oedd cefnogi dulliau sy'n bodoli'n barod megis Asesu ar gyfer Dysgu, gellid teimlo ei bod rhywfaint o syndod bod cymaint o ysgolion yn gweld hyn yn heriol. Fodd bynnag, mewn realiti, efallai ei bod hi'n bwysig i wahaniaethu rhwng diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r mathau o ymddygiadau y mae'r FfLIRhC wedi'i gynllunio i'w cefnogi, a hyder uwch arweinwyr wrth weithredu'r FfLIRhC mewn modd sy'n gyson â'r rhain (a gaiff ei adolygu'n ffafriol gan Estyn a'u Cynghorydd Her). Yn gyson â chanfyddiadau'r Adroddiad Interim (Carr a Morris, 2015), roedd canfyddiad yr arolwg yn awgrymu archwaeth parhaus ymhlith ymarferwyr am ragor o ddeunyddiau 'enghreifftiol' sy'n dangos iddynt 'beth yw da'¹⁰.

Gweithredu dull ysgol gyfan ar gyfer tracio cynnydd disgyblion yn erbyn datganiadau disgwyliad y FfLIRhC

- 3.13 Yn ystod cyfnod ein hymweliadau astudiaeth achos yn 2014, teimlwyd mai un rhwystr mawr i wreiddio'r FfLIRhC oedd asesu cynnydd disgyblion yn erbyn y disgwyliadau cysylltiedig ag oedran blwyddyn ar ôl blwyddyn ar lefel ysgol gyfan (er gwaethaf sicrwydd gan Lywodraeth Cymru nad oedd hyn yn ofyniad gorfodol). Yn 2016, nid oedd hyn fel petai'n rhwystr mawr i ysgolion mwyach, er bod rhai ymarferwyr yn meddwl bod diffyg eglurder yn dal i fodoli ynglŷn â'r ffordd orau i gasglu a dadansoddi data tracio. Fodd bynnag, roedd rhai negeseuon cadarnhaol, wrth i ysgolion adrodd bod y FfLIRhC yn rhoi fframwaith i ffurfioli tracio data presennol a/neu ddatblygu prosesau tracio data gwell. Canlyniad bod â dulliau tracio data gwell oedd gwelliant yn ansawdd yr addysgu a nodi meysydd cryf a gwan o ran perfformiad ar lefel ysgol, grŵp blwyddyn, dosbarth a disgybl.

¹⁰Gellir cyrchu deunyddiau enghreifftiol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru (a phartneriaid eraill) hyd yma yn: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nFfLIRhC/framework?lang=en#/resources/browse-all/nFfLIRhC/framework?lang=en>

Sgiliau a gwybodaeth rhai sydd ddim yn arbenigwyr Saesneg/Cymraeg a Mathemateg

- 3.14 Fel yr adroddwyd yn flaenorol (Carr a Morris, 2015), roedd disgwyl, wrth i sylw nifer o uwch arweinwyr symud o ddatblygu strategaeth ar gyfer cyflwyno'r FfLIRhC tuag at ei wreiddio, y gallent hefyd symud tuag at asesiad o allu eu staff i wneud y math o newidiadau oedd eu hangen i'w hymarfer. Canfu arolwg o uwch arweinwyr yn 2013/14 mai her mewn gwreiddio'r FfLIRhC ar y cychwyn oedd lefel gwybodaeth a phrofiad athrawon. Erbyn 2014/15 roedd uwch arweinwyr yn dweud bod gwybodaeth a phrofiad athrawon yn eu hysgol wedi cynyddu'n sylweddol¹¹. Hyd yn oed yn 2016, roedd lefel sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhlith athrawon yn parhau'n ystyriaeth ganolog ar gyfer uwch arweinwyr a chydlynwyr, yn arbennig pan ofynnwyd iddynt i addysgu llythrennedd a rhifedd gan ddefnyddio dull thematig.
- 3.15 Roedd dysgu thematig, fel dull cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, yn fwyaf amlwg mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Roedd i ba raddau yr oedd y dull hwn i'w weld yn amrywio; mabwysiadodd rhai ysgolion thema neu destun fel craidd i'w cwricwlwm a mapio sgiliau llythrennedd a rhifedd (ac eraill) iddo. Gwnaeth ysgolion eraill y gwrthwyneb, gan nodi'r sgiliau yr oeddent am ganolbwyntio arnynt cyn penderfynu ar thema addas. Waeth beth fo'r dull a ddefnyddiwyd, teimlai uwch arweinwyr ac ymarferwyr dosbarth bod y defnydd o ddysgu thematig yn fodd effeithiol o addysgu ac y gallai arwain at fwy o 'ddysgu trwy brofiad'. Nododd ysgolion cynradd a oedd yn addysgu gan ddefnyddio dull thematig neu destun fel craidd i'w cwricwlwm bod hyn yn gofyn i athrawon dosbarth fod yn athrawon hyblyg a hyderus, sy'n awgrymu efallai nad yw'r dull hwn yn addas mewn ysgolion lle mae cyfran uwch o athrawon llai profiadol (neu hyderus).
- 3.16 Mewn ysgolion uwchradd, teimlwyd mai'r dulliau mwyaf effeithiol oedd y strategaethau a oedd yn cefnogi athrawon dosbarth yn ymarferol. Roedd y mathau o gefnogaeth a gynigiwyd yn cynnwys: grwpiau rhifedd a/neu llythrennedd mewnol; cefnogaeth unigol ar ffurf system 'cyfaill'; cyfleoedd ar gyfer DPP allanol. Waeth beth oedd y dull ar gyfer cefnogaeth, yr un oedd y canlyniad a fwriadwyd; galluogi athrawon i wreiddio llythrennedd a rhifedd yn eu gwersi mewn ffordd ystyrlon. Rhoddodd ysgolion hefyd fecanweithiau ar waith i asesu a oedd y gefnogaeth yn hwyluso cynnydd mewn neu well

¹¹Yn 2015 teimlai llai na hanner (46%) yr uwch arweinwyr a gyflwynodd ymateb i'r arolwg bod gwybodaeth a phrofiad yr athrawon yn eu hysgolion yn her wrth wreiddio'r FfLIRhC fel rhan o'r cylch asesu yn eu hysgol. Dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (41%) ei bod hi'n her i wreiddio'r FfLIRhC yn system cynllunio'r cwricwlwm. Yn 2014 dywedodd llai nag un rhan o bump (15%) bod gwybodaeth ac arbenigedd staff yn her mewn gwreiddio'r FfLIRhC fel rhan o'r cylch asesu yn eu hysgol. Dywedodd ychydig dan un rhan o dair (28%) ei bod yn her i wreiddio'r FfLIRhC yn eu system cynllunio'r cwricwlwm.

addysgu llythrennedd a rhifedd yn y dosbarth. Gwnaethom ganfod bod pob un o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â hwy yn defnyddio dulliau hunanwerthuso ac arsylwi ar ddosbarthiadau i sicrhau bod y dysgu sy'n deillio o'r mecanweithiau cefnogi wedyn yn cael eu rhoi ar waith.

- 3.17 Dangosodd astudiaethau achos 2016 bod uwch arweinwyr yn credu bod athrawon yn gwella blwyddyn ar ôl blwyddyn o ran gwreiddio llythrennedd a rhifedd mewn gwersi mewn modd ystyrlon, er bod rhifedd yn parhau i lusgo y tu ôl i lythrennedd. Teimlwyd bod y cydlynwyr wedi chwarae rôl bwysig mewn cynorthwyo athrawon i ganfod cyfleoedd i wreiddio llythrennedd a rhifedd yn ystyrlon. Teimlwyd hefyd bod gan gydlynwyr rôl bwysig mewn nodi a galluogi ffyrdd y gallai staff cymorth a staff an-addysgu gyfrannu i lythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, teimlai cydlynwyr a staff dosbarth ei bod yn fwy heriol i wreiddio rhifedd yn y cwricwlwm o gymharu â llythrennedd. Teimlai un uwch arweinydd bod 'llythrennedd yn gwau'n naturiol i'r rhan fwyaf o bynciau', lle bod cyfleoedd i gynnwys rhifedd yn llai amlwg: 'Gall athrawon weithiau ei chael hi'n anodd canfod enghreifftiau newydd o sut i integreiddio llythrennedd a rhifedd i'w gwersi, **yn arbennig** gyda rhifedd' (Uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd)
- 3.18 Ar y cyfan roedd ysgolion yn gadarnhaol ynglŷn â'r FfLIRhC a'r cynnydd a wnaed o ran ei wreiddio mewn gwersi. Mae pocedi o bryder yn dal i fodoli y gallai'r ffocws cryf ar lythrennedd a rhifedd, o bosibl, dynnu oddi wrth ddysgu pwnc, er bod lefel y pryder fel petai'n llai yn 2016 nag mewn blynyddoedd blaenorol a dywedodd rhai athrawon a holwyd, er ei fod yn bryder yn y gorffennol, nad felly y mae hi mwyach.

Canfyddiadau Allweddol:

- Mae cyflwyniad y FfLIRhC wedi cefnogi mwy o flaenoriaethu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion.
- Mae rhoi ystyriaeth i'r FfLIRhC mewn cynlluniau datblygu ysgol wedi bod yn ddull cyson ac effeithiol a ddefnyddiwyd gan ysgolion, waeth beth fo'u math na'u lleoliad. Mae'r cynlluniau nawr yn rhoi pwyslais ar ddefnydd dulliau 'ar draws y cwricwlwm' a 'thrawsgwricwlaidd' i sicrhau bod y FfLIRhC yn cael ei wreiddio.
- Mae ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn gwreiddio'r FfLIRhC yn eu cwricwlwm a'u cylchoedd asesu ers ei gyflwyno yn 2013. Roedd ysgolion yn parhau i gymryd camau i gryfhau eu gweithgarwch FfLIRhC ymhellach.
- Mae systemau tracio ysgol gyfan ar gyfer monitro cynnydd a chyflawniad disgyblion yn cael eu defnyddio'n eang. Mae ysgolion wedi creu eu systemau eu hunain, wedi'u teilwra i'w hamgylchiadau unigol ac yn teimlo bod y data yn cefnogi gwneud penderfyniadau drwy'r ysgol gyfan.
- Awgrymodd uwch arweinwyr a chydlynwyr y byddant yn elwa o gael mwy o sicrwydd (gan Consortia neu Lywodraeth Cymru) bod eu dull i wreiddio'r FfLIRhC yn gyson ag arfer da a'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. Byddai sicrwydd yn rhoi hyder iddynt yn eu dull, neu'n eu galluogi i ail-ganolbwyntio eu gweithgarwch FfLIRhC yn hyderus.
- Roedd cydnabyddiaeth rôl y cydlynnydd llythrennedd a/neu rhifedd wedi cynyddu o ganlyniad i'r FfLIRhC a'r flaenoriaeth yr oedd yn ei roi ar ddatblygiad llythrennedd a rhifedd. Roedd gan gydlynwyr rôl allweddol mewn cefnogi staff addysgu ac an-addysgu i wreiddio'r FfLIRhC yn eu gweithgareddau bob dydd.
- Gwnaed cynnydd sylweddol mewn hybu hyder a sgiliau athrawon dosbarth i addysgu llythrennedd a rhifedd, er bod pocedi yn dal i fodoli lle'r oedd cymhwysedd athrawon yn dal i gael ei ystyried. Mae'r mater hwn hefyd yn berthnasol i ddulliau addysgeg, lle mae gallu athrawon i addysgu gan ddefnyddio dull thematig, neu i addysgu'n ystyrlon drwy dasgau cyfoethog yn rhwystro i'w defnydd.

4. Cynnydd mewn gweithredu'r Profion Cenedlaethol

- 4.1 Bydd yr adran hon yn ystyried y cynnydd a wnaed gan ysgolion cynradd ac uwchradd mewn gwreiddio'r Profion Cenedlaethol a sut mae data profion yn cael ei ddefnyddio i gefnogi addysgu a dysgu. Byddwn hefyd yn ystyried effaith cyflwyniad y Profion ar ymarfer addysgeg a phrosesau gweinyddol ysgolion.

Dulliau a fabwysiadwyd gan uwch arweinwyr i gefnogi cyflwyniad y Profion Cenedlaethol

- 4.2 Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, cymysg fu barn ymarferwyr ynglŷn â gwerth y Profion Cenedlaethol mewn cefnogi gwelliannau yng nghyrhaeddiad disgyblion. Mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae eu barn am y data o'r Profion Cenedlaethol fel petai wedi dylanwadu ar y dulliau a fabwysiadwyd i'w gwreiddio yn eu hysgolion.
- 4.3 Teimlai dros hanner yr uwch arweinwyr a ymatebodd i gwestiynau perthnasol yn yr arolwg bod argaeledd data Profion wedi bod yn ddefnyddiol mewn cefnogi addysgu ar draws y cwricwlwm yn eu hysgol: dywedodd 50% o'r ymatebwyr bod y data o'r Prawf Darllen Cenedlaethol wedi bod yn ddefnyddiol. Dywedodd 63% o'r ymatebwyr bod y data o'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol wedi bod yn ddefnyddiol. Roedd hyn y newid sylweddol o 2014, pan oedd ychydig dan dri chwarter (71%) o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y data o'r profion rhifedd gweithdrefnol wedi bod yn ddefnyddiol. Mae hyn fel petai'n ddangosol o gynnydd graddol yn nifer yr ysgolion sy'n defnyddio data o'r Profion Cenedlaethol i gefnogi addysgu a dysgu.
- 4.4 Bydd yr adrannau canlynol yn mynd i'r afael, ar wahân, â'r dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion cynradd ac uwchradd, ers i'r ymchwil ansoddol amlygu rhai gwahaniaethau amlwg rhwng dulliau a fabwysiadwyd yn y ddwy fath o ysgol. Ni fydd yr adran hon yn ystyried ysgolion arbennig, oherwydd mai cyfyngedig oedd eu profiad o ddefnyddio'r Profion. Roedd y pedair ysgol arbennig yr ymwelwyd â hwy yn ystod y gwaith maes yn wahanol iawn i'w gilydd, o ran y mathau o ddisgyblion y maent yn canolbwyntio arnynt a'r dulliau gweithredol a ddefnyddiwyd. Mewn tair o'r ysgolion hyn, roedd y cwricwlwm yn anghymwys i'r mwyafrif (neu'r cyfan) o'r disgyblion ac, o ganlyniad, roeddent yn teimlo ei bod yn amhriodol gwreiddio'r Profion yn y cynllunio cwricwlwm a threfniadau asesu safonol. Roedd y bedwaredd ysgol arbennig wedi cymryd camau i gyflwyno'r Profion i'r mwyafrif o'i disgyblion, ond mae'n amlwg efallai na fydd profiad yr ysgol hon ar y cyfan yn briodol i ysgolion arbennig eraill ledled Cymru.

Dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion cynradd

- 4.5 Mae'n ymddangos bod ysgolion cynradd wedi wynebu mwy o heriau wrth addasu i'r Profion Cenedlaethol, gan nad ydynt wedi arfer â pharatoi eu disgyblion iau ar gyfer mathau mwy ffurfiol o asesu. Er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru y dylai profion gael eu cynnal mewn amgylchedd 'cyfforddus'¹², dywedodd rhai ymarferwyr bod 'amodau prawf' megis yr angen i weithio'n 'unigol' a heb gefnogaeth yn groes i'r diwylliant yr oeddent wedi ei feithrin yn flaenorol. Er enghraifft, dywedodd un ymarferydd ei fod yn annog dysgwyr i weithio'n annibynnol. O ganlyniad, os nad oeddent yn gwybod ateb i gwestiwn roedd hi'n arfer ganddynt godi o'u seddi a chwilio am ateb. Teimlwyd bod rhoi disgyblion mewn amgylchiadau prawf â'r potensial i dagu'r math hwn o ymholiad annibynnol.

Ar ddefnydd data

- 4.6 Gan ystyried yr hyder cynyddol yng ngallu'r data a gynhyrchir gan y Profion Cenedlaethol i gefnogi addysgu a dysgu, roedd hi'n werth nodi bod yr holl ysgolion cynradd y gwnaethom ymweld â hwy wedi cymryd rhai camau i wreiddio defnydd data yn eu hymarfer. Wedi dweud hyn, roedd sut y defnyddiwyd data yn amrywio'n sylweddol; defnyddiodd pedair o'r wyth ysgol gynradd y gwnaethom ymweld â hwy y data'n bennaf neu'n llwyr ar gyfer dadansoddiad grŵp blwyddyn tra bod y gweddill wedi ei ddefnyddio i dracio cynnydd disgyblion unigol.
- 4.7 Yn yr ysgolion hyn dadleuwyd bod y data yn ffordd dda o brofi dibynadwyedd asesiadau athrawon. Wedi dweud hynny, dywedodd staff er bod y data Profion yn ddefnyddiol, roedd asesiadau athrawon a oedd yn bodoli'n barod yn dal i gael eu gweld fel modd mwy cyfannol a dibynadwy o ddeall a mapio'r camau nesaf ar gyfer pob disgybl. Dywed canllawiau Llywodraeth Cymru bod y data profion yn un elfen o dystiolaeth i'w hystyried ochr yn ochr â data asesiad athrawon. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, ystyriwyd data profion yn fwy fel cadarnhad o wybodaeth asesiad athrawon a oedd yn bodoli. Fel y dywedwyd gan un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd 'ni wnaeth y Profion [Cenedlaethol] ddweud dim wrthym nad oeddem yn ei wybod yn barod am ein dosbarth' (Uwch arweinydd mewn ysgol gynradd)
- 4.8 Mewn tair o'r wyth ysgol gynradd y gwnaethom ymweld â hwy, roedd data Profion yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi cynllunio datblygu ysgol. Yn yr ysgolion hyn teimlai staff bod data Profion Cenedlaethol yn ddefnyddiol

¹²Gellir cyrchu llyfryn gweinyddu'r prawf (fel y'i diweddarwyd yn 2016) yn: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-administration-handbook/?lang=en>

mewn nodi'r meysydd y gallai carfanau penodol o ddisgyblion wneud gwelliannau ynddynt, ond nid oedd yn ddigon manwl i nodi'r camau nesaf ar gyfer dysgwyr unigol¹³.

Ar gyfer ymarfer addysgeg - Cynradd

- 4.9 Roedd effaith ganfyddedig y Profion Cenedlaethol ar ymarfer dosbarth yn amrywio ar draws yr ysgolion cynradd y gwnaethom ymweld â hwy. Teimlwyd bod datblygu'r sgiliau cywir i fodloni anghenion y Profion yn bwysig mewn rhai o'r ysgolion. Mewn tair o'r wyth ysgol gynradd gwnaeth athrawon ymdrech gydunol i wneud gwell defnydd, yn y dosbarth, o'r sgiliau a'r tasgau oedd i'w gweld yn y Profion fel ffordd o baratoi'r disgyblion. Roedd dwy o'r ysgolion hyn yn canolbwyntio'n benodol ar dasgau rhesymu/datrys problemau, gan y teimlwyd bod y rhain yn elfennau yr oedd y plant wedi'u gweld yn heriol. Nododd uwch arweinydd mewn un o'r ysgolion hyn bod athrawon, cyn cyflwyno'r profion, wedi rhoi pwyslais ar 'ruglder gweithdrefnol' yn hytrach na chymhwyso sgiliau mewn rhesymu rhifyddol, a bod y Profion wedi'i gwneud hi'n ofynnol iddynt newid yn eu dull.
- 4.10 Mewn tair o'r wyth ysgol gynradd nododd ymarferwyr na wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i ymarfer addysgeg yn dilyn cyflwyniad y Profion. Yn yr ysgolion hyn, dywedodd staff bod canlyniadau wedi dangos eu bod yn addysgu'r sgiliau a'r wybodaeth cynnwys yr oedd eu hangen ar ddisgyblion i wneud yn dda ac felly ni wnaethant unrhyw newidiadau i'w dull.
- 4.11 Roedd ysgolion cynradd hefyd yn wynebu her ychwanegol o gymharu ag ysgolion uwchradd, gan nad oedd gan eu disgyblion ieuengaf unrhyw brofiad o sefyll Profion ffurfiol. Mewn tair o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy, pwysleisiodd ymarferwyr effaith cyflwyniad y Profion, yn enwedig ar y disgyblion ieuengaf. O ganlyniad, teimlwyd ei bod hi'n bwysig bod disgyblion yn cael y cyfle i ymarfer, drwy sefyll ffug Brofion o dan amodau prawf yn yr ysgol, neu fel gwaith cartref. Yn wir, er yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru, mewn un ysgol, neilltuwyd pythefnos cyn y Pasg ar gyfer y diben hwn. Cydnabu staff yn yr ysgol hon bod perygl mewn gor-baratoi disgyblion ar gyfer y Profion, a cheisiodd sicrhau nad oedd hyn yn digwydd. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn annog ymarfer ar gyfer y Prawf Cenedlaethol, roedd athrawon mewn pedair o'r wyth ysgol wedi cyflwyno tasgau Prawf model yn eu gwersi.

¹³Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi ymarferwyr i ddadansoddi'r canlyniadau o'r Profion Cenedlaethol, wedi datblygu nifer o offer diagnostig. Gellir lawrlwytho'r rhain yn: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-diagnostic-support-tools/?lang=en>

Dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion uwchradd

- 4.12 Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer y Profion mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn wahanol i'r rheini a ddefnyddiwyd mewn ysgolion cynradd, gan fod ysgolion uwchradd yn dweud eu bod yn dueddol o fod yn gyfforddus gyda'r syniad o ddisgyblion yn cael eu hasesu drwy brofion (yn wahanol i ddisgyblion ieuengach mewn ysgolion cynradd). Roedd gan bob un ohonynt systemau ac arferion ar waith i gefnogi disgyblion gyda'u gwaith paratoi ar gyfer arholiadau TGAU a phrofion yn ystod y flwyddyn, o Flwyddyn 7 ymlaen. O ganlyniad, dywedwyd bod cyflwyniad y profion ar y cyfan yn llai heriol ar gyfer ysgolion uwchradd, ac roedd hi'n ymddangos bod y Profion yn haws i'w gwreiddio yn strwythurau presennol yr ysgolion.

Ymarfer addysgeg - Uwchradd

- 4.13 Er gwaethaf y ffaith eu bod yn gyfarwydd â phrofi, gwnaeth pedair o'r saith ysgol uwchradd newidiadau i'w hymarfer er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer y sgiliau a aseswyd yn y Profion Cenedlaethol. Gwnaeth athrawon yn yr ysgolion hyn ymdrech gydunol i ddefnyddio arddulliau cwestiynau a thasgau a oedd yn adlewyrchu'r rheini yr oeddent yn disgwyl eu gweld yn y Profion. Er nad oeddent yn meddwl bod hyn wedi gofyn am addasiad mawr yn eu dull addysgu, fe'i ystyriwyd yn rhan bwysig o ymgyfarwyddo disgyblion â'r hyn oedd yn ddisgwyliedig ganddynt.
- 4.14 Datblygodd dwy ysgol o'r fath ffocws arbennig ar resymu rhifyddol, yr oedd disgyblion ar y cychwyn (fel mewn ysgolion cynradd) yn teimlo oedd yn elfen heriol o'r Profion, oherwydd nad oeddent yn gyfarwydd â'r sgiliau hyn. Dywedodd uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn bod sgiliau rhesymu rhifyddol wedi bod yn flaenoriaeth isel cyn y Profion, a bod eu cyflwyniad wedi bod yn gatalydd ar gyfer gwella addysgu'r sgiliau hyn ymhlith y disgyblion.
- 4.15 Mae'n ymddangos mai bychan oedd effaith cyflwyniad y Profion ar ymarfer dosbarth athrawon y tu allan i'r Adrannau Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Wedi dweud hyn, teimlai nifer o'r ymarferwyr bod hyn i'w ddisgwyl o gofio bod cyflwyniad y FfLIRhC yn cefnogi'r mathau o newidiadau a fyddai wedi cael effaith gadarnhaol ar lythrennedd a rhifedd disgyblion a oedd yn debygol, mewn amser, i arwain at welliant yng nghanlyniadau Profion. Oherwydd hyn, teimlai athrawon bod eu gwaith ar y FfLIRhC ynddo'i hun yn ddigon i baratoi disgyblion i sefyll y Profion.
- 4.16 Yn groes i'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, teimlwyd bod gwaith paratoi cynaledig ar gyfer disgyblion yn y cyfnod yn union cyn y Profion hefyd yn bwysig mewn nifer o ysgolion, yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 3. Roedd ymarferwyr yn cydnabod eu bod (boed a oeddent wedi gwneud

newidiadau i ymarfer dosbarth ai peidio) ar y cyfan wedi neilltuo wythnos neu ddwy yn ystod y tymor i sicrhau bod disgyblion yn deall beth oedd disgwyl iddynt ei wneud pan fyddent yn sefyll y Profion.

Defnyddio data

- 4.17 Y maes allweddol arall i'w ystyried yw sut y gwnaeth ysgolion uwchradd ddefnydd o'r data a ddarparwyd gan y Profion. Fel y gellid disgwyl, roedd pob un o'r ysgolion uwchradd y gwnaethom ymweld â hwy wedi cymryd camau i gynnwys y data o'r Profion Cenedlaethol yn eu system tracio lefel ysgol. Fodd bynnag, yn y lleoliadau hyn roed hi'n ymddangos bod y data hwn wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi addysgu a dysgu mewn ffyrdd gwahanol.
- 4.18 Mewn chwech o'r saith ysgol uwchradd, y brif ffordd y cafodd data o'r Profion ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo i nodi disgyblion a oedd fel petaent wedi syrthio y tu ôl (neu oedd mewn perygl o syrthio y tu ôl) i'r safon ddisgwyliedig ar gyfer rhywun o'u hoedran hwy. Mewn rhai achosion roedd y disgyblion wedi cofrestru ar gyfer dosbarthiadau 'dal i fyny' neu wedi cael cefnogaeth arall er mwyn codi lefel eu perfformiad. Mewn dwy o'r saith ysgol defnyddiwyd y data hefyd yn benodol i gefnogi ymarferwyr Saesneg/Cymraeg a Mathemateg i dracio cynnydd eu disgyblion o ran datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.
- 4.19 Mae'n werth nodi, fodd bynnag, mai dim ond mewn un o'r saith ysgol uwchradd yr oedd data Prawf Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio gan staff a oedd yn arbenigwyr mewn pynciau ac eithrio Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Mae hyn ar y cyfan yn gyson â barn Consortia ac yn awgrymu, ef bod y FfLIRhC efallai'n cael ei wreiddio mwy ar draws yr ysgolion, ystyriwyd y Profion yn bennaf berthnasol i'r adrannau Saesneg/Cymraeg a Mathemateg.

Cynnydd mewn gwreiddio defnydd data o'r Profion Cenedlaethol ar draws y cwricwlwm

- 4.20 O gofio lefel yr amrywioldeb o fewn a rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd (mewn cefnogi cyflwyniad y Profion Cenedlaethol), mae'n anodd dod i un farn ynglŷn â chynnydd cymharol ysgolion mewn gwreiddio defnydd data o'r Profion i hysbysu addysgu a dysgu.
- 4.21 Mae diffyg dealltwriaeth a rennir o beth yw 'da'. Fel y nodwyd gan un aelod o staff Consortia wrth sôn am yr amrywiaeth barn sydd i'w weld mewn ysgolion lle roeddent yn gweithio: 'mae dal ysgolion sy'n gweld y Profion fel mesur perfformiad ysgol a'r rheini sy'n edrych i'w defnyddio i gefnogi addysgu o ddydd i ddydd' (Aelod staff Consortia). Yn ogystal â hyn, dywedodd un athro

bod 'diffyg eglurder yn parhau ynglŷn â sut y gellid defnyddio data [o'r Profion Cenedlaethol] mewn modd diagnostig' (Athro dosbarth, ysgol gynradd).

- 4.22 Dywedodd nifer o'r aelodau staff mewn ysgolion astudiaeth achos bod y dulliau/strategaethau a fabwysiadwyd gan eu Huwch Dîm Arwain i gefnogi defnydd data o'r Profion wedi cael eu gwreiddio'n llawn. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth eang efallai na fyddai hyn wedi arwain at ddefnydd data Profion fel offeryn diagnostig (fel y'i bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru). Dywedodd staff mewn chwech o'r saith ysgol uwchradd, er eu bod yn defnyddio data o'r Profion yn eu hysgol, mai dim ond mewn un achos yr oedd y data'n cael ei ddefnyddio mewn modd diagnostig i hysbysu addysgu dysgwyr unigol. Hefyd, dim ond mewn un ysgol y gwelwyd tystiolaeth bod arbenigwyr mewn pynciau heblaw Saesneg/Cymraeg a/neu Mathemateg yn defnyddio data Profion. Cwestiynodd ymarferwyr i ba raddau yr oedd hyn yn ddisgwyliedig er bod manteision y math hwn o ddull yn ymddangos yn weddol glir.
- 4.23 Yn yr ysgolion cynradd roedd hi hefyd yn amlwg bod ymarferwyr yn teimlo bod mwy y gallent fod yn ei wneud gyda'r data o'r Profion Cenedlaethol. Mae'n werth nodi bod pedair o'r wyth ysgol gynradd wedi dweud er eu bod wedi mynd cryn ffordd i wreiddio defnydd data o'r Profion ar draws y cwricwlwm, bod mwy o waith eto i'w wneud. Mae'n ddiddorol bod tair o'r rhain wedi ymrwymo i ddefnyddio data'r Profion i hysbysu addysgu a dysgu neu ymarferwyr dosbarth. Yn yr ysgolion hyn dywedwyd y gellid gwneud mwy gyda'r data hwn. Lle'r oedd staff yn teimlo bod defnydd data o'r Profion wedi'i wreiddio'n llawn ar draws eu hysgol, roedd y rhan fwyaf wedi defnyddio'r data i fonitro perfformiad carfanau unigol, y gellir dadlau sy'n dasg haws.

Canfyddiadau Allweddol:

- Roedd i ba raddau y mae ymarferwyr wedi gwneud newidiadau i'w hymarfer o ganlyniad i gyflwyniad y Profion Cenedlaethol yn amrywio ar draws yr ysgolion cynradd ac uwchradd y gwnaethom ymweld â hwy. Roedd ymatebion cyffredin yn cynnwys cyflwyniad amser yn y diwrnod ysgol i baratoi ar gyfer y Profion yn y cyfnod cyn sefyll y Profion, a newid cyffredinol yn y mathau o dasgau a sgiliau yr oedd athrawon yn gweithio arnynt gyda'u disgyblion. Yn galonogol, dim ond ychydig o achosion o 'weithio tuag at y Profion', neu'r paratoi yn tynnu gormod o sylw oddi ar waith arall, a welwyd.
- O ran defnyddio data'r Profion Cenedlaethol, dangosodd yr arolwg bod hyn wedi cynyddu ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, nid oedd unffurfiaeth yn y modd y'i defnyddiwyd, gyda rhai'n targedu disgyblion unigol ac eraill yn defnyddio'r data dim ond i hysbysu cynllunio datblygu ysgol.
- Defnyddir data Profion Cenedlaethol yn gyffredin gan ymarferwyr Saesneg/Cymraeg a Mathemateg (mewn ysgolion uwchradd) i gefnogi addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu bod data Profion yn cael ei ddefnyddio gan aelodau eraill o staff er (fel y trafodir ym Mhennod 3) maent yn cymryd camau cynyddol i wreiddio'r FfLIRhC yn eu hymarfer.

5. Ymwybyddiaeth o'r RhLIRhC ymhlith disgyblion a rhieni

- 5.1 Fel y trafodwyd yn Carr a Morris (2014) mae'n debygol mai pwynt cyrhaeddiad allweddol gweithrediad llwyddiannus y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol fydd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cynyddol o bwysigrwydd datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhlith disgyblion a'u rhieni. Nododd gwaith maes yn 2014, er bod ymwybyddiaeth o'r Profion Cenedlaethol yn gymharol uchel, bod ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC yn llawer is. Hefyd, roedd peth tystiolaeth o gamddealltwriaeth ynglŷn â'r derminoleg sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith a'r Profion Cenedlaethol a diben diwygiad y ddau ymhlith disgyblion a rhieni. Gan ystyried canfyddiadau gwaith maes yn 2015 a 2016, rydym nawr yn ystyried i ba raddau y mae ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol wedi newid yn y cyfnod cyfamserol.


Ymwybyddiaeth disgyblion

- 5.2 Dros gyfnod gwaith maes a gynhaliwyd yn 2016 siaradom â 117 o ddisgyblion. Roedd hi'n ymddangos bod ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC ymhlith disgyblion ysgolion cynradd yn gyson â'r hyn a welwyd yn 2014. Fodd bynnag, dangosodd adborth gan athrawon a disgyblion mewn ysgolion astudiaeth achos bod ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC fel petai wedi cynyddu mewn ysgolion uwchradd, yn arbennig ymhlith disgyblion hŷn. Yn wir, dangosodd mwyafrif y disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 mewn pedair o'r saith ysgol uwchradd ymwybyddiaeth o'r Fframwaith a dealltwriaeth gweddol o pam ei fod wedi ei gyflwyno.
- 5.3 O gofio mai dim ond ym mis Medi 2015 y cafodd y FfLIRhC ei hymestyn i Gyfnod Allweddol 4, gellid teimlo bod hyn yn rhywfaint o syndod. Fodd bynnag, yn yr ysgolion hynny lle'r oedd disgyblion yn gyfarwydd â chysyniad y FfLIRhC, dywedodd staff bod y penderfyniad i ddefnyddio'r 'brand FfLIRhC' (Athro dosbarth mewn ysgol uwchradd) yn dibynnu ar aeddfedrwydd cymharol disgyblion. Ar gyfer disgyblion hŷn teimlwyd y gallai siarad am y FfLIRhC fel blaenoriaeth genedlaethol fod yn ddefnyddiol i ysgogi disgyblion. Teimlwyd hefyd bod amlygu pwysigrwydd y FfLIRhC wedi arwain at effaith gadarnhaol o ran annog disgyblion i ddefnyddio'r deunyddiau wedi'u brandio a ddatblygwyd i'w helpu. Er enghraifft, roedd rhai wedi datblygu llyfrau gwaith llythrennedd a/neu rhifedd i helpu disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau llythrennedd a rhifedd y tu allan i wersi Saesneg/Cymraeg a/neu Mathemateg.
- 5.4 Yn y deuddeg ysgol gynradd ac arbennig y gwnaethom ymweld â hwy, roedd ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC ymhlith disgyblion fel petai'n llawer is, gyda dim ond ychydig o'r disgyblion yn y grwpiau trafod yn gallu nodi beth oedd y

FfLIRhC neu beth oedd ei nod. Wrth ystyried aeddfedrwydd cymharol y disgyblion a addysgwyd ganddynt, cwestiynodd rhai ymarferwyr a oedd yr ymwybyddiaeth hon yn bwysig cyn belled bod disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu eu sgiliau rhifedd a llythrennedd.

- 5.5 Rhwng 2014 a 2015 roedd hi'n amlwg bod cyfran yr uwch arweinwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a oedd yn teimlo bod y FfLIRhC wedi cyfrannu at welliant ym mhowsigrwydd canfyddedig llythrennedd a rhifedd wedi cynyddu gan 18 pwynt canran (gweler Ffigur 5-1).

Ffigur 5-1: Effaith ganfyddedig y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar broffil llythrennedd a rhifedd ymhlith disgyblion



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 431 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol (2014 = 141, 2015 = 69)

- 5.6 Mae'r patrwm hwn fel petai wedi parhau i 2016. O gofio nifer cymharol prin y disgyblion a gwblhaodd pro fforma (yn holi am eu barn ynglŷn â gwahanol bynciau) ar adeg y trafodaethau grŵp (113 yn 2014 a 75 yn 2016) dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau. Er hynny, cynyddodd cyfran y disgyblion a oedd yn teimlo bod dysgu Saesneg neu Fathemateg yn bwysig iddynt hwy gan wyth pwynt canran ar gyfer Saesneg (85% i 93%) a thri phwynt canran ar gyfer Mathemateg (88% i 91%). Mae hyn yn arwydd o

welliant yn y pwysigrwydd a deimlir gan ddisgyblion mewn datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

- 5.7 Yn 2015 cyfran y disgyblion a ddywedodd eu bod yn meddwl bod dysgu Cymraeg yn ddefnyddiol oedd 77%, a oedd bron i ddwy ran o dair yn uwch nag ydoedd yn 2014 (mwy o gynnydd nag a welwyd yn naill ai Saesneg neu Fathemateg a chanfyddiad y gallai fod yn werth ei ymchwilio ymhellach). Er y gallai'r gwahaniaeth hwn fod o ganlyniad i wahaniaeth yn natur yr ysgolion/cymunedau y gwnaethom ymweld â hwy yn 2016 o gymharu â 2014, gallai hyn awgrymu y gallai llythrennedd a rhifedd fod yn cyfrannu at fwy o ddiddordeb yn y Gymraeg ymhlith disgyblion yn dilyn gweithrediad y RhLIRhC¹⁴.
- 5.8 Mae hi hefyd yn ddiddorol nodi, er gwaetha'r ffaith bod ymatebwyr yn teimlo bod yr anhawster cyffredinol y cawsant wrth ddysgu Saesneg/Cymraeg a/neu Mathemateg yn debyg yn 2014 a 2016¹⁵, cynyddodd y gyfran a ddywedodd eu bod yn mwynhau gwersi Cymraeg a Mathemateg, ac yn wir yn teimlo bod eu hastudio yn hwyl.¹⁶ Er y dywedodd mwyafrif y disgyblion a gwblhaodd y profformau eu bod yn teimlo bod gwersi Saesneg yn hwyl a/neu'n bleserus, nid oedd hyn yn wir am bawb a gallai hyn ddynodi bod rhai disgyblion yn teimlo bod y dulliau a ddefnyddir yn llai apelgar.

Adborth am y Profion Cenedlaethol

- 5.9 Mae'n ddiddorol nodi, er gwaethaf derbyniad cyffredinol o bwysigrwydd datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, pan ofynnwyd iddynt am y Profion Cenedlaethol roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gymharol niwtral. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hi'n ymddangos bod disgyblion yn gwerthfawrogi

¹⁴ Derbyniwyd profformau wedi'u cwblhau gan 27 a 28 o ddisgyblion yn y drefn honno mewn pedair ysgol Gymraeg yn 2014 a 2016. Roedd ymatebion o'r fath yn cyfrif am ychydig dros un rhan o bump o gyfanswm y nifer a dderbyniwyd yn 2014. Roeddent yn cyfrif am dros un rhan o dair o'r holl ymatebion yn 2016. Mae nifer yr ymatebwyr yn golygu na fyddai unrhyw ddadansoddiad is-grŵp yn ystyrlon. Felly, nid fyddai'n briodol i ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg mewn cymhariaeth â disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Wedi dweud hyn, mae'n bwysig cydnabod bod gan y gwahaniaethau yng nghyfansoddiad y sampl yn 2014 a 2016 y potensial i effeithio ar y canlyniadau. Rydym hefyd yn nodi na chafodd y FfLIRhC ei chynllunio i'w defnyddio mewn addysgu Cymraeg fel ail iaith.

¹⁵Yn 2014 roedd tua dwy ran o bump yn teimlo bod Saesneg a Mathemateg naill ai'n hawdd neu anodd. Roedd tua chwarter yn cael yr un anhawster gyda Chymraeg. Gwelwyd canlyniadau tebyg yn 2016.

¹⁶Yn 2016 roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr yn teimlo bod Mathemateg yn hwyl, i fyny o tua un rhan o dair yn 2014. Teimlai ychydig dan ddwy ran o dair bod Cymraeg yn hwyl yn 2016 i fyny o tua hanner yn 2014. Yn 2016 teimlai ychydig dros hanner yr un fath ynglŷn â Saesneg, i lawr o tua dwy ran o dair yn 2014.

gwybod sut yr oeddent yn perfformio yn y dosbarth er bod sefyll profion yn llai cymhellol nag 'ysgrifennu stori neu ddatrys pos' (Disgybl ysgol uwchradd).

- 5.10 Wedi dweud hyn, ac yn unol ag adborth gan ymarferwyr, dywedodd rhai disgyblion (yn arbennig y rheini mewn ysgolion cynradd), er bod eu hathrawon wedi bod yn eu helpu i baratoi ar gyfer y Profion, eu bod yn bryderus ynglŷn â'u sefyll eto. Er enghraifft, roedd un disgybl Blwyddyn 6 yn poeni os nad oedd yn gwneud yn dda y byddai'n cael ei 'roi yn y set waelod ar gyfer pob pwnc yn yr ysgol uwchradd' (Disgybl Blwyddyn 6). Dywedodd un arall y 'gall methu ag ateb y cwestiynau eich digalonni, ond dywedwyd wrthym am edrych arnynt fel her. Gobeithio y byddaf yn gallu eu cael yn gywir y tro nesaf' (Disgybl Blwyddyn 4). Er y gellid disgwyl adborth fel hyn gan ddisgyblion iau, efallai y dylai ysgolion a Consortia rhanbarthol (ac yn wir Llywodraeth Cymru) ystyried beth yn fwy y gellid ei wneud i leihau canfyddiadau o bwysau ar ddisgyblion a'r potensial ar gyfer lleihad cysylltiedig mewn lles emosiynol pobl ifanc¹⁷. Efallai y bydd y system profi addasol newydd sy'n cael ei chyflwyno yn 2018-19 yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ond bydd angen monitro'r sefyllfa.

Ymwybyddiaeth rhieni

- 5.11 Fel yr adroddwyd gan Carr a Morris (2015), canfu gwaith maes a gynhaliwyd yn 2014 bod ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC ymhlith rhieni fel petai'n gymharol isel ac mai dim ond ychydig o ysgolion sydd wedi cymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'r Fframwaith fel rhan o'u strategaeth ehangach o ymgysylltu â'r gymuned. Yn 2016, roedd hi'n ddiddorol nodi bod 14 o'r 19 ysgol y gwnaethom ymweld â hwy wedi cefnogi gweithgareddau oedd â'r nod o wella ymwybyddiaeth rhieni o'r FfLIRhC. O'r rhai hynny oedd heb gefnogi gweithgareddau o'r fath (yr oedd tair ohonynt yn ysgolion arbennig), mae'n ymddangos mai'r prif reswm oedd canfyddiad bod hwn yn rhywbeth na fyddai gan rieni ddiddordeb ynddo. Fel y dywedodd un athro dosbarth: 'ar gyfer y rhan fwyaf o'n rhieni eu prif bryder yw bod eu plentyn yn hapus. Er bod ganddynt ddiddordeb mewn gwybod bod eu plentyn yn cael ei baratoi ar gyfer byw'n annibynnol, pethau eilaidd yw'r pryderon hynny' (Athro dosbarth mewn ysgol arbennig). Teimlwyd bod rhieni'n croesawu'r cyfle i weld adroddiad rheolaidd ar gynnydd eu plentyn ond eu bod yn cael y budd mwyaf o gael y cyfle i ymweld â'r ysgol â sgwrsio gydag athrawon eu plentyn.


¹⁷Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru yn rhoi cynlluniau ar waith i ddisodli'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol gydag 'asesiadau wedi'u personoli' ar-lein. Caiff y rhain eu cyflwyno'n raddol o flwyddyn academiaidd 2018-19. Caiff yr asesuadau newydd eu cynllunio er mwyn addasu i lefel anhawster y cwestiynau yn ôl y sawl sy'n sefyll y prawf. Byddant hefyd yn rhoi adborth manylach ar lefel dysgwr unigol er mwyn cefnogi cynnydd.

- 5.12 Yn yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy a oedd wedi cefnogi gweithgareddau i wella ymwybyddiaeth rhieni o'r FfLIRhC, roedd rhai gwahaniaethau mawr rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn yr ysgolion uwchradd (yr oedd chwech ohonynt yn cefnogi gweithgareddau codi ymwybyddiaeth) roedd hi'n ymddangos bod ffocws y gweithgareddau ar egluro i rieni sut i ddehongli'r adroddiadau lefel plentyn yr oedd yr ysgol nawr yn eu cynhyrchu ar ddiwedd tymor yr haf. Roedd gweithgareddau cyffredin yn cynnwys cyflwyniad penodol fel rhan o noson rieni neu ddigwyddiadau galw heibio yn agos at ddiwedd tymor yr haf. Yn yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy, dywedodd staff bod presenoldeb da wedi bod i ddigwyddiadau o'r fath, ond roedd y rhan fwyaf yn ansicr a oedd rhieni wedi gwerthfawrogi'r cyfle i drafod yr adroddiad - neu'n wir yn gwerthfawrogi'r data. Crynhowyd hyn gan un ymarferydd a ddywedodd 'efallai y cewch ambell i riant sy'n teimlo'n anhapus bod eu plentyn wedi cael ei gynnwys ar gyfer ymyrraeth dal i fyny ond nid oes neb wedi gofyn i siarad yn uniongyrchol â mi ynglŷn â'u hadroddiad cynnydd [ar gynnydd eu plentyn yn erbyn y disgwyliadau cysylltiedig ag oedran a nodir yn y FfLIRhC]' (Athro dosbarth mewn ysgol uwchradd).
- 5.13 Yn ymarferol, mewn ysgolion cynradd roedd hi'n ymddangos bod cwmpas y gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn llawer ehangach, gyda phwyslais ar gynorthwyo rhieni i ddeall yr adroddiadau a gynhyrchwyd ar eu cyfer a hefyd ar eu cynorthwyo i ddefnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi eu plentyn i ddatblygu ei sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhellach. Er enghraifft, mewn un o'r ysgolion roedd uwch arweinwyr wedi buddsoddi mewn platform cyfryngau cymdeithasol y gallai rhieni ei ddefnyddio i fonitro cynnydd eu plentyn yn rheolaidd. Pan oedd plentyn yn gweld rhywbeth yn anodd anogwyd athrawon dosbarth i hysbysu'r rhieni ynglŷn â hyn, a gallent drefnu i gwrdd a thrafod beth allai'r rhieni ei wneud i helpu. Mae'n ymddangos bod dull o'r fath wedi bod yn effeithiol, a dywedodd un rhiant;
- 'Nid yw K... erioed wedi bod y gorau yn y dosbarth felly mae'n braf ei gweld hi'n gwneud cynnydd... Caiff pethau eu haddysgu'n wahanol nawr o gymharu â phan oeddwn i yn yr ysgol ... felly mae'n dda gallu cysylltu â Mrs H... a thrafod sut y gallaf i helpu K i ddatblygu' (Rhiant disgybl ysgol gynradd)
- 5.14 Er gwaetha'r gwahaniaethau yn y mathau o weithgareddau a gefnogwyd gan ysgolion cynradd ac uwchradd i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r FfLIRhC, cadarnhaol yw nodi bod y rhain wedi bod o leiaf yn eithaf llwyddiannus. O 2014 hyd 2015 gwnaeth cyfran yr uwch arweinwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn oedd yn teimlo bod y FfLIRhC wedi cael effaith gadarnhaol ar

ymwybyddiaeth rhieni gynyddu gan chwe phwynt canran (o 48% i 55% - gweler Ffigur 5-2).

- 5.15 Mae'n ddiddorol nodi, pan ddadansoddir y canlyniadau hyn yn ôl math ysgol, dywedodd ychydig dros dair rhan o bump o ymatebwyr ysgolion uwchradd (63%) eu bod wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth rhieni, o gymharu â dim ond ychydig dan hanner yr ymatebwyr ysgolion cynradd (48%). O gofio'r adborth gan ymarferwyr uwchradd mewn ysgolion astudiaeth achos (nad oedd gan rieni fawr o ddiddordeb yn y FfLIRhC) gellir teimlo bod ychydig o groesddweud yma. Fodd bynnag, wrth geisio dehongli'r canlyniadau hyn mae'n bwysig cydnabod bod y cwestiwn hwn yn gofyn am ymateb deuaidd (naill ai; ydy mae wedi codi proffil llythrennedd a rhifedd neu na nid yw wedi cael effaith ar broffil llythrennedd a rhifedd). O ganlyniad, er bod uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd efallai wedi teimlo bod y FfLIRhC wedi codi proffil llythrennedd a rhifedd, nid yw eu hymateb yn rhoi fawr o syniad i ni ynglŷn â maint y cynnydd. Lle mae'n ymddangos bod ysgolion cynradd wedi bod yn ceisio defnyddio'r FfLIRhC i gynyddu ymgysylltiad cyffredinol rhieni yn addysg eu plentyn, efallai bod ymarferwyr cynradd wedi bod yn fwy gofalus yn eu hymateb. Fel y nodwyd gan un arweinydd canol; 'y rhieni sy'n llithro trwy'r rhwyd bob amser yw'r rhai hynny yr ydym eisiau ymgysylltu fwyaf â nhw. Ni fyddwn yn teimlo bod ein dull yn llwyddiannus hyd nes eu bod nhw wedi'u cynnwys... pa mor bynnag afrealistig yw hyn' (Arweinydd canol mewn ysgol gynradd).

Ffigur 5-2: Effaith ganfyddedig y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar broffil llythrennedd a rhifedd ymhlith rhieni



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 431 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol (2014 = 139, 2015 = 71)

Adborth am y Profion Cenedlaethol

- 5.16 O gofio'r amheuan a fynegwyd gan rai ymarferwyr (yn arbennig y rheini o ysgolion cynradd) ynglŷn â'r Profion Cenedlaethol, nid yw'n syndod efallai mai ychydig o dystiolaeth sydd (naill ai mewn ysgolion cynradd neu uwchradd) bod ysgolion wedi ceisio defnyddio'r Profion i amlygu pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hi'n ymddangos bod gweithgareddau wedi ceisio hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth o gynnwys yr adroddiadau lefel disgybl a gynhyrchir ar ddiwedd tymor yr haf. Roedd hi'n amlwg, mewn nifer o ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy, bod ymarferwyr wedi ceisio sicrhau bod rhieni'n cydnabod y Profion Cenedlaethol fel un ffynhonnell o ddata perfformiad a ddylai gael ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad llawnach a gynhyrchir gan yr ysgol ar gynnydd pob plentyn yn erbyn y datganiadau disgwyliad a nodir yn y FfLIRhC.
- 5.17 Mewn llawer o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy prin oedd yr adborth gan rieni. Er bod y mwyafrif fel petaent â diddordeb yng nghynnwys yr adroddiadau cynnydd a gynhyrchwyd am eu plentyn, dim ond ychydig oedd

yn gallu gwahaniaethu'r adroddiad a gynhyrchwyd ar eu cyfer ar y Profion Cenedlaethol yn eu meddwl oddi wrth ddata arall a roddwyd ar gael gan ysgol eu plentyn. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn credu ei bod hi'n iawn bod eu plant yn cael eu profi yn y modd hwn, teimlai'r mwyafrif ei bod hi'n bwysig eu bod yn gwybod lle'r oedd eu plentyn mewn perthynas â'u cyfoedion. Wedi dweud hyn, ychydig ohonynt oedd yn teimlo bod sefyll prawf 'cenedlaethol' yn fwy/llai defnyddiol na sefyll un a osodwyd gan athro eu plentyn. O gofio'r adborth hwn, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried beth yn rhagor y gellid ei wneud i wella dealltwriaeth rhieni o, a'u hymgysylltiad â'r Profion Cenedlaethol.

Canfyddiadau Allweddol:

Ymwybyddiaeth disgyblion

- Caiff gweithrediad y FfLIRhC ei ystyried yn eang gan uwch arweinwyr i fod wedi cefnogi cynnydd ym mhroffil llythrennedd a rhifedd ymhlith disgyblion.
- Mae ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC ymhlith disgyblion yn llawer uwch mewn ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Mewn rhai ysgolion uwchradd roedd hyrwyddo cysyniad y FfLIRhC fel 'brand' wedi bod yn ddefnyddiol wrth godi proffil llythrennedd a rhifedd. Mewn ysgolion uwchradd roedd staff yn cwestiynu a oedd ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC yn bwysig cyn belled bod disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.
- Prin oedd yr adborth ynglŷn â'r Profion Cenedlaethol gan ddisgyblion, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn eu hystyried fel rhan arferol o'u profiad yn yr ysgol. Mynegodd nifer fechan o ddisgyblion (yn bennaf mewn ysgolion cynradd) rywfaint o bryder ynglŷn â'r profion.

Ymwybyddiaeth rhieni

- Ers 2014 mae gweithrediad y FfLIRhC wedi cefnogi cynnydd ym mhroffil llythrennedd a rhifedd ymhlith rhieni plant oed ysgol.
- Mewn ysgolion arbennig nid yw hyrwyddo'r FfLIRhC wedi bod yn flaenoriaeth. Dywedodd cyfweleion nad oedd y FfLIRhC yn rhywbeth y byddai gan rieni ddiddordeb ynddo.
- Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion cynradd ac uwchradd i hyrwyddo'r FfLIRhC yn wahanol iawn:
 - Mewn ysgolion cynradd cafodd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ar y cyfan eu hintegreiddio yn strategaeth ehangach yr ysgol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Roedd codi ymwybyddiaeth o'r FfLIRhC yn offeryn i hyrwyddo gwell ymgysylltiad rhieni yn natblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd eu plentyn.
 - Mewn ysgolion uwchradd roedd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni i ddehongli adroddiad cynnydd eu plentyn.
- Prin yw'r ymwybyddiaeth o'r Profion Cenedlaethol. Fodd bynnag, pan fo rhieni'n gwneud defnydd o'r adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio data'r Profion, maent yn tueddu i ystyried hyn ochr yn ochr â ffynonellau eraill o dystiolaeth yn cynnwys y cerdyn adroddiad a ysgrifennir gan athro/athrawes eu plentyn, fel y cynghorir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

6. Effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad y RhLIRhC

- 6.1 Fel y trafodwyd yn Adran 1, er mwyn cefnogi gweithrediad y RhLIRhC comisiynodd Llywodraeth Cymru ystod o weithgareddau cefnogi. Bwriadwyd i'r rhain ategu ffynonellau cefnogi eraill sydd ar gael i ysgolion, yn bennaf drwy'r Consortia. Yn yr adran hon rydym yn ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y gefnogaeth a roddwyd ar gael i ymarferwyr, yn arbennig effeithiolrwydd y canllawiau a'r adnoddau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol.

Effeithiolrwydd canllawiau ac adnoddau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru

- 6.2 Er mwyn cefnogi cyflwyniad y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol, creodd Llywodraeth Cymru ystod o ddeunyddiau canllaw ac adnoddau. Wrth adrodd yn 2014, canfu Carr a Morris (2015) mai amrywiol oedd bodlonrwydd gyda'r deunyddiau hyn. Ar y cam hwn, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae defnydd a bodlonrwydd parthed yr adnoddau wedi newid ac a yw anghenion cefnogi'r sector fel petaent yn cael eu diwallu.

Cefnogi gweithrediad y FfLIRhC

- 6.3 Dros amser, mae amrywiaeth o wahanol ddogfennau canllaw ac adnoddau addysgu wedi cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ymarferwyr i wreiddio'r FfLIRhC yn eu hymarfer. Diweddarwyd y dogfennau hyn yn unol â datblygiadau polisi/cwricwlwm ac estyniad y FfLIRhC i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4. Mae adnoddau allweddol wedi cynnwys:
- canllawiau a chefnogaeth wrth wreiddio'r FfLIRhC mewn cynllunio cwricwlwm
 - canllawiau ar gyfer asesu cynnydd disgyblion yn erbyn y disgwyliadau cysylltiedig ag oedran a nodir yn y FfLIRhC
 - deunyddiau enghreifftiol i gefnogi addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- 6.4 Yn gyson â gwaith maes a gynhaliwyd yn 2014, roedd ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr o ddeunyddiau Llywodraeth Cymru yn dal yn isel yn 2016, gyda dim ond ychydig o'r ymarferwyr dosbarth y buom yn siarad â hwy yn dweud eu bod wedi cyrchu unrhyw rai o'r deunyddiau ar wefan Dysgu Cymru. Wedi dweud hyn (ac fel y trafodwyd yn Adran 2) roedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r FfLIRhC yn uchel, gan ddangos bod y negeseuon oedd

wedi'u cynnwys yn y deunyddiau hyn yn cael eu cyrchu'n gyffredin drwy ffyrdd eraill, megis digwyddiadau hyfforddiant a gyflwynwyd gan arbenigwyr llythrennedd a rhifedd a gyflogwyd gan y Consortia.

- 6.5 Lle'r oedd ymarferwyr wedi cyrchu adnoddau Llywodraeth Cymru, cymysg oedd y bodlonrwydd. Roedd rhai ysgolion astudiaeth achos yn teimlo bod y deunyddiau'n ddefnyddiol o ran eu cynorthwyo i ymgorffori'r FfLIRhC yn eu hymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Cwestiynodd eraill a oedd digon o eglurder ynglŷn â newidiadau addysgeg yr oedd Llywodraeth Cymru am eu gweld. Crynhowyd y farn hon gan un athro dosbarth a ddywedodd er bod 'y canllawiau'n iawn, nid ydynt yn rhoi digon o fanylder i ni wybod sut rydym i fod i addysgu' (Athro dosbarth mewn ysgol gynradd).
- 6.6 Er gwaethaf gwahanol lefelau o fodlonrwydd â'r adnoddau a gynhyrchwyd hyd yma, dim ond ymarferwyr mewn tair o'r pedair ysgol ar bymtheg yr ymwelwyd â hwy yn 2016 a ddywedodd y byddent yn croesawu adnoddau ychwanegol ar y cam hwn. Yn ymarferol, lle teimlwyd nad oedd digon o fanylder yn yr adnoddau, mae'n ymddangos bod ysgolion wedi ceisio cyfleoedd i weithio gydag ysgolion lleol eraill i ganfod cyfeiriad teithio cyffredin. Fel y dywedodd un uwch arweinydd; 'Mae'n teimlo fel ein bod wedi cael ein gadael i fwrw ati - a dyna rydym wedi'i wneud. Er bod gennym eisoes hanes o weithio gyda'r ysgolion eraill yn ein Hawdurdod [Lleol] mae cyflwyniad y Fframwaith wedi cynyddu'r pwyslais yr ydym wedi ei roi ar hyn' (Uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd). O gofio dymuniad Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliant mewn ansawdd ac yn wir amllder cydweithredu rhwng ymarferwyr, dylid ystyried hyn yn ganlyniad cadarnhaol.
- 6.7 Wedi dweud hyn, er bod yr ymarferwyr yn yr ysgolion astudiaeth achos yn gyffredinol o'r farn eu bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir, roedd staff Consortia yn fwy gwyliadwrus. Fel y nodwyd gan un Cynghorydd Her 'er bod rhai ysgolion yn dechrau gwneud pethau da iawn, mewn rhai mannau mae dulliau llai effeithiol yn dechrau dod yn dderbyniol' (Cynghorydd Her). Adleisiwyd y farn hon gan nifer fechan o ymarferwyr ysgol a oedd yn meddwl ar y cam hwn a allai Llywodraeth Cymru wneud mwy i amlygu enghreifftiau o ymarfer effeithiol a rhoi mewnwelediad cliriach i uwch arweinwyr o'r math o ymddygiadau/ymarfer athrawon y gellid ei ystyried yn ymarfer effeithiol. Dadleuwyd y byddai rhoi mwy o eglurder ynglŷn â 'beth yw da' (Uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd) yn caniatáu i ymarferwyr mewn ysgolion eraill i addasu eu cyrsiau os nad oeddent yn teimlo bod y dull a ddewiswyd ganddynt yn gyson â hyn.

Cefnogi Gweithrediad y Profion Cenedlaethol

- 6.8 Er mwyn cefnogi ymarferwyr i weinyddu'r Profion Cenedlaethol a hyrwyddo defnydd y data hwnnw i gefnogi addysgu a dysgu, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi deunyddiau canllaw, yn cynnwys llawlyfr gweinyddu prawf¹⁸, deunyddiau sampl¹⁹, ac offer diagnostig²⁰, ar gael. Mae'r adnoddau hyn, a roddwyd ar gael yn wreiddiol yn 2013, wedi cael eu diweddarau'n rheolaidd er mwyn rhoi ystyriaeth i adborth gan ymarferwyr a'r newidiadau i'r Profion Cenedlaethol. Datblygwyd deunyddiau canllaw at ddibenion gwahanol, yn cynnwys cynorthwyo ymarferwyr i: baratoi eu disgyblion i sefyll y profion; i'w gweinyddu (yn cynnwys marcio'r papurau ac anfon y canlyniadau at Lywodraeth Cymru); a defnyddio data'r profion i hysbysu eu hymarfer, Roedd y deunyddiau ar gael yn bennaf ar wefan Dysgu Cymru²¹ a chawsant marchnata drwy e-gylchlythyr Dysg²².
- 6.9 Gan adeiladu ar waith a wnaed gan BMG Research yn 2013 (Roberts D, 2014), yn y ddwy don o'n harolwg arweinwyr ysgol (yn 2014 a 2015), gofynnwyd i uwch arweinwyr ystyried defnyddioldeb y gefnogaeth hon mewn helpu ymarferwyr yn eu hysgol i weinyddu'r Profion Cenedlaethol ac i ddefnyddio'r data sy'n deillio ohonynt.

Defnyddioldeb deunyddiau canllaw mewn cynorthwyo ymarferwyr i baratoi eu disgyblion i sefyll y Profion Cenedlaethol

- 6.10 Datblygodd Llywodraeth Cymru ystod o ddeunyddiau prawf sampl i gynorthwyo disgyblion i ymglyfarwyddo. O gofio nifer yr ymatebwyr i'r arolwg a ddewisodd beidio ag ateb cwestiynau ynglŷn â'r adnoddau hyn (tua un rhan o dair o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg²³) efallai y bydd angen i ni fod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau. Yn 2015 teimlai naw o bob deg o'r rheini a

¹⁸Gellir cyrchu'r llawlyfr gweinyddu (fel y'i diweddarwyd yn 2015) yn :

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-administration-handbook/?lang=en>

¹⁹Gellir cyrchu'r deunyddiau sampl yn:

<http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=en>

²⁰Gellir cyrchu'r offer diagnostig (fel y'u diweddarwyd yn 2015) yn:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-diagnostic-support-tools/?lang=en>

²¹Er nad ydynt wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi'r RhLIRhC pan gawsant eu lansio ym mis Medi 2013, datblygwyd Dysgu Cymru i ddarparu siop un stop i ymarferwyr gale mynediad at y canllawiau statudol diweddaraf ac ymchwil gyfoes. Gellir cyrchu Dysgu Cymru yn:

<http://learning.gov.wales/?lang=en>

²²Cylchlythyr swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymarferwyr ôl-11 yw e-gylchlythyr Dysg. Gwahoddir ymarferwyr o gofrestru i dderbyn y cylchlythyr yn:

<http://learning.gov.wales/about/newsletters/?lang=en>

²³Yn 2015 ni wnaeth 37% o'r ymatebwyr i'r arolwg nodi pa mor ddefnyddiol fu'r deunyddiau sampl mewn paratoi disgyblion ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol. Dewisodd ychydig yn llai ohonynt beidio ag ateb y cwestiwn yn ymwneud â defnydd y deunyddiau sampl i gynorthwyo disgyblion i baratoi ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol (28%)

atebodd gwestiynau perthnasol bod y deunyddiau prawf sampl wedi'u diweddaru yn ddefnyddiol (defnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol) mewn cynorthwyo ymarferwyr i baratoi eu disgyblion i sefyll y prawf (o gyfanswm o 387 ymatebydd ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol a 426 ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol). Yn 2014 gofynnwyd cwestiynau ar wahân ynglŷn â defnyddioldeb cymharol deunyddiau sampl i gynorthwyo disgyblion i sefyll y profion rhifedd gweithdrefnol a rhesymu rhifyddol. O ganlyniad, ni ellir cymharu'n uniongyrchol ganlyniadau arolygon 2014 a 2015. Er hynny, mae'n ddiddorol nodi bod cyfran debyg (89%), yn 2014, wedi teimlo bod y deunyddiau sampl yn ddefnyddiol i'w cynorthwyo i baratoi eu disgyblion i sefyll y profion rhifedd gweithdrefnol. Yn yr un modd, roedd ychydig dros ddwy ran o bump (41%) wedi teimlo bod y deunyddiau sampl yn ddefnyddiol ar gyfer eu cynorthwyo i baratoi eu disgyblion i sefyll y prawf rhesymu rhifyddol. Gallai hyn ddangos bod ymarferwyr wedi croesawu'r newidiadau i'r deunyddiau sampl er mwyn helpu disgyblion i baratoi ar gyfer y prawf rhesymu rhifyddol.

Defnyddioldeb deunyddiau canllaw mewn cynorthwyo ymarferwyr i weinyddu'r Profion Cenedlaethol

- 6.11 Roedd y deunyddiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ymarferwyr i weinyddu'r Profion Cenedlaethol yn cynnwys llawlyfr gweinyddu profion a nodiadau cwblhau technegol ar gyfer ysgolion ac ALI ar gasglu data ac adrodd. Roedd lefelau bodlonrwydd yn uchel ar gyfer y deunyddiau hyn; yn 2015 teimlai tua naw o bob deg o'r uwch arweinwyr a ymatebodd i gwestiynau perthnasol yn yr arolwg bod y llawlyfr gweinyddol wedi bod yn ddefnyddiol mewn cynorthwyo staff yn eu hysgol i weinyddu'r Profion Cenedlaethol.²⁴ Dim ond cyfran gymharol fechan (rhwng un rhan o bump neu un chwarter) o'r uwch arweinwyr a ymatebodd a ddywedodd y byddent yn croesawu cefnogaeth ychwanegol wrth weinyddu'r profion, marcio'r papurau, neu gyflwyno data'r profion i Lywodraeth Cymru²⁵.

²⁴Roedd tua naw o bob deg (90%) yn teimlo bod y llawlyfr yn ddefnyddiol wrth weinyddu'r Profion Rhifedd Cenedlaethol. Dywedodd dros naw o bob deg (95%) ei fod wedi bod yn ddefnyddiol wrth weinyddu'r Prawf Darllen Cenedlaethol.

²⁵Dywedodd tua chwarter (27%) y byddent yn croesawu cefnogaeth ychwanegol i ddefnyddio'r cynllun marcio ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol. Roedd ychydig dan chwarter (23%) yn teimlo eu bod angen rhagor o gefnogaeth i ddehongli'r cynllun marcio ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol. Dywedodd ychydig dan un rhan o bump y bydden tyn croesawu mwy o gefnogaeth gyda chyflwyno data prawf i Lywodraeth Cymru (16% a 19% yn yr un drefn).

Defnyddioldeb deunyddiau canllaw mewn cynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio data Profion Cenedlaethol i hysbysu eu hymarfer

- 6.12 Bwriadwyd i'r offer diagnostig a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru gynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio sgoriau profion er mwyn nodi cryfderau a gwendidau disgyblion unigol yn erbyn elfennau'r FfLIRhC. Er bod lefelau bodlonrwydd cyffredinol ymhlith uwch arweinwyr ddim mor uchel ag yr oeddent ar gyfer y deunyddiau sampl, teimlai tua thri chwarter y rheini a ymatebodd i gwestiynau perthnasol bod yr offer diagnostig naill ai'n weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn mewn cynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio data'r profion²⁶. Ar y cyfan, mae canlyniadau o'r fath fel petaent yn dangos archwaeth parhaus ymhlith ymarferwyr i weld buddsoddiad parhaus gan Lywodraeth Cymru yn y mathau hyn o adnoddau.

Effeithiolrwydd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol

- 6.13 Wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2013 a'i chyflwyno gan CfBT (a elwir erbyn hyn yn Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg), dilynodd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) fodel cyflwyno graddol²⁷. Yn wreiddiol bwriadwyd iddi redeg rhwng mis Chwefror 2013 a mis Gorffennaf 2016, ond arweiniodd y cynnydd a wnaed gan y Consortia i Lywodraeth Cymru benderfynu dod â'r rhaglen a gynhaliwyd yn allanol i ben ym mis Gorffennaf 2015 a throsglwyddwyd yr holl gyfrifoldeb am gefnogi ysgolion i weithredu'r FfLIRhC i'r Consortia. Wrth i'r RhGG dynnu at ei therfyn rhoddodd ein harolwg o arweinwyr ysgol gyfle i ystyried effeithiolrwydd y gefnogaeth a ddarparwyd.

Ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â'r RhGG

- 6.14 Roedd y Rhaglen yn agored i bob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru²⁸ a'r bwriad oedd y gallai'r holl ysgolion hynny oedd yn dymuno cyrchu cefnogaeth gan y RhGG wneud hynny. Y prif bwynt mynediad ar gyfer y gefnogaeth hon oedd Partner RhGG wedi'i enwi. Fel y gellid disgwyl, o gofio natur proffil uwch y RhLIRhC, mae'n ymddangos bod ymwybyddiaeth a'r nifer a oedd yn manteisio ar gefnogaeth drwy'r RhGG yn uchel. Yn 2014, o blith yr uwch arweinwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd dros naw o bob deg (91%)

²⁶ Roedd ychydig dan dri chwarter yr ymatebwyr (71%) yn teimlo bod yr offeryn diagnostig a ddatblygwyd i'w ddefnyddio gyda'r Profion Rhifedd Cenedlaethol yn ddefnyddiol. Teimlai cyfran debyg (72%) bod yr offeryn yn ddefnyddiol i gynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio'r data a gasglwyd drwy'r Prawf Darllen Cenedlaethol.

²⁷ Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.


²⁸ Yn dilyn cyfnod byr ar y dechrau daeth yr ysgolion arbennig a'r unedau cyfeirio disgyblion hefyd yn cymwys ar gyfer cefnogaeth).

wedi cyrchu rhywfaint o gefnogaeth. Yn 2015, roedd y gyfran a ddywedodd eu bod wedi cyrchu cefnogaeth wedi parhau'n gyson ar y cyfan (88%).

- 6.15 Nid yw canlyniadau o'r fath yn dweud llawer wrthym am **natur y gefnogaeth** a gyrchwyd gan ysgolion. Fodd bynnag, ar gyfer dwy don yr arolwg (2014 a 2015) mae'n ymddangos y bu dryswch sylweddol ynglŷn â pha gefnogaeth y gallent ddisgwyl ei derbyn gan eu partner RhGG (ac ym mha gam cyffredinol o'r rhaglen yr oeddent wedi'i chyrchu). Er enghraifft, yn 2015, roedd 83 o arweinwyr ysgol wedi cyrchu cefnogaeth i wreiddio a chynnal gweithio ar y cyd yn eu hardal leol (Cam 4 y rhaglen). O'r rheini, dim ond 63 oedd wedi cyrchu camau blaenorol o'r rhaglen gymorth, er gwaetha'r ffaith bod cynnal archwiliad o ymarfer presennol (Cam 1) a datblygu cynllun gweithredu (Cam 2) yn rhag-amod cyrchu cefnogaeth ychwanegol.
- 6.16 Er yr ansicrwydd hwn, dylid teimlo'n galonogol ei bod hi'n ymddangos y bu cynnydd, o 2014 hyd 2015, yng nghyfran yr ysgolion a oedd a) yn cyrchu cefnogaeth wedi'i theilwra er mwyn cyflawni eu cynllun datblygu ysgol (Cam 3) a b) annog cydweithio gydag ysgolion eraill (Cam 4). Yn 2014, dywedodd ychydig dan draean yr uwch arweinwyr a wahoddwyd i ymateb i'r cwestiynau hyn (30% - gweler Atodiad B) bod eu hysgol wedi cyrchu cefnogaeth wedi'i theilwra. Erbyn 2015 roedd y gyfran honno wedi cynyddu i ychydig dan ddwy ran o bump (37%). Rhwng 2014 a 2015, roedd y rheini a ddywedodd eu bod wedi derbyn cefnogaeth i gynnal gweithio ar y cyd yn eu hardal leol wedi cynyddu, o 13% yn 2014 i 21% yn 2015.
- 6.17 Mae'n ymddangos, yn y rhan fwyaf o achosion, bod profiad yr ysgolion hynny a oedd eisiau cyrchu cefnogaeth wyneb yn wyneb gan eu Partner RhGG yn un cadarnhaol. Yn 2015 dim ond ychydig o'r uwch arweinwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a ddywedodd bod eu hysgol wedi wynebu heriau mewn naill ai cyfathrebu gyda'u Partner RhGG neu mewn cydlynu ymweliadau gyda hwy (gweler Ffigur 6-1). Adleisiodd ymarferwyr mewn ysgolion astudiaeth achos hyn yn ystod gwaith maes a gynhaliwyd yn 2016. Dywedodd un uwch arweinydd;
- ‘trueni bod y RhGG wedi dod i ben. Roedd y Partneriaid [Cymorth Cenedlaethol] newydd ddechrau dangos eu gwerth...Yn ffodus llwyddom i gael ychydig mwy o gefnogaeth gan ein Partner ar ddiwedd y cyllido, ond nawr mae wedi cael swydd mewn ysgol’ (Uwch arweinydd mewn ysgol gynradd).
- 6.18 Mae'n ddiddorol nodi, o gofio adborth mor gadarnhaol, bod hyder mewn defnyddio'r adnoddau a ddatblygwyd gan Bartneriaid RhGG (ac a roddwyd ar gael drwy Dysgu Cymru) i gefnogi ysgolion gweithredu'r FfLIRhC yn is. Er enghraifft, roedd dros un rhan o dair o'r rheini a atebodd y cwestiwn hwn yn

arolwg 2015 wedi teimlo bod defnyddio'r adnoddau wedi bod naill ai'n heriol iawn neu'n weddol heriol. Dywedodd athrawon y gallai ymatebion o'r fath adlewyrchu'r anawsterau a gafwyd mewn addasu neu ddehongli'r adnoddau mewn modd a oedd yn addas i wahanol gyd-destunau lleol. Wrth i'r Consortia barhau i ystyried y ffordd orau i fodloni anghenion yr ysgolion yn eu hardal, efallai y byddent yn dymuno ystyried y dymuniad amlwg ymhlith ymarferwyr i gael cefnogaeth wyneb yn wyneb.

Ffigur 6-1: Heriau mewn cyrchu cefnogaeth gan y Rhaglen Gymorth Genedlaethol



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 393 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol

(Cyfathrebu gyda'ch partner RhGG: 2014 = 130, 2015 = 143,

Ymweliadau cydlynu gan eich partner RhGG: 2014 = 130, 2015 = 145,

Defnyddio'r offer cefnogi a ddatblygwyd gan y Rhaglen Gymorth Genedlaethol: 2014 = 130, 2015 = 143


Arall: 2014 = 130, 2015 = 350

- 6.19 Er bod y niferoedd sy'n manteisio ar y RhGG yn ymddangos yn uchel (gweler paragraff 6.14), mae hi'n werth ystyried y rhesymau pam fod rhai ysgolion wedi dewis peidio â chyrchu cefnogaeth. Mae'n ddiddorol nodi, yn 2015, o'r 38 uwch arweinydd a ddywedodd eu bod wedi dewis peidio gwneud hynny, y rheswm a ddyfynnwyd amlaf oedd eu bod wedi dewis cyrchu cefnogaeth gan ddarparwr arall (12 uwch arweinydd). Y rheswm a ddyfynnwyd ail amlaf oedd y gred nad oeddent angen unrhyw gefnogaeth. Er y gellir teimlo bod safbwyntiau o'r fath yn croesddweud ei gilydd ychydig, mewn gwirionedd maent mewn gwirionedd yn dangos amrywiaeth yng nghynnydd ysgolion mewn gweithredu'r FfLIRhC (gweler Adran 3) a chynnydd graddol mewn ffynonellau amgen o gefnogaeth ar gyfer ysgolion (yn bennaf gan Consortia).

Effeithiolrwydd cefnogaeth a ddarparwyd drwy'r RhGG

- 6.20 Ar y cyfan, roedd hi'n ymddangos mai cymysg oedd y gefnogaeth a ddarparwyd drwy'r RhGG. O blith y rheini a ddewisodd ateb y cwestiwn arolwg hwn yn 2015, roedd ychydig dros hanner (55% - gweler Ffigur 6-2) wedi teimlo bod y gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt yn ddefnyddiol (defnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol) mewn gwreiddio'r FfLIRhC fel offer cynllunio cwricwlwm ac asesu yn eu hysgol. Roedd hyn yn ychydig o gynnydd ar y 50% a ddywedodd mai felly'r oedd hi yn 2014. Fodd bynnag, roedd ychydig dros un rhan o bump (21%) wedi teimlo nad oedd y gefnogaeth yn ddefnyddiol. Cefnogwyd canfyddiadau o'r fath mewn adborth gan ymarferwyr mewn ysgolion astudiaeth achos yn 2016. Mewn ymweliadau o'r fath mynegodd rhai ymarferwyr bryderon ynglŷn ag ansawdd y gefnogaeth oedd ar gael trwy'r RhGG. Mewn nifer o achosion mae hyn fel petai'n fater o reoli disgwyliadau, gydag ysgolion yn disgwyl i'r RhGG ddarparu cefnogaeth 'fwy arbenigol' nag oeddent yn gallu ei darparu o fewn paramedrau eu contract gyda Llywodraeth Cymru. Felly, gallai canllawiau clir ar gyfer ysgolion ynglŷn â beth y gallent ac na allent ei ddisgwyl gan y RhGG fod wedi bod yn ddefnyddiol mewn rheoli disgwyliadau uwch arweinwyr yn fwy llwyddiannus.

Ffigur 6-2: Defnyddioldeb canfyddedig y gefnogaeth a ddarparwyd drwy'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 393 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol (2014 = 130, 2015 = 138)

Canfyddiadau Allweddol:

Effeithiolrwydd adnoddau canllaw a deunyddiau addysgu a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru

- Cymysg yw'r bodlonrwydd ymhlith ymarferwyr gyda'r deunyddiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r FfLIRhC. Yn benodol, mae dymuniad ymhlith ymarferwyr i weld canllawiau manylach ynglŷn â sut y dylent wreiddio addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- Amrywiol oedd yr adborth ynglŷn â'r deunyddiau canllaw a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad y Profion Cenedlaethol. Er bod bodlonrwydd ymhlith uwch arweinwyr gyda'r llawlyfr gweinyddu profion a'r deunyddiau sampl a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i ymgysgu'r disgyblion i sefyll y Profion yn uchel, roedd bodlonrwydd gyda'r offer diagnostig oedd wedi'u bwriadu i gynorthwyo ymarferwyr i ddehongli sgoriau profion ychydig yn is (er y dywedodd dros ddwy ran o dair o ymatebwyr i arolwg 2015 eu bod yn fodlon). Gallai hyn ddangos archwaeth ar gyfer buddsoddiad pellach yn yr adnoddau hyn.


Effeithiolrwydd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol

- Mae'r niferoedd sydd wedi defnyddio'r RhGG wedi bod yn uchel. Erbyn mis Gorffennaf 2015 roedd hi'n galonogol bod ychydig dan ddwy ran o bump o uwch arweinwyr wedi dweud bod eu hysgol wedi cyrchu cefnogaeth wedi'i theilwra gan eu Partner RhGG (a oedd yn is nag un rhan o dair yn 2014).
- Cymysg yw'r bodlonrwydd gyda'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Bartneriaid RhGG, er bod ychydig dros hanner yr uwch arweinwyr wedi teimlo bod y gefnogaeth yn ddefnyddiol o ran gwreiddio'r FfLIRhC fel offer cynllunio'r cwricwlwm ac asesu.

7. Effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd ar gael gan y Consortia i gefnogi gweithrediad y RhLIRhC

- 7.1 Yn ychwanegol at y gefnogaeth a ddarparwyd fel rhan o'r RhGG, drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol (ac yn fwy diweddar y Grant Gwella Addysg) mae'r Consortia hefyd wedi bod â chyfrifoldeb am gefnogi ysgolion i weithredu'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol. O gofio eu rôl gynyddol gyda dad-barhau'r RhGG, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae ysgolion wedi ceisio cyrchu cefnogaeth Consortia, ac i ba raddau y mae'n ymddangos bod hyn wedi bodloni eu hanghenion.
- 7.2 Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, gan adlewyrchu cymeriad y setliad a gytunwyd gan bob Consortiwm gyda'i Awdurdod Lleol (ac yn wir ysgolion), mae'n ymddangos bod swm/math y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn gwahaniaethu'n fawr. O gofio maint y gwaith maes a gynhaliwyd dros gyfnod yr astudiaeth, nid yw'n bosibl ystyried perfformiad cymharol pob Consortiwm. Er hyn, yn yr adran nesaf rydym yn amlygu beth sy'n gweithio'n dda o safbwynt ymarferwyr (a'r hyn y byddai'r Consortia yn dymuno gwneud mwy ohono) yn ogystal â beth y gellid ei wella.
- 7.3 O gofio'r canfyddiad y byddai'r Consortia yn cymryd rôl amlycach mewn darparu cefnogaeth i ysgolion yn 2015, diddorol yw nodi mai ychydig dan dair rhan o bump (57% - gweler Ffigur 7-1) o'r uwch arweinwyr a atebodd y cwestiwn hwn oedd wedi cyrchu cefnogaeth. Roedd hyn yn cyfateb i leihad bychan yng nghyfran yr uwch arweinwyr oedd wedi cyrchu cefnogaeth gan eu Consortia yn y flwyddyn flaenorol (59% yn 2014).

Ffigur 7-1: Defnyddioldeb canfyddedig cefnogaeth 'arall' a gyrchwyd yn ychwanegol at/yn hytrach na'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 393 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol

(Gan eich Consortiwm Addysg Rhanbarthol: 2014 = 131, 2015 = 157,

Gan ddarparwr preifat: 2014 = 131, 2015 = 169,

Gan ysgolion eraill: 2014 = 131, 2015 = 157

Arall: 2014 = 131, 2015 = 353)

- 7.4 Mewn nifer o achosion mae'n ymddangos bod y brif ffynhonnell cefnogaeth ychwanegol mewn gweithredu'r FfLIRhC wedi dod o ysgolion eraill. O blith yr uwch arweinwyr hynny a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dywedodd dros ddwy ran o dair ohonynt (67%) mai dyna'r sefyllfa. Wedi dweud hynny, cyn dod i farn ynglŷn ag effeithiolrwydd y gefnogaeth a gynigwyd gan y Consortia (o'r rheini oedd wedi cyrchu cefnogaeth gan eu Consortiwm, dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair ei fod wedi bod yn ddefnyddiol) mae'n bwysig cydnabod eu bod, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi bod yn symud yn fwy tuag at fodel broceriaeth. O ganlyniad, mae'n debygol bod rhai uwch arweinwyr wedi methu gwahaniaethu rhwng cefnogaeth a gyrchwyd ar fenter eu hysgol a'r gefnogaeth a forcerwyd/gyflenwyd gan eu Consortiwm (lle mai hwyluso cefnogaeth ysgol i ysgol fu'r prif ddull a ddefnyddiwyd gan y Consortia i fodloni eu hamcanion). Er y gallai'r newid dull fod wedi cael y canlyniad nas bwriadwyd o leihau effeithiolrwydd canfyddedig gwaith y Consortia, mewn gwirionedd gallai'r canlyniadau roi arwydd cadarnhaol o werth symud tuag at fodel gwella a arweinir gan yr ysgol.

- 7.5 Yn dilyn diwedd y RhGG, mae adborth gan ymarferwyr mewn ysgolion astudiaeth achos (a gafwyd rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2016) yn awgrymu bod rôl y Consortia mewn darparu cefnogaeth i gynorthwyo ysgolion i wreiddio'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol fel petai wedi cynyddu. Er enghraifft, roedd ymarferwyr mewn dwy a'r bymtheg o'r pedair ysgol ar bymtheg y gwnaethom ymweld â hwy wedi cyrchu rhyw fath o gefnogaeth gan y Consortia. Yn y ddwy ysgol lle nad oedd tystiolaeth glir eu bod wedi bod yn gweithio gyda'r Consortia, roedd y ddwy yn rhan mewn gweithgareddau cydweithredol eraill.

Hwyluso cefnogaeth ysgol i ysgol


- 7.6 Efallai nad yw'n syndod, o gofio'r pwyslais cynyddol a roddir gan staff Consortia ar gefnogi system hunan-wella, ei bod hi'n nodedig bod y rhyngweithiadau rhwng ysgolion a'r Consortia y soniwyd fwyaf amdanynt fel pe baent yn digwydd drwy ddigwyddiadau a hwyluswyd megis cyfarfodydd cymedroli (lle gwahoddir clystyrau lleol i ddod ynghyd a thrafod eu dulliau ar gyfer asesu a thracio) neu gymunedau dysgu proffesiynol. Yn y digwyddiadau hyn câi ymarferwyr o wahanol ysgolion eu hannog i ddod ynghyd a datblygu dull a rennir er mwyn goresgyn problem neu her (er enghraifft sut i addysgu llythrennedd a/neu rhifedd ar draws y cwricwlwm). Roedd naw o'r pedair ysgol ar bymtheg y gwnaethom ymweld â hwy yn ymwneud yn y gweithgarwch hwn ac roedd hyn wedi'i gefnogi mewn rhyw fodd gan staff y Consortia.
- 7.7 Roedd adborth o'r mathau hyn o weithgareddau yn gadarnhaol ar y cyfan. Yng nghyd-destun ffocws cynyddol ar wella defnydd o ddata lefel disgybl i gefnogi addysgu a dysgu, croesawodd rhai uwch arweinwyr y cyfle i'w hysgol gyfranogi mewn gweithgareddau cymedroli/safoni. Roedd y rheini oedd yn gysylltiedig mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol hefyd yn croesawu'r cyfle i ganfod beth oedd ysgolion eraill yn ei wneud a nodi elfennau o ymarfer effeithiol. Lle'r oedd gweithgareddau o'r fath fel petaent yn fwyaf effeithiol nodwyd bod y Consortia wedi chwarae rhan amlwg, nid dim ond fel hwylusydd ond hefyd wrth gyfrannu i'r sesiynau drwy rannu eu harbenigedd. Fel y nodwyd gan un arweinydd canol

'mae'n ddefnyddiol ein bod wedi gallu rhannu'r hyn rydym yn ei wneud, ond dydw i ddim yn meddwl bod llawer o hyn yn arfer gorau, hyd yn oed os yw'n ein helpu ni i symud i'r cyfeiriad cywir... mae'n ddefnyddiol pan fyddwn yn clywed gan [staff yn y Consortia] gan fod ganddynt drosolwg o'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r awdurdod [lleol]' (Arweinydd canol mewn ysgol gynradd).

Hwyluso cefnogaeth cymar i gymar

- 7.8 Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, yn ychwanegol at gynorthwyo cefnogaeth ysgol i ysgol mae'r Consortia wedi ceisio harneisio profiad ymarferwyr unigol a ystyrir eu bod yn rhagori mewn addysgu llythrennedd a/neu rhifedd (er efallai nad ydynt yn gweithio mewn ysgol neu Adran sy'n gweithio i'r un safon). Mae gwaith o'r fath wedi adeiladu ar ddysgu mentrau megis Rhaglen Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol (ALIRhRh).
- 7.9 Mae'r ALIRhRh, a lansiwyd yn 2013, wedi cael ei chyflwyno gan y Consortia ac fe'i hariannwyd yn wreiddiol o dan y Grant Effeithiolrwydd Ysgol. Rhoddodd hyn ddyletswydd ar y Consortia i gefnogi 'rhannu arfer gorau drwy ddefnyddio athrawon llythrennedd a rhifedd rhagorol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a mentora ar gyfer staff addysgu sydd angen cefnogaeth ychwanegol' (Llywodraeth Cymru, 2013d). O fewn y fframwaith a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, anogwyd Consortia i ddatblygu model oedd yn fwyaf addas i ddiwallu anghenion yr ysgolion yn eu hardal (a'u dull cyflwyno cyffredinol).
- 7.10 Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Interim, penderfynodd y Consortia fabwysiadu ystod o wahanol ddulliau mewn perthynas â nifer yr Athrawon Llythrennedd Rhagorol (ALIRh) ac Athrawon Rhifedd Rhagorol (ALIRh) a gefnogwyd drwy'r rhaglen, a'r ffordd yr oedd y gefnogaeth i gael ei darparu i ysgolion. Mae amrywiaeth o'r fath wedi codi heriau gwerthusol, yn bennaf ystyried perfformiad cymharol y rhaglen ym mhob ardal Consortia cyn dod i unrhyw asesiad ar lefel rhaglen.
- 7.11 Fel y nodir yn Ffigur 7-2, llesteirir gwerthusiad y ALIRhRh ymhellach gan lefelau isel y nifer a fanteisiodd arni. Yn 2015, o'r uwch arweinwyr hynny a ymatebodd i'r arolwg, dim ond 65 o'r 431 (15%) oedd wedi cyrchu rhywfaint o gefnogaeth gan ALIRh neu gan ALIRh (48 o'r 352 - dywedodd 14% mai dyna'r sefyllfa yn 2014). O'r rhain, dim ond deg oedd o De Ddwyrain Cymru (un yn fwy nac yn 2014).

Ffigur 7-2: Mynediad at gefnogaeth gan ALIRh a/neu ALIRh



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Un ateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 431 yn 2015)

N. Ar goll= Newidyn

(De Orllewin Canolbarth Cymru: 2014 = 34, 2015 = 40,

Gogledd Cymru: 2014 = 30, 2015 = 31,

Canol De Cymru: 2014 = 20, 2015 = 23

De Ddwyrain Cymru: 2014 = 11, 2015 = 5

Ar goll: 2014 = 18, 2015 = 44)

- 7.12 O gofio'r cyfyngiadau hyn, mae'n ymddangos yn fwyaf priodol i gyfyngu cwrpas y dadansoddiad i asesiad o'r nifer sy'n manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael. Wrth wneud hyn mae'n werth nodi bod (yn 2015) llai na chwarter (23%) o'r uwch arweinwyr hynny a atebodd y cwestiwn wedi cyrchu cefnogaeth. Er na chafodd y rhaglen erioed ei chynllunio i gefnogi pob ysgol yng Nghymru, mae'r lefel hon o ddefnydd yn ymddangos yn isel.
- 7.13 Mewn cyfweiliadau gyda staff yn y Consortia roedd hi'n amlwg, er bod y Consortia wedi defnyddio'r cyllid a neilltuwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darpariaeth cefnogaeth cymar i gymar, dim ond ychydig oedd wedi hyrwyddo'n weithredol y cysyniad o 'Athro Rhagorol'. Fel y nodwyd gan un arbenigwr llythrennedd: 'dim ond ychydig o athrawon sy'n gyfforddus gyda'r syniad eu bod yn addysgu gwersi rhagorol neu eithriadol trwy'r dydd bob dydd... rydym wedi defnyddio [yn hytrach] y cysyniad o Ymarferydd

Arweiniol'. O ganlyniad, efallai bod rhai uwch arweinwyr wedi cyrchu cefnogaeth a gyllidwyd drwy'r fenter heb sylweddoli hynny.

- 7.14 Ym mis Ebrill 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru y penderfyniad i wneud newidiadau yn y ffordd y cyllidir Consortia drwy gyflwyno'r Grant Gwella Addysg²⁹. Er bod hyn yn amodi y dylai Consortia ddal i geisio cefnogi gwelliannau mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd, rhoddwyd y rhyddid iddynt ddewis sut yr oeddent yn gwneud hynny. Er bod Consortia fel pe baent wedi ceisio defnyddio arbenigedd ALIRh ac ALIRh o fewn eu rhanbarth (ac yn wir wedi cefnogi recriwtiad ymarferwyr ychwanegol), ni chaiff ALIRh ac ALIRh eu hystyried mwyach fel ymyrraeth neu raglen benodol.
- 7.15 Gan roi o'r neilltu faterion yn ymwneud â nodi'r ysgolion hynny sydd wedi cyrchu gwybodaeth gan ALIRh a/neu ALIRh, mae'n bwysig ystyried beth all perfformiad y fenter ei ddweud wrthym am effeithiolrwydd modelau cymar i gymar. Cymysg oedd yr adborth gan staff Consortia. Roeddent yn dweud, er ei bod yn bwysig bod camau'n cael eu cymryd i harneisio arbenigedd ymarferwyr nad oedd o reidrwydd yn gweithio mewn ysgolion oedd yn perfformio'n dda, roedd hi'n bwysig cydnabod yr heriau roedd hyn yn ei beri, yn bennaf parodrwydd uwch arweinwyr i ganiatáu i'w hymarferwyr mwyaf effeithiol i adael yr ystafell ddosbarth er mwyn cefnogi staff mewn ysgolion eraill. Yn y dyfodol, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried pa gymhellion ychwanegol y gellid eu cynnig i uwch arweinwyr er mwyn gweithio yn y modd hwn. Heb gymhellion o'r fath, mae'n anodd gweld sut y gellir cynyddu swm y gweithio cymar i gymar.

Cefnogaeth gan eu Cynghorydd Her

- 7.16 O gofio'r pwyslais a roddwyd gan y Consortia ar rôl Cynghorwyr Her fel brocer cefnogaeth i ysgolion, roedd hi'n syndod mai staff mewn dim ond wyth o'r pedair ysgol ar bymtheg a ddywedodd eu bod wedi cyrchu cefnogaeth o'r fath er mwyn cynorthwyo i godi ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd. Hyd yn oed pan nododd uwch arweinwyr/arweinwyr canol eu bod wedi cyrchu rhywfaint o gefnogaeth, roeddent yn teimlo bod gwella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd heb fod yn brif bryder iddynt (hyd yn oed pan oeddent yn meddwl bod angen hynny arnynt).
- 7.17 Mae nifer o ffactorau fel pe baent wedi cyfrannu at y canlyniad hwn, yn bennaf y goblygiadau sy'n deillio o gyflwyno model cefnogi haenog. Ym mhob un o'r pedwar Consortia roedd tystiolaeth bod Cynghorwyr Her wedi naill ai symud

²⁹Gweler: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/education-improvement-grant-for-schools/?lang=en>

(neu eu bod yn symud) i ddull lle'r oedd yr ysgolion a ystyriwyd i fod â'r angen mwyaf, yn derbyn y mwyaf o gefnogaeth. Yn ymarferol roedd hi'n ymddangos bod lefel y gefnogaeth a ddyrannwyd i ysgolion unigol yn cael ei benderfynu ar sail categorieddiad yr ysgol³⁰. O ganlyniad, derbyniodd yr ysgolion hynny a oedd wedi'u dosbarthu naill ai'n 'Goch' neu 'Oren' swm sylweddol uwch o gefnogaeth na'r ysgolion hynny a nodwyd yn rhai 'Gwyrdd' neu 'Felyn', Er bod staff Consortia yn teimlo ei bod hi'n iawn i deilwra cefnogaeth yn y modd hwn roeddent yn cydnabod nad oedd dull o'r fath o reidrwydd yn amlygu'r ysgolion hynny oedd ag anghenion **penodol** ym maes addysgu llythrennedd a rhifedd. Fel y crynhowyd gan un Cynghorydd Her

'er fy mod yn falch ein bod nawr mewn sefyllfa i ddarparu mwy o gefnogaeth i ysgolion a nodir yn rhai Coch ac Oren, bydd gan yr ysgolion hynny yn aml broblemau mwy na'r angen i addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Lle bo gan ysgolion y gallu i gefnogi cyflwyniad y RhLIRhC yn aml nid oes gennym yr amser [i'w cefnogi]' (Cynghorydd Her)

- 7.18 Lle'r oedd Cyngorwyr Her wedi ceisio helpu ysgolion i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd, cymysg oedd yr adborth. Er enghraifft, er bod rhai uwch arweinwyr yn canmol eu Cyngorwyr am eu helpu i gyrchu cefnogaeth gan y tîm Llythrennedd a Rhifedd yn y Consortia, neu wedi helpu i ryddhau cyllid iddynt gyrchu cefnogaeth gan ddarparwr preifat, cwestiynodd uwch arweinwyr eraill a oedd gan eu Cyngorwyr yr arbenigedd i'w helpu i nodi a goresgyn rhwystrau ar gyfer gwelliant yn y maes hwn. Er enghraifft, nododd un uwch arweinydd y canlynol;

'[Hyd yn ddiweddar] nid oedd ein Cyngorwyr yn dod o gefndir Cynradd... byddem yn cael sgysiau hurt lle byddai ef yn nodi heriau a oedd yn gwbl wahanol i'r rhai yr oeddem ni wedi eu nodi... doedd ganddo ddim yr arbenigedd i gynnig y gefnogaeth oedd ei hangen arnom' (Uwch arweinydd ysgol gynradd).

Er y byddai'n ymddangos yn afrealistig i ddisgwyl i bob Cyngorwyr Her fod yn arbenigwr llythrennedd a/neu rhifedd, efallai y byddai'r Consortia yn dymuno ystyried a oes ganddynt unrhyw anghenion hyfforddiant a chefnogaeth neilltuoel a allai helpu i wella ansawdd y gefnogaeth y maent yn ei chynnig i'r ysgolion y maent yn gweithio gyda hwy.

³⁰Gweler:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/schoolcategorisation/?lang=en>

Cefnogaeth gan arbenigwyr pwnc

- 7.19 Cymysg oedd y nifer a fanteisiodd ar gefnogaeth arbenigol gan y Consortia i gefnogi gweithrediad y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol ymhlith yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy ac roedd hyn fel petai'n adlewyrchu'r gwahaniaethau yn swm y cyllid oedd ar gael. Yn wir, roedd ychydig dros ddwy ran o bump ohonynt (wyth o'r pedair ysgol ar bymtheg y gwnaethom ymweld â hwy yn 2016) wedi cyrchu cefnogaeth yn y modd hwn. Hefyd, roedd hi'n ymddangos bod y mathau o gefnogaeth a gyrchwyd gan ysgolion mewn gwahanol ardaloedd Consortia yn amrywiol. Roedd mathau cyffredin o gefnogaeth yn cynnwys cyrsiau DPP 'ffurfiol', darpariaeth hyfforddiant penodol neu wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion unigol neu grŵp o ysgolion oedd ag anghenion tebyg ac argaeledd y cynorthwyon/deunyddiau ac adnoddau addysgu.
- 7.20 Mewn ysgolion a gyrchodd y math hwn o gefnogaeth, roedd yr adborth ar y cyfan yn gadarnhaol. Yn wir, ni ddywedodd un aelod o staff nad oeddent wedi elwa o'r gefnogaeth yr oeddent wedi ei derbyn. Fodd bynnag, hyd yn oed pan oedd cefnogaeth o'r fath wedi'i chyrchu gan ymarferwyr teimlai llawer eu bod hwy (ac yn wir eu cydweithwyr) angen mwy os oeddent i sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu'n effeithiol ar draws y cwricwlwm - yn arbennig ymhlith rhai nad oedd yn arbenigwyr Saesneg/Cymraeg a Mathemateg (dywedodd staff mewn un ysgol ar ddeg y byddent yn elwa gan ragor o hyfforddiant). Crynhowyd y farn hon gan un o'r arweinwyr canol a ddywedodd 'y bydd gwir effaith y FfLIRhC dim ond yn cael ei gwireddu pe bai rhai sydd ddim yn arbenigwyr yn cael y sgiliau i addysgu llythrennedd a rhifedd' (Arweinydd canol mewn ysgol uwchradd).

Anghenion cefnogaeth ychwanegol

- 7.21 Lle bo rhai aelodau staff yn teimlo bod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd, mae'n bwysig ystyried pam nad yw eu hanghenion canfyddedig yn cael eu bodloni. Wrth ystyried yr adborth gan staff yn yr ysgolion astudiaeth achos gwelwyd rhai rhwystrau cyffredin:
- **Nodi darparwr o ansawdd uchel:** Er bod nifer o'r uwch arweinwyr/arweinwyr canol yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r gefnogaeth yr oeddent wedi'i chyrchu gan y Consortia, gwnaethant nodi nad oedd hyn yn golygu eu bod yn teimlo bod gan y Consortia y gallu na'r arbenigedd i fodloni eu holl anghenion. Er bod llawer yn cydnabod bod ganddynt berthynas eisoes â darparwyr eraill (a oedd fel arfer yn rhai preifat) y gallent alw arnynt, roedd bylchau mewn

arbenigedd y byddent yn amharod i'w llenwi gyda darparwr nad oedd ganddynt brofiad blaenorol ohono. Awgrymwyd y gallai Consortia wneud mwy i gefnogi ysgolion i ganfod darparwyr o ansawdd uchel lle na allent ddarparu'r math hwnnw o gefnogaeth yn fewnol.

- **Talu cost hyfforddiant a chefnogaeth:** Dywedodd rhai ymarferwyr dosbarth eu bod wedi cael trafferth i gael cadarnhad gan uwch arweinwyr i gyrchu hyfforddiant yn ystod amser ysgol, oherwydd y gost i'r ysgol (yn bennaf talu am athro/athrawes cyflenwi). Teimlwyd bod y mater hwn wedi ei ddwysau o gofio cyflymder y diwygio a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru a'r angen i staff feistrolï'r newidiadau i'r cwrwclwm ac asesiad (megis y newidiadau i feysydd llafur TGAU Saesneg, Cymraeg - iaith gyntaf - a Mathemateg).
- **Rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant:** Cydnabu uwch arweinwyr/arweinwyr canol mewn rhai ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy gyfatebiaeth rhwng manteision staff yn mynychu hyfforddiant a'r effaith negyddol y gallai absenoldeb athro/athrawes o'r ysgol ei gael ar berfformiad y disgyblion yr oeddent yn eu haddysgu. Er y cydnabuwyd y byddai'r gefnogaeth a ddarparwyd yn fewnol (fel arfer gan Gydlynnydd Llythrennedd a/neu Rhifedd yr ysgol) yn mynd rhywfaint o'r ffordd i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd (yn arbennig ymhlith rhai nad oedd yn arbenigwyr Saesneg/Cymraeg neu Fathemateg roedd anfanteision rhyddhau staff ar gyfer rhaglen hyfforddi sy'n gymesur i'w hanghenion yn rhy gostus.

Canfyddiadau Allweddol:

- Er gwaethaf y canfyddiad y byddai'r Consortia yn chwarae rôl amlycach mewn darparu cefnogaeth i ysgolion wedi i'r RhGG ddod i ben, yn 2015 roedd ychydig dan dair rhan o bump o'r uwch arweinwyr wedi cyrchu cefnogaeth gan eu Consortia i wella ansawdd eu haddysgu llythrennedd a/neu rhifedd. Dywedodd dros ddwy ran o dair eu bod wedi cyrchu cefnogaeth gan ysgolion eraill. Lle gwelwyd bod Consortia wedi bod yn hwyluso'r math hwn o weithgaredd gellid ystyried hyn yn ganlyniad cadarnhaol.
- Er yn anecdotaidd, mae adborth gan ysgolion astudiaeth achos yn 2016 yn dangos efallai bod rôl y Consortia mewn darparu cefnogaeth wedi cynyddu ar ôl i'r RhGG ddod i ben.
- Y gweithgaredd cefnogi, a grybwyllwyd fwyaf aml, a ddarparwyd gan y Consortia oedd hwyluso gweithgareddau cydweithredol ysgol i ysgol megis cymunedau dysgu proffesiynol. Roedd yr adborth am weithgareddau o'r fath ar y cyfan yn gadarnhaol.
- Er gwaethaf buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn mentrau cefnogi cymar i gymar (megis Rhaglenni Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol), mae maint y math hwn o weithgaredd yn gymharol gyfyngedig. Er hynny, pan fydd ymarferwyr yn derbyn cefnogaeth i ddarparu cefnogaeth cymar i gymar

gall hyn fod yn effeithiol.

- O gofio'r pwyslais a roddwyd gan Consortia ar rôl y Cynghorwyr Her fel brocer cefnogaeth, mae'n werth nodi bod llai na hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy wedi cyrchu cefnogaeth i'w cynorthwyo i wella ansawdd eu haddysgu llythrennedd a/neu rhifedd er gwaethaf teimlo bod ganddynt anghenion nas diwallwyd.
- Roedd y galw am gefnogaeth gan arbenigwyr yn uwch na gallu presennol y Consortia. Er hyn, lle'r oedd ysgolion wedi cyrchu cefnogaeth roedd hyn yn ddefnyddiol mewn cefnogi gwelliant mewn addysgu llythrennedd a/neu rhifedd.


8. Effaith y RhLIRhC mewn cefnogi gwelliannau i ymarfer proffesiynol

- 8.1 Teimlai staff mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig bod y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol wedi dod â newid cadarnhaol i system addysg Cymru. Dywedwyd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu, defnydd o ddata asesu ac ymarfer cydweithredol, fel y bwriadwyd iddynt (ac fel y crynhoir hefyd yn y model rhesymeg ym Mhennod 1).

Effaith ganfyddedig y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol ar ansawdd addysgu a'r dysgu

- 8.2 Y dangosydd llwyddiant mwyaf pwysig o'r FfLIRhC fydd i ba raddau y teimlir ei fod yn cefnogi gwelliant yn ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd. Mae'n bwysig ystyried canfyddiadau uwch arweinwyr, yn bennaf oherwydd bod eu hyder y bydd y FfLIRhC yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol disgyblion yn hollbwysig i sicrhau ymgysylltiad ymarferwyr dros y tymor canolig i'r hirdymor.
- 8.3 O'i ystyried yn y goleuni hwn, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi'i chalonogi bod tua phedair rhan o bump o'r uwch arweinwyr hynny a ymatebodd i'r arolwg ar-lein yn 2015 yn teimlo bod cyflwyniad y FfLIRhC wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu yn eu hysgol (80% mewn llythrennedd a 78% mewn rhifedd - gweler Ffigur 8-1). Roedd hyn yn gynydd ar y gyfran (ychydig dros ddwy ran o dair) yn 2014 (70% a 67% yn yr un drefn).

Ffigur 8-1: Effaith ganfyddedig y FfLIRhC ar ansawdd addysgu a dysgu



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinwyr Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Un ymateb

N=Newidiol (352 yn 2014 a 431 yn 2015)

N. Ar goll= Newidiol

(Mewn rhifedd: 2014 = 157, 2015 = 108,

Mewn llythrennedd: 2014 = 157, 2015 = 110)

8.4 Mae'n ddiddorol nodi, pan ystyrir ymatebion yn ôl cam, yn 2015 teimlwyd bod cyflwyniad y FfLIRhC wedi cael effaith fwy cadarnhaol ymhlith ymatebwyr uwchradd na'r rheini o gefndir cynradd. Mae hyn yn adlewyrchu newid o'r canfyddiadau 2014 cynharach:

- Yn 2014 teimlai rhwng hanner a dwy ran o bump o'r ymatebwyr cynradd bod cyflwyniad y FfLIRhC wedi creu effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd (46% a 39% yn yr un drefn). Tua un rhan o dair o'r ymatebwyr uwchradd a ddywedodd hyn (33% a 29% yn yr un drefn).
- Yn 2015 roedd cyfran yr ymatebwyr uwchradd a ddywedodd bod y FfLIRhC wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu wedi cynyddu i dros dri chwarter (76%) mewn llythrennedd a dwy ran o dair (62%) mewn rhifedd. O'r rheini a ymatebodd i gwestiynau perthnasol o ysgolion cynradd teimlai tua dwy ran o dair ohonynt bod cyflwyniad y FfLIRhC wedi cael effaith gadarnhaol (66% ar addysgu llythrennedd a 67% ar addysgu rhifedd).

- 8.5 Wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn, efallai y bydd yn ddefnyddiol ystyried gwahanol fannau cychwyn yr ymarferwyr cynradd ac uwchradd. Fel y trafodwyd yn yr Adroddiad Interim, teimlai rhai ymarferwyr (cynradd ac uwchradd) bod y dulliau trawsgwricwlaidd a hyrwyddwyd drwy'r FfLIRhC yn agosach at y rheini a ddefnyddiwyd eisoes mewn nifer o ysgolion cynradd. Mae'n ymddangos bod y FfLIRhC wedi annog rhai ysgolion uwchradd i gyflwyno mwy o wersi gan ddefnyddio dulliau trawsgwricwlaidd; roedd ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy yn 2016 yn chwilio am gyfleoedd o fewn y cwricwlwm, gyda rhai'n cynnwys disgyblion mewn trafodaethau ynglŷn â beth yr hoffent ei ddysgu a sut, ac yna ymgorffori'r rhain i gynlluniau gwersi.
- 8.6 Ar y cyfan, bu budd mwy cyfyngedig mewn defnyddio dulliau trawsgwricwlaidd mewn ysgolion uwchradd nac mewn ysgolion cynradd. Roedd tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod ysgolion uwchradd yn gwneud defnydd ehangach o ddulliau addysgu llythrennedd a rhifedd 'ar draws y cwricwlwm'. Soniodd pob un o'r athrawon dosbarth uwchradd y gwnaethom siarad â hwy yn 2016 bod eu gwersi nawr yn rhoi mwy o bwyslais ar lythrennedd a rhifedd o ganlyniad i'r FfLIRhC, gan nodi bod hyn hefyd yn cael ei hysbysu gan gynlluniau ysgol gyfan ac adrannol. Fel y nodwyd gan un ymarferydd dosbarth:
- 'pe byddech wedi gofyn i athro pwy oedd yn gyfrifol am addysgu llythrennedd a rhifedd [cyn y FfLIRhC] byddai wedi dweud y rheini sy'n addysgu Saesneg a Mathemateg. Nawr byddwn yn cael fy synnu pe byddai unrhyw un ddim yn ei weld fel ymdrech drawsgwricwlaidd' (Ymarferydd dosbarth)
- 8.7 Dynododd canfyddiadau'r arolwg arweinwyr ysgol bod y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol yn cynorthwyo i wella cysondeb ac ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd. Teimlai dros chwarter y 352 ymatebydd bod cyflwyniad y FfLIRhC wedi arwain at effaith weddol gadarnhaol ar ansawdd (29%) a chysondeb (28%) addysgu llythrennedd a rhifedd. Mae ymweliadau astudiaeth achos 2016 yn cyd-fynd â'r canfyddiadau hyn, gyda barn uwch arweinwyr yn parhau'n gymysg. Roedd hi'n ymddangos bod staff mewn ysgolion uwchradd yn gweld cysylltiadau cliriach rhwng y Profion Cenedlaethol a'r camau a gymerwyd i wella ansawdd a/neu gysondeb addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig nid yw'r cysylltiadau mor glir a theimlwyd mai prin fu effaith y Profion Cenedlaethol ar benderfyniadau addysgu a dysgu.
- 8.8 Yn ystod ymweliadau ysgol dywedodd staff bod hyn wedi'i gyflawni drwy ystod o weithgareddau strategol, megis cynllunio ysgol gyfan lle byddai llythrennedd a rhifedd yn digwydd mewn gwersi. Cefnogwyd dulliau yn yr ystafell ddosbarth hyn ymhellach drwy fabwysiadu dull cyson ar gyfer

addysgu graffiau (rhifedd), neu ofyn i'r disgyblion ateb cwestiynau ysgrifenedig a llafar mewn brawddegau wedi'u strwythuro'n llawn (llythrennedd) er enghraifft. Nid oedd gan yr athrawon y gwnaethom siarad â hwy unrhyw bryderon ynglŷn â mabwysiadu dull ysgol gyfan, cyson ar gyfer llythrennedd a rhifedd ac roeddent i gyd yn gyfarwydd â, ac yn defnyddio'r adnoddau a ddarparwyd gan eu hysgol.


- 8.9 Yn unol ag adborth mwy cymysg ynglŷn â'r Profion Cenedlaethol, roedd tua un rhan o dair o'r ymatebwyr yn ansicr a oedd y Prawf Darllen Cenedlaethol (37%) a'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (32%) wedi cael effaith (boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol) hyd yma ar ansawdd neu gysondeb dysgu (43% a 35% yn yr un drefn). Fodd bynnag, teimlai llai nag un rhan o ddeg bod y Profion wedi cael effaith 'gweddol negyddol' neu 'negyddol iawn' ar y dangosyddion hyn (gweler Ffigur 8-1).
- 8.10 Mae ymweliadau astudiaeth achos 2016 yn cyd-fynd â'r canfyddiadau hyn, gyda barn uwch arweinwyr yn parhau'n gymysg. Roedd hi'n ymddangos bod staff mewn ysgolion uwchradd yn gweld cysylltiadau cliriach rhwng y Profion Cenedlaethol a'r camau a gymerwyd i wella ansawdd a/neu gysondeb addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mewn lleoliadau ysgolion cynradd ac arbennig nid yw'r cysylltiadau mor glir a theimlwyd mai prin fu effaith y Profion Cenedlaethol ar benderfyniadau addysgu a dysgu.
- 8.11 Mae'n ymddangos bod effaith ysgafnach y RhLIRhC wedi bod ar hyder a hunan-adroddwyd athrawon ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig. Mae sawl elfen i'r effaith hon, gydag athrawon mewn ysgolion astudiaeth achos yn sôn am deimlo'n fwy hyderus ar draws gwahanol agweddau o ymarfer proffesiynol, yn cynnwys:
- bod yn fwy sicr yn eu gwybodaeth llythrennedd a rhifedd eu hunain, fel y gallant holi disgyblion yn well am eu gwybodaeth
 - gwybod bod eu gwersi'n cefnogi addysgu'r FfLIRhC
 - bod yn fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau am dargedau disgyblion, o ganlyniad i gynydd mewn defnydd data neu well defnydd ohono.

Effaith ganfyddedig y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol ar ddefnydd data asesu

- 8.12 Cyflwynodd Penodau 3 a 4 y cynnydd yr oedd ysgolion wedi'i wneud mewn gweithredu'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol. Mae'r adran hon yn ystyried effaith ganfyddedig y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol ar ddefnydd data asesu.

- 8.13 Er gwaethaf maint y newidiadau i'w hymarfer sydd eisoes wedi'u gwneud gan nifer o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy yn 2014, roedd staff, ar y cyfan, yn betrusgar ynglŷn â hawlio unrhyw effaith ar ymarfer ar y cam hwnnw. Ym mhob un ond dwy o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy ar y pryd, teimlai'r cyfweleion ei bod hi'n rhy gynnar i lunio barn o'r fath. Er hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ysgolion yn obeithiol y byddai cyflwyniad y FfLIRhC yn arwain at welliant yn y defnydd o ddata i hysbysu athrawon ynglŷn ag anghenion disgyblion, nodi bylchau yn y cwricwlwm ac felly cefnogi addysgu a dysgu. Erbyn 2016, roedd y gobaith hwn yn ymddangos fel petai wedi'i wireddu wrth i staff mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig sôn am gynnydd mewn defnydd data asesu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion.
- 8.14 Mae hi hefyd yn ddefnyddiol i edrych ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan arolygon 2014 a 2015 ynglŷn ag effeithiau'r Profion Cenedlaethol ar addysgu a dysgu. Yn unol â gwelliannau yn nefnyddioldeb canfyddedig data lefel disgybl o'r Profion Cenedlaethol o 2014 hyd 2015, roedd cyfran yr uwch arweinwyr a oedd yn teimlo bod argaeledd data profion wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd neu gysondeb addysgu yn eu hysgol wedi cynyddu o tua dwy ran o bump i tua thair rhan o bump, fel y dangosir yn
- 8.15 Ffigur 8-2. Mae hyn yn dangos ymhellach bod ysgolion wedi ymgysylltu fwyfwy â'r Profion dros amser, efallai oherwydd eu gwerth canfyddedig mewn ysgogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.

Ffigur 8-2: Effaith argaeledd data lefel disgybl o'r Profion Cenedlaethol ar ansawdd addysgu a dysgu



Ffynhonnell: Arolwg o Arweinyddiaeth Ysgol 2014 a 2015

Math o gwestiwn: Un ymateb

N=Newidiol (352 ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol a'r Profion Rhifedd Cenedlaethol yn 2014)

N. Ar goll= Newidiol

(Prawf Darllen Cenedlaethol: 2014 = 70, 2015 = 106,

Profion Rhifedd Cenedlaethol: 2014 = 109, 2015 = 113)

- 8.16 Ar lefel ysgol, defnyddiwyd data o'r Profion Cenedlaethol i hysbysu cynllunio a chyflwyno gwersi. Fel y nodir uchod, hysbysodd cynlluniau ysgol gyfan ac adrannol ar gyfer llythrennedd a rhifedd yr hyn yr oedd athrawon yn ei addysgu yn y dosbarth. Roedd cydnabyddiaeth y byddai canolbwyntio ar holl llinynnau'r FfLIRhC yr holl amser yn ormod, felly'n aml dewisodd ysgolion ganolbwyntio, dros gyfnod diffiniedig o amser (blwyddyn neu dymor academiaidd yn nodweddiadol), ar y llinynnau lle'r oedd yr angen mwyaf am welliant. Nodwyd y llinynnau y gwnaethant ganolbwyntio arnynt ar sail canlyniadau'r disgyblion yn y Profion Cenedlaethol, ac, yn nodweddiadol, y rheini oedd y meysydd y cafodd disgyblion y canlyniadau isaf ynddynt ar draws yr ysgol. Mewn ysgolion uwchradd roedd enghreifftiau o ddata Profion Cenedlaethol yn cael eu defnyddio i hysbysu penderfyniadau ynglŷn â dyrannu disgyblion i grwpiau 'dal i fyny' a setiau pwnc.
- 8.17 Ar draws yr holl ysgolion roedd hi'n ymddangos bod mabwysiadu cynlluniau marcio llythrennedd a/neu rhifedd ysgol gyfan, cyson yn ganolog i wreiddio'r FfLIRhC, er bod cynlluniau marcio rhifedd i'w gweld yn llai aml na chynlluniau marcio llythrennedd. Yn nodweddiadol, datblygwyd y cynlluniau marcio gan y cydlynnydd llythrennedd a/neu rhifedd gyda chefnogaeth uwch arweinydd, a oedd yn cynorthwyo i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio. Ar y cyfan roedd athrawon dosbarth yn ganmoliaethus o'r cynlluniau marcio hyn. Roeddent yn teimlo eu bod yn eu hannog i fod yn fwy rhagweithiol mewn asesu defnydd sgiliau llythrennedd a/neu rhifedd yn eu gwersi, gan adlewyrchu efallai nad oeddent, cyn hyn, wedi eu hasesu, neu wedi gwneud hyn mewn ffyrdd a oedd yn arwain at ddryswch rhwng pynciau ar gyfer y disgybl. Ar lefel ystafell ddosbarth, felly, mae'n ymddangos bod asesu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn fwy cyson o ganlyniad i'r FfLIRhC.

Effaith ganfyddedig y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol ar ansawdd ac amllder gweithgarwch cydweithredol

- 8.18 Yn 2014 roedd hi'n ymddangos mai prin oedd effaith y RhLIRhC ar ansawdd ac amllder cydweithredu rhwng athrawon o fewn ysgolion fel y crybwyllwyd ym Mhennod 7. O'r 20 ysgol y gwnaethom ymweld â hwy, pedair (un ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd) oedd yn teimlo bod y RhLIRhC wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i lefelau cydweithredu rhwng ymarferwyr yn eu hysgol. Yn 2016 roedd tystiolaeth o fwy o gydweithredu o fewn a rhwng ysgolion.

Mae'n ymddangos mai'r FfLIRhC oedd y ffactor gyfranogol fwyaf i sicrhau mwy o gydweithredu. Roedd y Profion Cenedlaethol fel petaent wedi cael llai o effaith, er y gwnaeth rhywfaint o gydweithredu ddigwydd o ganlyniad iddynt.

- 8.19 Teimlai bron pob aelod staff y gwnaethom siarad â hwy mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig yn 2016 bod y RhLIRhC wedi cyfrannu at gydweithredu o fewn eu hysgol. Y mecanweithiau mwyaf cyffredin ar gyfer cydweithredu oedd HMS a sesiynau DPP gyda'r hwyr. Rhoddodd DPP mewnol lwyfan i gydlynwyr raeadru hyfforddiant a rhannu dysgu o gydweithredu ysgol ac ysgol. Cefnogodd y sesiynau hefyd ddeialog ysgol gyfan ynglŷn â'r RhLIRhC.
- 8.20 Mae'n amlwg bod cydweithredu wedi cynyddu rhwng 2014 a 2016, ac o ganlyniad i fwy o gydweithredu cafwyd canlyniadau cadarnhaol. Soniodd ysgolion cynradd ac uwchradd mewn tair o'r pedair ardal Consortia bod eu Consortia perthnasol wedi chwarae rhan ddylanwadol mewn annog cydweithredu rhwng ysgolion a hwyluso cyfarfodydd. Roedd ysgolion a fynychodd y cyfarfodydd hyn o'r farn y caed nifer o fanteision:
- Cael mynediad at ystod eang o arbenigedd, ehangu'r dysgu, syniadau ac adnoddau oedd ar gael iddynt.
 - Rhoi tawelwch meddwl ynglŷn â'r dull yr oeddent yn ei ddefnyddio. Croesawodd ysgolion y cyfle i siarad gydag eraill am eu dulliau ac mae'n ymddangos bod hyn wedi rhoi mwy o hyder iddynt.
 - Galluogi cymedroli dulliau. Dywedwyd bod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol ar gyfer sicrhau y defnyddiwyd dull cyffredinol gyson ar draws clystyrau (ac, mewn rhai achosion, ardaloedd daearyddol ehangach).
 - Hyrwyddo gwell cysylltiadau. Roedd cyfweleion mewn ysgolion o'r farn bod cyfarfodydd wedi galluogi cysylltiadau i gael eu datblygu a'u cryfhau. Roedd staff o'r farn bod hyn wedi gwneud rhai ysgolion yn llai amddiffynnol ac wedi cyfrannu at sgysiau adeiladol ynglŷn â sut y gallai ysgolion cynradd fynd i'r afael â materion llythrennedd a rhifedd yn gynharach er mwyn cynorthwyo eu cydweithwyr mewn ysgolion uwchradd, er enghraifft.
 - Galluogi mwy o ffocws ar addysgu a dysgu. Roedd ysgolion a oedd wedi cydweithredu cyn y RhLIRhC yn credu bod y FfLIRhC wedi annog cyfarfodydd a arweiniwyd gan y Consortia i gael mwy o ffocws ar gyfer addysgu a dysgu a theimlwyd bod hyn yn gadarnhaol.

Canfyddiadau Allweddol:

- Mae'r FfLIRhC wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig ers ei gyflwyniad yn 2013. Mae effaith y FfLIRhC ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu wedi cael ei wireddu'n gyflymach na'r Profion Cenedlaethol. Dyma ddylid fod wedi ei ddisgwyl, oherwydd trefn eu cyflwyno.
- Mae'r RhLIRhC wedi golygu mwy o ddefnydd dulliau ar draws y cwricwlwm a thrawsgwricwlaidd ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd. Mae'r dulliau hyn, a gyflwynwyd fel rhan o weithgareddau'r FfLIRhC, wedi creu teimlad o gyfrifoldeb a rennir ymhlith athrawon i addysgu llythrennedd a rhifedd. Roedd hyn yn cael ei gyflawni mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig, er y bu siwrnai pob math o ysgol yn wahanol. Ysgolion uwchradd wnaeth y newid mwyaf, oherwydd y strwythurau a'r prosesau oedd ganddynt eisoes, ac ysgolion cynradd wnaeth y newidiadau lleiaf oherwydd pa mor gyffredin oedd dulliau trawsgwricwlaidd cyn y FfLIRhC.
- Mae'r RhLIRhC wedi cael effaith gadarnhaol ar gydweithredu ymhlith athrawon o fewn a rhwng ysgolion. Dywedwyd bod y FfLIRhC yn benodol wedi annog athrawon i gyfathrebu fel bod addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol a chyson.
- Teimlwyd bod addysgu llythrennedd a rhifedd yn fwy cyson o ganlyniad i'r FfLIRhC. Roedd hi'n ymddangos bod dulliau gweithredol, megis cynlluniau marcio ysgol gyfan, yn ffordd effeithiol o gyflawni hyn. Teimlwyd y byddai mwy o gysondeb, yn arbennig ar gyfer dealltwriaeth disgyblion o llythrennedd a rhifedd, yn gadarnhaol.

9. Effaith y RhLIRhC ar ganlyniadau dysgu disgyblion

- 9.1 Cynlluniwyd y RhLIRhC i gefnogi gwelliannau mewn cyrhaeddiad disgyblion ym meysydd llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Ar y cam hwn ni ragwelwyd y gallai'r RhLIRhC fod wedi cael effaith sylweddol ar ganlyniadau. Mae hyn oherwydd, er bod dwy garfan oedran o ddisgyblion wedi symud yn llawn o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 rhwng 2011 a 2015 (a bod tair carfan oedran wedi symud yn llawn o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4), ni fyddai'r un garfan wedi cael profiad o addysgu o dan y RhLIRhC trwy Gyfnod Allweddol cyfan (gweler Ffigur 9.5). Cynhaliwyd y dadansoddiad a wnaed er mwyn archwilio'r ffordd orau y gellid asesu effaith y RhLIRhC yn y dyfodol, o gofio bod y rhaglenni hyn ar gyfer pob ysgol yng Nghymru.
- 9.2 Felly, mae'r Bennod hon yn archwilio tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau disgyblion ac yn edrych yn fanwl ar gyrhaeddiad ar draws Cyfnodau Allweddol, dros amser, ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion.
- Mae'n edrych yn gyntaf ar y data a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad ac yn rhoi proffil o garfanau disgyblion, gan archwilio unrhyw newidiadau yn eu cyfansoddiad dros amser (o 2011 hyd 2015).
 - Yna mae'n rhoi trosolwg o gyrhaeddiad ar lefel genedlaethol mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, gan edrych ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yng nghyfran y disgyblion (ac is-grwpiau o ddisgyblion) sy'n cyrraedd y lefelau disgwyledig yn y pynciau hyn.
 - Yna mae'r Bennod yn trafod canfyddiadau cyfres o fodelau hierarchaidd (aml-lefel), sy'n edrych ar ganlyniadau sy'n newid ym mhob Cyfnod Allweddol dros amser. Mae'r modelau hyn yn rheoli ar gyfer nodweddion cefndir ar lefel ysgol (megis maint a chyfrwng iaith yr addysgu) a lefel disgybl (megis rhyw, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau am ddim, Anghenion Addysgol Arbennig a chyrhaeddiad blaenorol). Mae hyn yn cynorthwyo i archwilio faint o'r newidiadau a welir y gellir ei egluro dim ond drwy newidiadau mewn cyfansoddiad carfan a faint allai fod yn gysylltiedig â ffactorau allanol (megis newidiadau mewn addysgeg).
 - Yn olaf, mae'r Bennod yn edrych ar gyfradd gymharol y cynnydd mewn gwahanol bynciau ymhlith carfanau olynol o ddisgyblion (y rheini a symudodd o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 neu o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 rhwng 2011 a 2015). Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn er mwyn gweld a oedd cyfradd y cynnydd a wnaed

rhwng Cyfnodau Allweddol gan y disgyblion a gafodd brofiad o'r
RhLIRhC yn fwy nag ar gyfer disgyblion mewn carfanau cynharach.

Data a ddefnyddiwyd

- 9.3 Mae dadansoddiad yn yr adran hon wedi'i seilio ar ddetholiad o'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion yn cwmpasu'r cyfnod o 2011 hyd 2015.³¹ Roedd y detholiad yn cynnwys data ar gyrhaeddiad mewn Saesneg, Cymraeg³² a Mathemateg ar gyfer yr holl ddisgyblion oedd yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 neu Gyfnod Allweddol 4 yn ystod y blynyddoedd hynny. Mae hefyd yn cynnwys data asesiad athrawon mwy manwl ar gyrhaeddiad disgyblion mewn elfennau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu ar gyfer Saesneg a Chymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Dylid nodi, er na chafodd y RhLIRhC eu targedu'n uniongyrchol at addysgu ac asesu Cymraeg Ail Iaith, caiff canlyniadau ar gyfer y pwnc eu hadrodd yma i roi dadansoddiad archwiliadol o lythrennedd mewn Cymraeg Ail Iaith a rhoi sylfaen ar gyfer ymchwil pellach yn y maes hwn yn y dyfodol.
- 9.4 Defnyddiwyd y data lefel disgybl unigol ar gyfer pob ysgol uwchradd yng Nghymru i roi ystadegau disgrifiadol ac i hwyluso dadansoddiadau aml-lefel mwy cymhleth. Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn i asesu a oes unrhyw dystiolaeth ar y cam cynnar hwn y gallai'r RhLIRhC fod wedi cefnogi unrhyw welliant yng nghyflawniad disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Wrth wneud hynny, mae angen cadw'r ffactorau canlynol mewn cof:
- Mae i ba raddau y mae'r FfLIRhC wedi'i wreiddio mewn ysgolion yn amrywio ac roedd gwahaniaeth hefyd yn y cyfnod amser yr oedd carfanau penodol o ddisgyblion wedi cael profiad o addysgu o dan y FfLIRhC.
 - Cyn ymestyn y FfLIRhC yn 2015, canolbwyntiodd y RhLIRhC yn bennaf ar gefnogi disgyblion ym Mlynnyddoedd 2 i 9, sy'n golygu na ellir priodoli unrhyw newidiadau o ran cyrhaeddiad mewn canlyniadau TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4 yn uniongyrchol i'r RhLIRhC.

³¹ Cynlluniwyd y profion darllen a rhifedd fel offer diagnostig, nid fel mesur cymharol o gyrhaeddiad gwahanol ddisgyblion. Cyfrifwyd sgoriau wedi'i safoni er mwyn rhoi asesiad o **fewn carfan** yn hytrach nag amrywiaeth **rhwng carfanau**. Mewn geiriau eraill, mae'n bosibl gweld a yw cyrhaeddiad disgybl mewn blwyddyn yn golygu ei fod wedi gwella mewn perthynas â'i gyfoedion o fewn y flwyddyn, ond nid a yw disgyblion o wahanol garfanau yn perfformio ar lefelau uwch neu is na charfanau eraill. O ganlyniad, **nid** yw'n bosibl cael mynediad ar gynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn yng Nghymru.

³² Yn cynnwys Cymraeg Ail Iaith.

- Hefyd, nid yw'r RhLIRhC yn gweithredu mewn gwagle ar gyfer y grŵp oedran hwn; mae mentrau megis Prosiect Saesneg a Mathemateg TGAU wedi ceisio gwella ansawdd addysgu ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Yn olaf, er bod y cwricwlwm mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd, nid yw asesiadau TGAU yn rhoi asesiad uniongyrchol o'r sgiliau hyn³³.

Proffil y carfanau

- 9.5 Ychydig a amrywiodd proffil y gwahanol garfanau o ddata 2011 hyd 2015 o ran eu nodweddion cefndir, megis rhyw, ethnigrwydd cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Ym mhob blwyddyn academiaidd, er enghraifft roedd nifer y bechgyn yn dueddol o fod yn uwch na merched (gyda chymedr o 51% yn wrywaidd a 49% yn fenywaidd ar draws y tri Chyfnod Allweddol). Roedd cyfran y disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn gyson isel (cymedr o 7% yng Nghyfnod Allweddol 2 a 6% yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4), er bod hyn yn amrywio yn ôl rhanbarth ac awdurdod lleol.³⁴ Roedd disgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ychydig dan un rhan o bump o bob carfan Cyfnod Allweddol, tra bod gan un rhan o bump rhyw fath o anghenion addysgol arbennig (er mai dim ond rhwng tri a phedwar y cant ym mhob carfan oedd â datganiad o anghenion).
- 9.6 Gan ddefnyddio disgrifydd cyfrwng iaith ysgol swyddogol StatsCymru³⁵ dangosodd ein dadansoddiad o'r detholiad data bod mwyafrif y disgyblion (tua thri chwarter o bob carfan oedran) wedi eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg³⁶, gyda llai nag un rhan o ddeg wedi'u lleoli mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd un rhan o chwech arall yn cael eu haddysgu mewn ysgolion

³³ Er fel y nodwyd yn flaenorol lansiwyd TGAU Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd newydd yn 2015.

³⁴ Fel y nodwyd yn y [data](#) o'r Cyfrifiad Blyneddol Ysgolion, mae tua 10% o'r holl ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig, er nad ydynt wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled Cymru. Mae cyfran uchaf disgyblion o'r fath mewn pedwar awdurdod lleol: Caerdydd (mae 35% o'r holl ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion yng Nghaerdydd ac yn gyfystyr â 31% o'r boblogaeth ysgol yn rhanbarth y ddinas); Casnewydd (12% a 23% yn yr un drefn); Abertawe (10% a 13%, yn yr un drefn) a Bro Morgannwg (5% a 11% yn yr un drefn).

³⁵ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language>

³⁶ Defnyddir disgrifwyr StatsCymru sydd ynghlwm wrth y data drwy gydol y dadansoddiad hwn yn hytrach na'r diffiniadau cyffredinol a ddefnyddir wrth ddiffinio cyfrwng iaith ysgol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru
<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/defining-schools-welsh-medium/?lang=en>

Ile siaradwyd Cymraeg (gyda naill ai Cymraeg neu Saesneg yn brif iaith, er nad unig iaith, yr hyfforddiant).³⁷ Roedd yr ysgolion hyn yn ysgolion dwyieithog neu'n rhai dwy ffrwd, yn defnyddio Cymraeg fel iaith sylweddol yr hyfforddiant ochr yn ochr â Saesneg, neu eu bod yn rhai cyfrwng Cymraeg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o Saesneg.

- 9.7 Golyga homogenedd y ddemograffeg ar draws y blynyddoedd mewn proffil disgyblion ac mewn nodweddion cefndir ysgolion bod unrhyw newidiadau mewn canlyniadau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion yn dueddol o fod yn gysylltiedig â newidiadau yn, er enghraifft, y cwricwlwm a addysgir, y dulliau addysgeg a ddefnyddir mewn ysgolion, neu yn y gweithdrefnau asesu a fabwysiadir.

Trosolwg o gyrhaeddiad disgyblion

- 9.8 Dros y pum mlynedd academiaidd (2010/2011 hyd 2014/2015) y gwnaethom ddadansoddi data cyrhaeddiad ar eu cyfer, **cynyddodd** cyfran y disgyblion a oedd yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig yng Nghyfnodau 2, 3 a 4 mewn Saesneg, Cymraeg, Cymraeg Ail Iaith³⁸ a Mathemateg, fel y nodir yn Ffigurau 9-1 i 9-4. Seiliwyd y dadansoddiad ar ddisgyblion yn cyflawni:

- Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2
- Lefel 5 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 3
- TGAU yn y pynciau hyn gyda Gradd C neu uwch, a droswyd (at ddibenion dadansoddi) i Lefel 7 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 4 (gweler Atodiad D).

- 9.9 Mae'r cynnydd yn fwyaf amlwg yn y pynciau hyn yng Nghyfnod Allweddol 3³⁹. Ar gyfer Saesneg/Cymraeg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd y cynnydd yng nghyfran disgyblion llwyddiannus yn rhwng pump ac wyth pwnt canran, o gymharu â rhwng naw a deuddeg y cant yng Nghyfnod Allweddol 3. Roedd newidiadau yn y gyfran a oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 4 yn agosach i'r rheini a welwyd yng Nghyfnod Allweddol


³⁷ Ni chofnodir cyfrwng yr iaith a ddefnyddir mewn ysgolion arbennig fel disgrifydd ac felly ni ellid cynnwys yr ysgolion hyn mewn rhai agweddau o'r dadansoddiad.

³⁸ Fel y nodwyd yn flaenorol ni thargedwyd y RhLIRhC yn uniongyrchol at addysgu ac asesu Cymraeg Ail Iaith. Nid ydym wedi adrodd ar ganlyniadau ar gyfer y pwnc hwnnw yma er mwyn rhoi dadansoddiad llawn o addysgu Cymraeg ac i ddarparu siâl tystiolaeth ar gyfer unrhyw ymchwil yn y dyfodol.

³⁹ Er nad dyma'r achos ar gyfer Cymraeg Ail Iaith, oherwydd yma roedd cynnydd hyd yn oed mwy yng Nghyfnod Allweddol 2 (cynnydd yng nghyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 2 o dros 25 pwynt canran o 51.6% i 77.2% dros y pum mlynedd).


2 (ac eithrio mewn Cymraeg lle mai bychan iawn oedd y newid - gwahaniaeth o lai nag un pwynt canran).

Ffigur 9-1: Canran yn cyflawni'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 mewn Saesneg:




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddetholiad o ddata Llywodraeth Cymru

Ffigur 9-2: Canran yn cyflawni'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 mewn Cymraeg:




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddetholiad o ddata Llywodraeth Cymru

Ffigur 9-3: Canran yn cyflawni'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 mewn Cymraeg Ail iaith:



Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddetholiad o ddata Llywodraeth Cymru

Ffigur 9-4: Canran yn cyflawni'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 mewn Mathemateg:



sFfynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddetholiad o ddata Llywodraeth Cymru

- 9.10 Er bod cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig wedi gwella ym mhob pwnc ac ym mhob cyfnod allweddol ar draws y pum mlynedd, mae'n galonogol bod **y bwlch hefyd wedi lleihau o ran cyrhaeddiad** rhwng y disgyblion mwyaf difreintiedig â'u cyfoedion ers 2011⁴⁰. Mae hyn i'w weld fel y'i mesurir gan eu cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim ac fel y nodir gan lefel amddifadedd yr ardal lle lleolwyd eu hysgol.
- 9.11 Rhwng 2011 a 2015 lleihaodd y bwlch mewn cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 3 rhwng disgyblion mewn ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus a lleiaf amddifadus yng Nghymru gan bum pwynt canran mewn Saesneg, Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith, a gan chwe phwynt canran mewn Mathemateg. Yn 2011, cyflawnodd 71% o'r rheini yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, o gymharu ag 83% o'u cyfoedion yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus (bwlch o 12 pwynt canran). Erbyn 2015 roedd y gyfran wedi cynyddu i 85% yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus (cynnydd gan 14 pwynt canran dros y pum mlynedd) a 92% yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus (cynnydd gan naw pwynt canran), ac felly'n lleihau'r bwlch i saith pwynt canran yn y pwnc hwnnw. Roedd lleihau'r bwlch cyrhaeddiad yn fwyaf amlwg yng Nghyfnod Allweddol 3 (gweler Atodiad D)
- Yn 2011, er enghraifft, cyflawnodd 56% o ddisgyblion prydau ysgol am ddim y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3, o gymharu ag 81% o'u cyfoedion llai amddifadus, bwlch o 26 pwynt canran. Dros y pum mlynedd hyd at 2015 **lleihaodd y bwlch hwn gan wyth pwynt canran** (gan leihau'r bwlch i 18 pwynt canran, gyda 92% o ddisgyblion dim prydau ysgol am ddim a 74% o ddisgyblion prydau ysgol am ddim yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig).
 - Mewn Mathemateg, **lleihawyd y bwlch cyrhaeddiad gan saith pwynt canran**; cyflawnodd 83% o'r disgyblion dim prydau ysgol am ddim o gymharu â 59% o'r disgyblion prydau ysgol am ddim y lefelau disgwyliedig yn 2011 – bwlch o 24 pwynt canran. Yn 2015 cyflawnodd 92% o'r disgyblion dim prydau ysgol am ddim a 75% o'r disgyblion prydau ysgol am ddim y lefelau disgwyliedig (bwlch llai o 17 pwynt canran).

⁴⁰ Yr eithriadau o ran lleihau'r bwlch oedd mewn a) Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2, lle roedd y bwlch (o dri phwynt canran) yn gyson rhwng 2011 a 2015) a b) mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 4. Yng Nghyfnod 4 gwnaed llai o gynnydd yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus (cynnydd yn y gyfran a oedd yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig o 72% i 76%) nac yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus (cynnydd o 78% i 88%), gan olygu agor y bwlch o chwe phwynt canran o ddeuddeg pwynt canran.

- Gwelwyd y newid mwyaf mewn Cymraeg, lle'r oedd lleihad o 13 pwynt canran yn y bwlch rhwng disgyblion a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion nad oedd yn gymwys. Yn 2011, cyflawnodd 84% o'r disgyblion dim prydau ysgol am ddim a 60% o'r disgyblion prydau ysgol am ddim y lefelau disgwylidig ond yn 2015, cyflawnodd 92% o'r disgyblion dim prydau ysgol am ddim a 81% o'r disgyblion prydau ysgol am ddim y lefelau disgwylidig.
- 9.12 Cyflawnodd cyfran uwch o ferched y lefel cyrhaeddiad disgwylidig ar draws pob Cyfnod Allweddol, ac ym mhob pwnc *heblaw* am Fathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn y pwnc hwn, roedd 62% o fechgyn a 61% o ferched yn llwyddiannus yn 2011, bwlch o un pwynt canran a barhaodd yr un fath hyd 2015 (gyda 69% o fechgyn a 68% o ferched yn cyflawni'r lefelau disgwylidig yn y flwyddyn honno). Fodd bynnag, mewn pynciau eraill **lleihaodd y bwlch perfformiad rhwng bechgyn a merched yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3** ar draws y pum mlynedd. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yng Nghyfnod Allweddol 3, lle gwnaeth y bylchau rhyw rhwng y rheini'n cyrraedd y lefelau disgwylidig ar gyfer Saesneg, Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith leihau gan dros bum pwynt canran ymhob achos.
- 9.13 **Roedd cynnydd hefyd i'w weld ymhlith disgyblion oedd â rhyw elfen o anghenion addysgol arbennig.** Y bwlch rhwng disgyblion Cyfnod Allweddol 3 oedd â dim anghenion addysgol arbennig a'r rheini oedd yn derbyn cymorth ychwanegol (disgyblion gydag angen addysgol arbennig ond heb ddatganiad) yn cyflawni'r lefel ddisgwylidig mewn Saesneg oedd 47 pwynt canran yn 2011, ond cafodd hyn ei leihau gan 20 pwynt canran i 27 pwynt canran yn 2015. Roedd lleihau'r bwlch yn llai amlwg (ar dri phwynt canran) i'r rheini oedd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yng Nghyfnod Allweddol 3, er y cyrhaeddodd ychydig dan un rhan o dair o'r pedwar y cant o ddisgyblion oedd â datganiad o'r fath yn 2015 Lefel 5 neu uwch mewn Saesneg a Mathemateg.⁴¹
- 9.14 Yng Nghyfnod Allweddol 4, fodd bynnag, roedd y sefyllfa ar gyfer disgyblion o'r fath yn llai cadarnhaol mewn Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf) a Mathemateg. Fel y byddem efallai wedi disgwyl, ar gyfartaledd cyflawnodd mwy o ddisgyblion heb AAA na'u cyfoedion gydag AAA y lefel cyrhaeddiad ddisgwylidig mewn TGAU, gyda 82% o'r rheini heb AAA yn cyflawni mewn Saesneg a Chymraeg a 76% yn cyflawni mewn Mathemateg. Fodd bynnag, mewn **Saesneg gwelwyd lleihad** (gan ddau bwynt canran) **yn y bwlch** rhwng disgyblion heb AAA a'r rheini oedd angen cymorth ychwanegol.

⁴¹ Dylid nodi bod y niferoedd o ddisgyblion oedd â datganiad o AAA ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (1,119 yn 2015, i lawr o 1,381 yn 2011) yn isel.

Parhaodd y bwch yr un fath mewn Cymraeg ac **agorodd y bwch** (gan ddau bwynt canran) **mewn Mathemateg**, gan awgrymu efallai bod mwy o gynnydd wedi'i wneud mewn codi cyrhaeddiad mewn Saesneg dros y cyfnod hwnnw nag yn y ddau bwnc arall. Agorodd y bwch hefyd rhwng y rheini heb unrhyw AAA a'r rhai gyda datganiad neu'n derbyn cymorth ychwanegol (disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig ond dim datganiad) gan ddau bwynt canran mewn Saesneg, wyth pwynt canran mewn Cymraeg a phedwar pwynt canran mewn Mathemateg.

9.15 Yr eithriad i'r sefyllfa hon oedd mewn Cymraeg Ail Iaith, lle caeodd y bwch erbyn 2015 o ran y rheini a oedd yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig:

- rhwng disgyblion heb AAA a'r rheini oedd yn derbyn cymorth ychwanegol (lleihau gan 35 pwynt canran i 23 pwynt canran)
- rhwng y rheini heb AAA a'r rheini gyda datganiad neu a oedd yn derbyn cymorth ychwanegol (disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig ond dim datganiad) (lleihau o 43 pwynt canran i 21 pwynt canran).

9.16 Nid oedd y sefyllfa parthed ethnigrwydd yn syml. Ar draws pob maes pwnc ac ar draws pob Cyfnod Allweddol cynyddodd cyfran y disgyblion o gefndiroedd gwyn a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd, a hynny'n arbennig yng Nghyfnod Allweddol 3, gyda chyfran uwch o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llwyddo.

9.17 Yr eithriad mwyaf i hyn oedd ymhlith disgyblion o leiafrifoedd ethnig a oedd yn astudio Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4.⁴² Yma gostyngodd canran y disgyblion a oedd yn llwyddiannus mewn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y pwnc gan naw pwynt canran (o 82% i 73%) dros bum mlynedd, o gymharu â chynnydd o un pwynt canran (i 75%) ymhlith disgyblion o gefndir ethnig gwyn. Mae addysgu Cymraeg i ddisgyblion lleiafrifol ethnig wedi dod yn fwy llwyddiannus mewn Cyfnodau Allweddol eraill a gwelir hyn yn y cynnydd dros amser a welwyd ymhlith disgyblion yn y grwpiau oed hyn; cynnydd o 76% i 87% yng Nghyfnod Allweddol 2 ac o 87% i 93% yng Nghyfnod Allweddol 3. Gall y lefel llwyddiant cymharol fod yn syml yn ganlyniad i pa mor hawdd y gall disgyblion iau addasu i iaith newydd. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion lleiafrifol ethnig sydd yn y set ddata hon yn

⁴² Dylid nodi bod cyfran y bobl ifanc o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn unrhyw Gyfnod Allweddol yn gymharol fychan (cymedr o 7% yng Nghyfnod Allweddol 2, 5% yng Nghyfnod Allweddol 3 a 6% yng Nghyfnod Allweddol 4)

fychan iawn ac mae angen rhagor o waith i ddeall beth sy'n ysgogi'r patrwm cyrhaeddiad hwn.

- 9.18 Felly, ar y cyfan, bu **gwelliant amlwg, ar draws pob Cyfnod Allweddol, mewn cyrhaeddiad yn y pynciau craidd yng Nghyfnodau 2, 3 a 4 dros y pum mlynedd ers 2011**. Er bod rhai gwahaniaethau rhwng disgyblion, mae hanes y cynnydd yn y pynciau hyn ar y cyfan yn gadarnhaol. Fodd bynnag, gor-ddweud y sefyllfa fyddai dod i'r casgliad bod y gwahanol welliannau mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg ar draws y Cyfnodau Allweddol ac o fewn a rhwng gwahanol grwpiau poblogaeth (yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 3) yn gysylltiedig â (neu y gellir eu priodoli i) weithrediad y RhLIRhC yn unig. Nid yn unig y nodwyd gwelliannau mewn cyrhaeddiad cyn cyflwyno'r rhaglen, roedd lefel profiad unrhyw garfan unigol o'r dulliau a'r strategaethau addysgu a ddylanwadwyd ganddi (neu gan y profion diagnostig a rhaglenni cefnogi a gysylltwyd iddi) yn eithaf amrywiol. Dylid nodi hefyd bod polisïau eraill Llywodraeth Cymru wedi cael eu cyflwyno dros y cyfnod hwn (yn cynnwys Grant Amddifadedd Disgyblion) a allai fod wedi cyfrannu at welliannau mewn canlyniadau.
- 9.19 Oherwydd hyn, felly, ac yn hytrach na dibynnu yn unig ar y dadansoddiad trawsadrannol o ddata cyrhaeddiad, gwnaethom hefyd archwilio lefel gymharol y cynnydd a wnaed gan wahanol garfanau o ddisgyblion dros y cyfnod, gan reoli (lle bo hynny'n bosibl) ar gyfer gwahaniaethau hysbys rhwng ysgolion a rhwng disgyblion. Mae'r isadran ganlynol yn cyflwyno'r stori a ddaeth o'r dadansoddiad hwnnw.

Asesu cynnydd dros amser

- 9.20 Er mwyn canfod a oedd cael profiad o addysgu o dan y FfLIRhC yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau mewn canlyniadau disgyblion, gwnaethom fabwysiadu dull modelu hierarchaidd (modelu aml-lefel), gan sefydlu dwy set wahanol o fodelau i edrych:
- yn gyntaf, ar gyrhaeddiad pob grŵp blwyddyn yn erbyn ystod o wahanol ganlyniadau (y lefelau a gyflawnwyd mewn Saesneg, Cymraeg, Cymraeg Ail Iaith⁴³ a Mathemateg) er mwyn nodi'r prif ffactorau yn y data oedd ar gael a oedd yn ymddangos i fod yn gysylltiedig â lefelau cyrhaeddiad uwch (boed hynny ar lefel ysgol neu ddisgybl)

⁴³ Fel y nodwyd gennym uchod, nid yw'r RhLIRhC yn targedu Cymraeg Ail Iaith yn benodol.

- yn ail, ar faint y cynnydd rhwng Cyfnodau Allweddol a wnaed gan ddisgyblion mewn gwahanol garfanau a'r ffactorau oedd yn ymddangos i fod yn gysylltiedig â lefelau cyrhaeddiad uwch (yn cynnwys yr amser ers cyflwyno'r FfLIRhC).
- 9.21 Yn yr ail set o fodelau roeddem am edrych ar **gyfradd cynnydd disgyblion** (gan archwilio lefelau ac is-lefelau cyrhaeddiad dros amser) yn hytrach nag a oedd disgyblion wedi cyflawni'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig (y byddem wedi defnyddio model logisteg ar ei gyfer). Gan ein bod eisiau ystyried cynnydd disgyblion mewn termau tebyg o fewn a rhwng carfanau gwnaethom drosi data Cyfnod Allweddol 4 yn lefelau ac is-lefelau cymharol, yn hytrach na defnyddio cyfanswm sgôr pwyntiau ar lefel TGAU. Er y gall hyn olygu y gallai ychydig o'r manylder mewn canlyniadau gael ei golli (yn arbennig ar gyfer disgyblion hŷn), gan fod sgoriau crai yn fwy manwl nac is-lefelau, drwy ddefnyddio'r dull hwn galluogwyd ni i ystyried a chymharu data ar draws y tri chynnod allweddol mewn ffyrdd tebyg. Gwnaeth hefyd hwyluso archwiliad o'r cysylltiad rhwng asesiadau athrawon (yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3) ar gyfer canlyniadau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu mewn Saesneg/Cymraeg a'r cynnydd a wnaeth disgyblion mewn Saesneg/Cymraeg dros amser.
- 9.22 Ar lefel ysgol, roedd y ffactorau cefndir a adeiladwyd i mewn i'r modelau yn cynnwys maint ysgol a lefel amddifadedd. Ar lefel disgybl roedd y newidynnau hyn yn cynnwys rhyw, ethnigrwydd, cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim, statws Anghenion Addysgol Arbennig a phrif iaith yr hyfforddiant yn eu hysgol. Dylem nodi bod y pum set ddata yr oedd gennym fynediad iddynt yn darparu gwybodaeth ar un pwynt mewn amser (2011, 2012, 2013, 2014 a 2015) felly nid oedd gennym wybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol mewn Cyfnodau Allweddol cynharach ar gyfer yr holl ddisgyblion. Yn ddelfrydol, byddai modelau cynhwysfawr hefyd wedi cynnwys newidynnau lefel ysgol eraill (yn cynnwys mesurau ansawdd ac ethos ysgol cyson a chymharol) a newidynnau lefel disgybl. Y newidynnau lefel disgybl hyn (yn fesurau caled megis presenoldeb disgyblion a mesurau meddalach megis agweddau tuag at ddysgu) fyddai'r rheini oedd yn hysbys o ymchwil blaenorol i fod yn gysylltiedig â chyrhaeddiad disgyblion, ond nid oedd y data hwn ar gael i ni ar adeg y dadansoddiad.
- 9.23 Ar y pwynt hwn dylem bwysleisio mai archwiliadol oedd y modelau a'u bod yn cynnwys dim ond nifer cyfyngedig o newidynnau cefndir, gan ddefnyddio data a ddarparwyd yn y detholiad CDdGD. Yn yr achos gwaelodol (rhediad cyntaf y model cyn y cynhwyswyd y newidynnau cefndir), roedd y rhan fwyaf o'r amrywiant a nodwyd yn y canlyniadau (hynny yw, y gwahaniaeth rhwng lefelau a gyflawnwyd gan y disgyblion oedd â'r cyrhaeddiad uchaf ac isaf yn y

gwahanol Gyfnodau Allweddol) yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 i'w weld ar lefel disgybl (o 63% yng Nghyfnod Allweddol 2 i 75% yng Nghyfnod Allweddol 4). Mewn geiriau eraill, mae bron i ddwy ran o dair o'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad ymhlith disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ganlyniad gwahaniaeth mewn nodweddion cefndir rhwng disgyblion. Roedd gweddill yr amrywiant yn ymwneud â gwahaniaeth mewn perfformiad disgyblion rhwng ysglion.⁴⁴ Ar y cam hwn, gwnaethom hefyd gynnwys gwybodaeth am y Pedwar Consortia Addysgol Rhanbarthol yn y modelau. Nid oedd hi'n ymddangos bod dim o'r amrywiant ar y lefel hon (mewn geiriau eraill, nid oedd hi'n ymddangos bod unrhyw amrywiant systematig neu nad ar hap yn ôl Consortia) ac felly, er mwyn rhedeg y modelau mwyaf 'cyfyng', penderfynom redeg modelau ar ddwy lefel yn unig (lefel ysgol a disgybl). Roedd pŵer esboniadol y modelau terfynol (a oedd yn cynnwys cyrhaeddiad blaenorol lefel disgybl) yn uchel, gan esbonio rhwng 80% a 99% o'r gwahaniaethau rhwng ysgolion ac (yn dibynnu ar y pwnc a'r Cyfnod Allweddol) rhwng chwarter a dwy ran o dair o'r gwahaniaethau rhwng disgyblion.⁴⁵

Cyrhaeddiad yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4

9.24 Unwaith yr oedd amrywiannau cefndir ar lefel ysgol a disgybl wedi'u cynnwys yn y modelau, dangosodd y canfyddiadau cysylltiedig â chyrhaeddiad y canlynol:

- cysylltwyd carfanau olynol o ferched â lefelau cyrhaeddiad uwch mewn Saesneg, Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith ar draws pob Cyfnod Allweddol
- cysylltwyd carfanau olynol o fechgyn â lefelau cyrhaeddiad uwch mewn Mathemateg ar draws pob Cyfnod Allweddol
- cysylltwyd grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig⁴⁶, blwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda:

⁴⁴ Dangosodd y modelau gyfran syndod o uchel o'r amrywiant lefel ysgol yng Nghyfnod Allweddol 3 (69%), gan awgrymu bod canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi'u cysylltu'n gryfach gyda'r ysgolion na gyda'r gwahaniaethau rhwng disgyblion. Byddai'n werth archwilio'r canfyddiad hwn ymhellach er mwyn gweld a oedd yn arteffact o'r data neu'r canolbwyntio sydd wedi bod ar Gyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

⁴⁵ Gweler Atodiad B.

⁴⁶ Er bod cyfran y disgyblion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fychan, mae'r canfyddiadau cyrhaeddiad hyn yn arwyddocaol pan roddir ystyriaeth i'r holl nodweddion cefndir eraill.

- lefelau cyrhaeddiad uwch mewn Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3 (er nad oedd gwahaniaethau arwyddocaol yng Nghyfnodau 2 a 4)
- lefelau cyrhaeddiad is mewn Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 (er nad oedd gwahaniaethau arwyddocaol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4)
- lefelau cyrhaeddiad uwch mewn Cymraeg Ail Iaith ar draws pob Cyfnod Allweddol
- lefelau cyrhaeddiad uwch mewn Mathemateg ar draws pob Cyfnod Allweddol
- cysylltwyd carfanau olynol o ddisgyblion a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim a gyda rhyw lefel o anghenion addysgol arbennig gyda lefelau cyrhaeddiad is mewn Saesneg, Cymraeg, Cymraeg Ail Iaith a Mathemateg ar draws pob Cyfnod Allweddol.

9.25 Er bod y data yn ymwneud â chyfran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r lefelau disgwyledig yn dangos bod y bwlch cyrhaeddiad yn lleihau rhwng bechgyn a merched mewn Saesneg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod merched yn parhau i gyflawni lefelau cyffredinol uwch yn y pwnc hwnnw, unwaith bod modelau'n rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Mae'r gwahaniaeth hefyd i'w weld yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn yr un modd, er bod cyrhaeddiad cyffredinol merched mewn Mathemateg yn parhau i wella yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, does fawr ddim i awgrymu bod hyn hyd yma wedi'i droi yn welliant ystadegol arwyddocaol yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched yng Nghyfnod Allweddol 4 (er nad yn fawr) wedi lleihau gan y mymryn lleiaf dros y pum mlynedd diwethaf (0.15 pwynt canran).

9.26 Ar gyfer gwahanol is-grwpiau o ddisgyblion, mae'r dadansoddiadau'n awgrymu efallai bod rhai o'r strategaethau sy'n cefnogi pobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig yn cael effaith ar gyfer rhai disgyblion ac mewn rhai pynciau, er nad yw gwelliannau yn gyffredinol o bell ffordd:

- cysylltwyd y carfanau o ddisgyblion a oedd yn derbyn cymorth ychwanegol gyda chynnydd mewn cyrhaeddiad dros amser mewn Saesneg a Chymraeg Ail Iaith ond mae'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig â lleihad o ran lefelau cyrhaeddiad mewn Mathemateg (er bod y cysylltiad ystadegol yn wannach)
- cysylltwyd carfanau olynol o bobl ifanc sydd â datganiad AAA gyda chyrhaeddiad is dros amser mewn Saesneg a Chymraeg, ond gyda

chyrhaeddiad cynyddol mewn Mathemateg (er yn arwyddocaol, mae'r cysylltiad ystadegol yn gymharol wan).


- 9.27 Roedd rhai canlyniadau gwahanol hefyd i'w gweld rhwng disgyblion mewn gwahanol fathau o ysgolion; roedd carfanau olynol o ddisgyblion a addysgwyd trwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n bennaf yn Gymraeg, wedi'u cysylltu'n arwyddocaol gyda lefelau cyrhaeddiad uwch yng Nghyfnod Allweddol 3 na disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Rhwng 2013 a 2014 a rhwng 2014 a 2015, gwelwyd hefyd welliannau arwyddocaol mewn cyrhaeddiad ar lefel disgybl yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg hyn, gan awgrymu y bu hefyd rai newidiadau cadarnhaol mewn addysgu'r pwnc mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- 9.28 Roedd gwelliannau mewn cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 3 hefyd yn amlwg mewn perthynas â disgyblion mwy amddifadus. Mae'r data'n dynodi y cysylltwyd ysgolion lle'r oedd cyfran uchel o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim â lefelau cyrhaeddiad is ym mhob pwnc ar draws pob Cyfnod Allweddol dros amser. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi gweld, cyflawnodd mwy o ddisgyblion a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim y lefelau disgwylidig yn ystod y blynyddoedd diwethaf (er bod eu lefel cyrhaeddiad gyffredinol yn parhau'n is na'u cyfoedion). Roedd yna hefyd dystiolaeth glir o welliant yn y blynyddoedd diwethaf ymhlith disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 3, unwaith y rheolwyd ar gyfer newidynnau cefndir eraill (yn cynnwys rhyw, ethnigrwydd a statws AAA). Roedd sgoriau disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn uwch yn 2014 a 2015 mewn Saesneg, Cymraeg Ail Iaith a Mathemateg (ac mewn Cymraeg yn 2015) na'u cyfoedion prydau ysgol am ddim mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn hefyd yn amlwg yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn Saesneg (yn 2014 a 2015).

Nodi carfanau oedran ar gyfer y RhLIRhC

- 9.29 Mae'r newidiadau amlwg hyn dros amser, gan reoli ar gyfer newidynnau cefndir, yn awgrymu'r angen i edrych ar y gwahaniaethau rhwng carfanau oedran olynol o ddisgyblion ac a ellir cysylltu maint y gwelliant yn y pynciau sy'n graidd i'r FfLIRhC i'w weithrediad a'i pheidio. Dros y cyfnod o 2011 hyd 2015, symudodd dwy garfan oedran o ddisgyblion yn llawn o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a symudodd tair carfan oed yn llawn o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4, fel y nodir yn Ffigur 9-5.
- 9.30 Mae'r drafodaeth sy'n dilyn yn edrych ar y cynnydd a wnaed gan y pum carfan oedran hwn, gan adeiladu ar gyrhaeddiad blaenorol disgyblion yn y cyfnod allweddol blaenorol. Rydym hefyd yn archwilio lefelau'r cysylltiad rhwng

cyrhaeddiad blaenorol yng ngwahanol elfennau sgoriau Saesneg a Chymraeg (siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu) yng Nghyfnod Allweddol 2.

Ffigur 9-5: Strwythur y pum carfan (cyflwynwyd y FfLIRhC yn 2013)



Cynnydd o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (Carfanau 1 a 2)

- 9.31 Er nad yw'n syndod, cysylltwyd cyrhaeddiad uchel blaenorol yng Nghyfnod Allweddol 2 â disgyblion yn gwneud y cynnydd mwyaf yng Nghyfnod Allweddol 3, ac roedd yn arbennig o amlwg mewn perthynas â Mathemateg. Gwnaeth mwyafrif y disgyblion o leiaf ddwy lefel o gynnydd rhwng Cyfnodau Allweddol mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg (y cynnydd disgwylidig yw o leiaf un lefel, o Lefel 4 i lefel 5), a chysylltwyd y disgyblion hynny oedd â chyrhaeddiad uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 gyda chynnydd sy'n nes at dair lefel lawn.
- 9.32 Cysylltwyd Carfan 2, a fyddai wedi cael mwy o brofiad o addysgu o dan y FfLIRhC, gyda lefel cynnydd uwch (tua dau fis ychwanegol) mewn Saesneg a Mathemateg dros y tair blynedd o Gyfnod Allweddol 2 i 3, unwaith yr oedd newidynnau lefel disgybl a lefel ysgol wedi'u cynnwys yn y modelau pwnc.⁴⁷ Er bod hyn yn galonogol, roedd maint y cynnydd a wnaed yn y ddau bwnc gan ddisgyblion mewn ysgolion lle'r oedd cyfran uwch o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn is (gan bron i un lefel) na'r hyn a gyflawnwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion llai amddifadus.
- 9.33 Nid yw hynny'n golygu na wnaeth y bwlch gulhau rhwng disgyblion economaidd-gymdeithasol amddifadus a'u cyfoedion ar lefel unigol. Roedd hi'n ymddangos bod disgyblion Carfan 2 a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwneud mwy o gynnydd na disgyblion tebyg yng Ngharfan 1, ond nid oedd y gwahaniaethau'n arwyddocaol oni bai mewn Cymraeg (iaith gyntaf), lle'r oedd y bwlch rhwng disgyblion amddifadus a disgyblion eraill wedi lleihau.

⁴⁷ Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng carfanau i'w weld ar gyfer Cymraeg.

9.34 Yn amlwg, nid oedd gwelliannau rhwng carfanau yn gyffredinol; roeddent yn amrywio'n sylweddol yn ôl cefndir disgyblion a math ysgol, fel y crynhoir isod:

- Gwnaeth merched yng Ngharfan 2 fwy o gynnydd mewn Saesneg na'u cymheiriaid benywaidd yng Ngharfan 1, yn ogystal â gwneud mwy o gynnydd na bechgyn. Mae hyn yn awgrymu bod y bwlch rhwng rhywiau yn parhau i ymestyn ar draws y carfanau yn y pwnc hwn.
- Ni chafodd y cynnydd fymryn yn uwch a wnaed gan ferched ym mhob un o'r pedwar pwnc ar draws y ddau Gyfnod Allweddol ei adlewyrchu mewn gwell lefel cynnydd yng Ngharfan 2 na Charfan 1, ac eithrio mewn Saesneg. Nid oedd gwahaniaethau rhwng rhywiau yn arwyddocaol ar gyfer Carfan 2 mewn Mathemateg neu Gymraeg (boed hynny'n iaith gyntaf neu'n ail iaith).
- Gwnaeth disgyblion oedd â datganiad AAA a'r rheini oedd yn derbyn cymorth ychwanegol (disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig ond heb ddatganiad) yng Ngharfan 2 fwy o gynnydd mewn Mathemateg a Chymraeg Ail Iaith na'u cymheiriaid yng Ngharfan 1, er bod yna'n dal fwch rhwng eu canlyniadau hwy a chanlyniadau eu cymheiriaid oedd heb AAA.
- Er nad oedd gwahaniaethau sylweddol ym maint y cynnydd a wnaed gan y ddwy garfan mewn Cymraeg (boed hynny'n iaith gyntaf neu'n ail iaith), roedd y bwlch cyrhaeddiad yn y pwnc hwn rhwng disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a'u cyfoedion llai amddifadus yn yr ysgolion hynny wedi lleihau yng Ngharfan 2.
- Nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg mewn unrhyw bwnc o Gyfnod Allweddol 2 hyd Cyfnod Allweddol 3, er bod y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion mewn Cymraeg Ail Iaith yn sylweddol fwy mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nac ysgolion cyfrwng Saesneg er mai dim ond poblogaeth fechan o ddisgyblion oedd hyn.
- Gwnaeth disgyblion mewn ysgolion dwyieithog fwy o gynnydd ar y cyfan mewn Saesneg a Mathemateg na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd hyn yn cyfateb i ychydig dan 16 wythnos ychwanegol o gynnydd. Fodd bynnag, roedd maint gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad yn is yng Ngharfan 2 (tua ychydig dros bedair wythnos ychwanegol mewn Saesneg a thua wyth wythnos ychwanegol mewn Mathemateg),

sy'n awgrymu bod y gwahaniaethau rhwng ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog yn lleihau.

- 9.35 Yn olaf, er bod hi'n ymddangos bod lefel gyffredinol cyrhaeddiad disgyblion mewn Saesneg a Chymraeg (a Mathemateg) Cyfnod Allweddol 3 wedi'i gysylltu'n fwyaf cryf gyda'u sgoriau darllen yng Nghyfnod Allweddol 3, roedd faint o gynnydd a wnaethant yn y ddwy iaith o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 wedi'i gysylltu'n gryfach gyda'u sgoriau ysgrifennu.

Cynnydd o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4

- 9.36 Roedd cynnydd o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 yn llai dramatig na'r cynnydd o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Lefel cymedr y cynnydd o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 oedd ychydig dan ddwy lefel yn Saesneg, ond llai nac un mewn Cymraeg (er dros ddwy lefel mewn Cymraeg Ail iaith, gan adlewyrchu'r data ar y trywyddau a adroddwyd arnynt yn gynharach) ac yn nodedig yn llai nag un lefel mewn Mathemateg. Unwaith yr oedd yr holl newidynnau cefndir oedd ar gael ar lefel ysgol a disgybl wedi'u cynnwys, yn ogystal â chyrhaeddiad blaenorol, roedd merched yn dal i gael eu cysylltu â lefelau uwch o ran cynnydd na bechgyn ym mhob pwnc oni bai am Fathemateg. Gwelwyd hefyd lefelau cynnydd uwch ar gyfer disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio mewn Cymraeg Ail iaith) a disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg (ac eithrio mewn Saesneg).
- 9.37 Fel yng Nghyfnod Allweddol 3, er bod darllen fel petai wedi'i gysylltu gryfaf â lefel cyrhaeddiad cyffredinol disgyblion mewn Saesneg a Chymraeg Cyfnod Allweddol 4, eu sgoriau ysgrifennu a gysylltwyd gryfaf â swm y cynnydd a wnaethant yn y ddwy iaith o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4.
- 9.38 Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith carfan clir a chyson. Dylid cofio nad oedd y FfLIRhC, hyd nes 2015, yn weithredol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. Efallai y byddai disgyblion yng Ngharfan 5 wedi cael rhywfaint o brofiad o'r FfLIRhC yng Nghyfnod Allweddol 3, er na fyddai eu cymheiriaid yng Ngharfan 3 (a fyddai wedi sefyll eu TGAU yn y flwyddyn y cyflwynwyd y FfLIRhC yng Nghyfnod Allweddol 3) a Charfan 4 (a gwblhaodd Gyfnod Allweddol 3 blwyddyn cyn ei lansio). Er hyn, mae rhai gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y carfanau o ran y cynnydd a wnaed ganddynt dros y tair blynedd o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4, er na allwn briodoli unrhyw wahaniaethau i'r FfLIRhC.
- Gwnaeth disgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Ngharfan 5 fwy o gynnydd mewn Saesneg na'u cymheiriaid mewn carfanau cynharach (cyfateb i ychydig dan 4 wythnos) ac felly lleihau'r

bwllch mewn cyrhaeddiad rhyngddynt hwy â'u cyfoedion llai amddifadus gan tua 0.06 o lefel.

- Gwnaeth disgyblion a oedd yn derbyn cymorth ychwanegol yng Ngharfan 5 hefyd fwy o gynnydd mewn Saesneg na'u cymheiriaid yng Ngharfanau 3 a 4, tra gwnaeth y rheini oedd â datganiad anghenion arbennig fwy o gynnydd mewn Cymraeg.
- Roedd y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Ngharfan 5, fodd bynnag, yn sylweddol is mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg (tuedd a welwyd hefyd mewn Mathemateg yng Ngharfan 4) nac mewn carfanau cynharach. Roedd y patrwm hwn hefyd i'w weld mewn ysgolion dwyieithog, gan awgrymu bod unrhyw fwlch rhwng cynnydd disgyblion mewn Cymraeg a Mathemateg (nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn Saesneg) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion Cymraeg (unwaith y rheolwyd ar gyfer cyrhaeddiad blaenorol), efallai'n lleihau.

9.39 Mae'r dadansoddiad a wnaed yma, er yn archwiliadol, yn awgrymu y gallai bod gwerth mewn edrych ar gynnydd carfanau ochr yn ochr â thrywydd disgyblion mewn pynciau craidd yng Nghymru er mwyn archwilio effaith tymor hwy y RhLIRhC.

Canfyddiadau Allweddol

- Ers 2011 bu cynnydd nodedig yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyledig ym mhob un o'r tri Cyfnod Allweddol mewn Saesneg, Cymraeg, Cymraeg Ail Iaith a Mathemateg. Er bod bylchau'n dal i fodoli mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion, neu sydd â rhywfaint o anghenion addysgol a'u cyfoedion, erbyn 2015, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y bylchau hyn wedi lleihau. Ym mhob achos, roedd gwelliannau'n fwy amlwg yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 nac yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Fel y dangoswyd gan y dadansoddiad ystadegol o ddata carfanau, nid oes fawr i awgrymu y gellir priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i weithrediad y RhLIRhC. Mae rhywfaint o arwydd y gwnaeth disgyblion fwy o gynnydd mewn Saesneg a Mathemateg yn ystod y pontio o Gyfnod Allweddol 2 (yn 2012) i Gyfnod Allweddol 3 (yn 2015) na'u cymheiriaid mewn blynyddoedd blaenorol. Yng Nghyfnod Allweddol 4, fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o effaith carfan (a allai hefyd adlewyrchu'r ffaith bod estyniad y FfLIRhC i Gyfnod Allweddol 4 ond wedi digwydd yn 2015).
- Er hynny, mae'r dadansoddiad archwiliadol a gynhaliwyd yma yn awgrymu bod gwerth mewn adolygu effaith y RhLIRhC drwy edrych ar hyd profiad gwahanol garfanau (a gwahanol is-grwpiau yn y carfanau hynny) ohoni. Byddai hyn yn galluogi dadansoddwyr i edrych nid yn unig ar newid yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau cyrhaeddiad disgwyledig, ond y cynnydd a wneir gan y disgyblion yn y carfanau hyn mewn perthynas â'u cymheiriaid hanesyddol, o leiaf am yr ychydig flynyddoedd nesaf.

10. Canfyddiadau ac Argymhellion

- 10.1 Mae'r adran hon yn crynhoi prif ganfyddiadau'r gwerthusiad ac yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried er mwyn cefnogi gweithrediad parhaus y FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol a gwelliannau mewn cyrhaeddiad disgyblion ym meysydd llythrennedd a rhifedd.

Effaith cyflwyniad y RhLIRhC

- 10.2 Fel y crynhowyd yn y model rhesymeg ar gyfer y rhaglen (gweler Ffigur 1-1 ym Mhennod 1), bwriadwyd i'r RhLIRhC fynd i'r afael â'r mater o lefelau llythrennedd a rhifedd isel ymhlith disgyblion yng Nghymru gan gydnabod bod y rhain wedi'u cysylltu'n aml â chyrhaeddiad addysgol isel yn gyffredinol (yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4).
- 10.3 Er mwyn cyflawni hyn, buddsoddodd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid mewn ystod o fecanweithiau i gefnogi gwelliant mewn ansawdd addysgu, y defnydd o ddata asesu i gefnogi dysgu ac ansawdd ac amllder cydweithredu o fewn a rhwng gwahanol ysgolion. Ers cyflwyno'r RhLIRhC yn 2013, mae tystiolaeth i awgrymu y bu **effaith gadarnhaol yn erbyn y tri amcan**. Fodd bynnag, mae dal gwaith i'w wneud cyn y gellir ystyried bod y FfLIRhC a defnydd data'r Profion Cenedlaethol wedi'u gwreiddio'n llawn yn y rhan fwyaf o ysgolion.
- 10.4 Mae dadansoddiadau ystadegol o newidiadau yn y canlyniadau dysgu a gyflawnwyd gan ddisgyblion rhwng 2011 a 2015 wedi dangos **cynnydd nodedig** yn y perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, ar y cam hwn nid yw'n bosibl awgrymu y gellir priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i weithrediad y RhLIRhC.

Effaith ar ansawdd addysgu

- 10.5 Ar ôl dechrau araf, mae tystiolaeth i awgrymu bod ymarferwyr yn ystyried bod gweithrediad y FfLIRhC, ac i raddau llai y Profion Cenedlaethol, wedi cael **effaith gadarnhaol ar ansawdd a chysondeb addysgu** llythrennedd a rhifedd. Efallai'n ddealladwy, mae'r cynnydd mewn ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn arafach nac mewn ysgolion cynradd gan fod ymarferwyr yn llai cyfarwydd ag addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm (a lle bo hynny'n briodol, ymgorffori dulliau trawsgwricwlaidd yn eu gwersi). Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg mewn llawer o ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy bod staff wedi croesawu teimlad cynyddol o berchnogaeth a rennir am ddatblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Effaith ar ddefnydd data asesu i gefnogi addysgu a dysgu

- 10.6 Roedd tystiolaeth o newidiadau sylweddol ym mhrosesau gweinyddol ysgolion i gefnogi a hyrwyddo defnydd data a gasglwyd ganddynt i asesu cynnydd disgyblion mewn perthynas â'r datganiadau disgwyliad blwyddyn ar ôl blwyddyn a nodir yn y FfLIRhC. Fodd bynnag, roedd ymarferwyr yn betrusgar i gysylltu cyflwyniad y FfLIRhC gyda gwelliant mewn ymwybyddiaeth o'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion unigol. Wedi dweud hyn, cysylltwyd gweithrediad dull ysgol gyfan i dracio cynnydd disgyblion (yn erbyn y datganiad disgwyliad yn y FfLIRhC) gyda gwella cysondeb cyffredinol mewn asesu. Disgwyliwyd y byddai hyn yn arwain at welliant mewn cynllunio datblygu ysgol dros y tymor canolig i'r hirdymor.
- 10.7 Mae peth tystiolaeth i awgrymu bod ymarferwyr yn teimlo bod y data ychwanegol o'r Profion Cenedlaethol yn cefnogi gwelliant mewn defnydd data. Fodd bynnag, mae amrywioldeb sy'n ei gwneud hi'n anodd barnu i ba raddau y mae data yn cefnogi gwell dealltwriaeth o anghenion dysgu disgyblion unigol. Er enghraifft, er bod rhai ysgolion wedi defnyddio'r data i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, defnyddiodd ysgolion eraill ef dim ond i hysbysu cynllunio datblygu ysgol.

Effaith ar ansawdd ac amllder gweithgarwch cydweithredol

- 10.8 Mae tystiolaeth i awgrymu bod cyflwyniad y RhLIRhC wedi cefnogi gwelliant yn ansawdd ac amllder cydweithredu rhwng ymarferwyr o fewn ysgolion a rhwng gwahanol ysgolion. Y prif ysgogwr oedd yn gyfrifol am y gweithgaredd hwn yn gynyddol oedd y Consortia sydd wedi chwarae rôl allweddol mewn hwyluso gweithgarwch.

Rhwystrau a galluogwyr i weithrediad y RhLIRhC

- 10.9 Mae'n ymddangos bod i ba raddau y mae ysgolion wedi gallu gweithredu'r FfLIRhC a dysgu gan ddata'r Profion Cenedlaethol wedi cael ei alluogi gan nifer o ffactorau tra bu ffactorau eraill sydd wedi gweithredu fel rhwystr i gynnydd.

Galluogwyr

- 10.10 Mae'n ymddangos bod cynnydd mewn gwreiddio'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol wedi'i alluogi gan y canlynol:
- blaenoriaethu gwella canlyniadau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion gan y Consortia ac adnoddau'r mecanweithiau cymorth i gefnogi'r amcan hwn

- consensws cynyddol ymhlith ymarferwyr ynglŷn â gwerth posibl y FfLIRhC mewn cefnogi gwelliant yng nghanlyniadau llythrennedd a/neu rhifedd disgyblion gan arwain at flaenoriaethu'r Fframwaith ar lefel strategol a gweithredol
- cynyddu hyder ymhlith ymarferwyr ynglŷn â gwerth data'r Profion Cenedlaethol fel asesiad manwl gywir o gyflawniad mewn llythrennedd a rhifedd
- y pwyslais cynyddol a roddir gan y Consortia ar hwyluso gweithio mewn partneriaeth ysgol i ysgol ac (i raddau llai) cymar i gymar, fel modd o gefnogi rhannu ymarfer effeithiol mewn gwreiddio'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol.

Rhwystrau

10.11 Mae'n ymddangos bod cynnydd o ran gwreiddio'r Profion Cenedlaethol wedi cael ei lesteirio gan:

- amrywioldeb yn y flaenoriaeth a roddwyd gan rai sydd ddim yn arbenigwyr Cymraeg/Saesneg neu Fathemateg o fewn y Consortia i weithredu'r FfLIRhC a defnyddio data o'r Profion Cenedlaethol
- diffyg canfyddedig o eglurder yn y deunyddiau canllaw a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y dylid addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm mewn cyd-destun ysgol uwchradd ac ysgol arbennig ac i ba raddau y dylid mabwysiadu dulliau trawsgwricwlaidd (megis Tasgau Cyfoethog) mewn ymarfer o ddydd i ddydd
- ansicrwydd ymhlith ymarferwyr ynglŷn â'r ffordd orau i ddefnyddio data'r Profion Cenedlaethol i gefnogi disgyblion unigol, yn arbennig y rheini sydd yn hanesyddol wedi perfformio ar lefel is na'u disgwyliad cysylltiedig ag oedran
- gallu'r Consortia i gefnogi'r gwaith o nodi a lliniaru anghenion cymorth ysgolion yn eu hardaloedd.

Argymhellion

10.12 Wrth ystyried sut y gellir cynnal (ar yn wir gwella) y cynnydd mewn gweithredu'r RhLIRhC, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r Consortia i annog ymarferwyr, waeth beth fo'u rôl, i flaenoriaethu defnydd o'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol fel offer allweddol mewn hyrwyddo gwelliant yng nghanlyniadau llythrennedd a rhifedd.
- Ystyried a ellid neilltuo adnoddau ychwanegol i gefnogi rhai sydd ddim yn arbenigwyr Saesneg, Cymraeg neu Fathemateg er mwyn gwella ansawdd eu haddysgu llythrennedd a rhifedd.
- Gweithio gyda phartneriaid megis Estyn a'r Consortia i nodi enghreifftiau o arfer da mewn gwreiddio'r FfLIRhC a defnydd o ddata'r Profion Cenedlaethol mewn cynllunio cwricwlwm a chylch asesu ysgol.
- Annog ysgolion i wreiddio asesiad rheolaidd ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd yn eu cylch hunanwerthuso a sicrhau bod unrhyw anghenion hyfforddiant mewn llythrennedd a rhifedd yn cael eu blaenoriaethu.
- Ystyried cyn cyflwyno'r profi ar-lein addasedig a ellir gwella offer diagnostig presennol a ddarperir i ysgolion er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i ymarferwyr ddehongli canlyniadau profion ar bapur a nodi dulliau priodol i gefnogi cynnydd dysgwyr.
- Datblygu cynllun dadansoddi i gefnogi gwerthusiad tymor hwy o effaith y RhLIRhC ar ganlyniadau disgyblion. Gallai hyn adeiladu ar y dadansoddiad archwiliadol a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn.
- Annog ysgolion i ehangu eu gweithgareddau allgymorth gyda rhieni i gefnogi dealltwriaeth o ac ymgysylltiad yn yr ymarfer addysgeg a ddefnyddir i gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd.

Cyfeiriadau

- BMG Research (2014) Ymchwil i weithrediad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140820-research-implementation-national-reading-numeracy-tests-cy.pdf> (Cyrchwyd: 31/05/2017)
- Carr C a Morris M (2015) Gwerthusiad o'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Adroddiad Interim (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-national-literacy-numeracy-programmes/?lang=cy> (Cyrchwyd: 31/05/2017)
- Donaldson G (2015) Dyfodol Llwyddiannus (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> (Cyrchwyd: 31/05/2017)
- Estyn (2013) Adroddiad Blynyddol 2012-13 (Ar-lein) Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/adroddiad-blynyddol-2012-2013> (Cyrchwyd: 05/01/2015)
- Estyn (2015) Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol (Ar-lein) Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gwella-ysgolion-trwy-gonsortia-addysg-rhanbarthol-mehefin-2015> (Cyrchwyd: 02/09/2015)
- Furlong J (2015) Addysgu Athrawon Yfory (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-final.pdf> (Cyrchwyd: 10/03/2015)
- Leighton Andrews (2011) Mae addysgu'n gwneud gwahaniaeth (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/ourevents/teachingmakesadifference/?lang=cy> (Cyrchwyd: 05/01/2015)
- OECD (2012) PISA 2012 Adroddiad Technegol (Ar-lein) Ar gael yn: <http://www.oecd.org/pisa/> (Cyrchwyd: 05/01/2015)
- Llywodraeth Cymru (2013) Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Ar-lein) Ar gael yn: <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130415-FfLIRhC-guidance-en.pdf> (Cyrchwyd: 05/01/2015)
- Llywodraeth Cymru (2013a) Y Rhaglen Lywodraethu (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/about/programmeforgov/?lang=cy> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2013b) Cymunedau Dysgu Proffesiynol (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130830-plc-guidance-en.pdf> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2013c) Canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130124supplementarycurriculumguidanceen.pdf> (Cyrchwyd: 04/10/2016)

Llywodraeth Cymru (2013d) Grant Effeithiolrwydd Ysgol a'r Grant Amddifadedd Disgyblion 2013–2015 (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/130426-school-effectiveness-grant-2013-2015-cy.pdf> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2014) Asesu, cofnodi ac adrodd gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140710-assessment-recording-reporting-using-the-FfLIRhC-en.pdf> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2014a) Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?lang=cy> (Cyrchwyd: 01/10/2014)

Llywodraeth Cymru (2014b) Cwricwlwm Cymru: Cam 1 – trefniadau diwygiedig llythrennedd a rhifedd (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://gov.wales/consultations/education/curriculum-for-wales-revised-literacy-and-numeracy-arrangements/?lang=cy> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2014c) Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://learning.wales.gov.uk/resources/improvementareas/assessment-and-target-setting/national-reading-and-numeracy-tests/?lang=en> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2014e) Cymwys am Oes (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2014f) Ymchwil i weithrediad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (Ar-lein) Ar gael yn:
<http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140820-research-implementation-national-reading-numeracy-tests-cy.pdf> (Cyrchwyd: 06/03/2015)

Llywodraeth Cymru (2014g) Meysydd Dysgu a'r Rhaglenni Astudio Diwygiedig (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141017-revised-areas-of-learning-responses.pdf> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2014h) Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (Ar-lein) Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/news/sitenews/family-and-community-engagement-toolkit-and-guidance/?lang=cy> (Cyrchwyd: 05/05/2015)

Llywodraeth Cymru (2014i) Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysoglion 2014 (Ar-lein) Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140724-school-census-results-2014-cy.pdf> (Cyrchwyd: 05/01/2015)

Llywodraeth Cymru (2015) Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog – Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg (Ar-lein) Ar gael yn: <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/newdealeducation/?lang=cy> (Cyrchwyd: 09/07/2015)

Llywodraeth Cymru (2016) Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol – cynllun gweithredu strategol (Ar-lein) Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-literacy-and-numeracy-programme/?lang=cy> (Cyrchwyd: 16/01/2017)

Llywodraeth Cymru (2017) Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - llawlyfr gweinyddu profion 2017 (Ar-lein) Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/161101-test-admin-handbook-2017-cy-v2.pdf> (Cyrchwyd: 16/01/2017)

Cefndir y RhLIRhC

- A.1 Mae'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (RhLIRhC) wrth galon Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013a) a Chynllun Gweithredu Gwella Ysgol yr Adran ar gyfer Addysg a Sgiliau (DfES) (Leighton Andrews, 2011) ac yn fwy diweddar maent wedi eu cefnogi'n llawn yn Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru, 2014a). Y rhesymeg y tu ôl i'r RhLIRhC yw'r dyhead i fynd i'r afael â'r mater o lefelau llythrennedd a rhifedd isel ymhlith disgyblion yng Nghymru, ac i gymryd camau i wneud yn siŵr y gwneir hyn. Nod y RhLIRhC yw gwella cyflawniad a chodi safonau addysgol drwy well ymarfer addysgu mewn llythrennedd a rhifedd (wedi'i gefnogi drwy hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon - HAGA, ac ystod o weithgareddau datblygiad proffesiynol) a gwelliant mewn asesu cynnydd (drwy raglen genedlaethol o brofion). Mae i'r RhLIRhC nifer o elfennau, sy'n cynnwys mesurau cyfreithiol megis cyflwyniad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y cyfeirir ato wedi hyn fel y 'FfLIRhC') a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y 'Profion Cenedlaethol') a gweithgareddau cefnogi. Crynhoir prif elfennau'r RhLIRhC isod.

Y FfLIRhC

- A.2 Datblygwyd y FfLIRhC mewn partneriaeth ag ymarferwyr ac fe'i cyflwynwyd yn raddol dros gyfnod o ddwy flynedd, gan ei gyhoeddi'n gyntaf ym mis Ionawr 2013. Ers mis Medi 2013 mae wedi bod yn ofynnol i ysgolion yng Nghymru osod y FfLIRhC wrth galon cwricwlwm yr ysgol. Mae'r FfLIRhC yn annog dull o addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm wedi'i ganoli ar ddatblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion, o'r Derbyn hyd Flwyddyn 9. Ar gyfer llythrennedd, y llinynnau allweddol yw; sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu, ac mewn rhifedd; rhesymu rhifyddol, sgiliau rhif, sgiliau mesur a sgiliau trin data. Mae'r FfLIRhC yn gontinwrm o ddysgu ar gyfer pob dysgwr, yn cynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hefyd yn cefnogi ymarferwyr i allu asesu cynnydd disgyblion. Ers mis Medi 2014, mae asesu cynnydd disgyblion yn erbyn datganiadau disgwyliad y FfLIRhC wedi bod yn ofyniad statudol (Llywodraeth Cymru, 2013).

Y Profion Cenedlaethol

- A.3 Cyflwynwyd y Prawf Darllen Cenedlaethol a Phrawf Rhifedd Cenedlaethol (gweithdrefnol) ym mis Mai 2013. Ym mis Mai 2014 cyflwynwyd y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (rhesymu). Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru ddull graddol ar gyfer cyflwyno'r profion cenedlaethol er mwyn rhoi amser i ysgolion

baratoi ar gyfer eu cyflwyniad a chyrchu'r gefnogaeth oedd ar gael. Cynlluniwyd y Profion Cenedlaethol i ategu'r dystiolaeth ffurfiannol a gasglwyd gan ymarferwyr drwy asesu cynnydd disgyblion yn erbyn y datganiadau disgwyliad a nodir yn y FfLIRhC. Roeddent yn cynrychioli ymdrechion Llywodraeth Cymru i gyflwyno dull cyson ar gyfer asesu disgyblion o Flwyddyn 2 hyd Flwyddyn 9. Gallant ddarparu sail y gall ymarferwyr ei defnyddio i ddiagnosio ac asesu perfformiad eu disgyblion yn erbyn eu cyfoedion ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol ac maent wedi'u cynllunio i hwyluso'r broses adrodd wrth rieni.

Mesurau sydd ar gael i gefnogi a chyflwyno'r rhaglen

- A.4 Mae'r RhLIRhC yn cynnwys ystod o fesurau sydd wedi'u bwriadu i wella ansawdd darpariaeth llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Yn ogystal â'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol, maent yn cynnwys:
- **Y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG):** Mae'r RhGG, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2013 a'i chyflwyno gan Ymddiriedolaeth Addysg CfBT (CfBT), o bosibl wedi bod y buddsoddiad unigol mwyaf i gefnogi ysgolion gyda gweithrediad y FfLIRhC. Gan ddilyn model cyflwyno graddol, mae pob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru wedi gallu cyrchu rhaglen gefnogi wedi'i thargedu (wedi cyfnod byr ar y dechrau daeth Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd yn gymwys ar gyfer cefnogaeth). Lansiwyd y RhGG ym mis Chwefror 2013 drwy gyfres o ddigwyddiadau cenedlaethol, mewn pedwar cam penodol:
 - **Cam 1: Deall y FfLIRhC.** Wedi'i gyflwyno o fis Mawrth 2013 hyd fis Ionawr 2014, ymgysylltodd Partneriaid RhGG⁴⁸ ag ysgolion a chyflwynwyd y FfLIRhC. Gwnaed gwaith hefyd i sefydlu lle'r oedd ysgolion o ran ymateb i'r FfLIRhC ac i nodi blaenoriaethau ar unwaith ar gyfer cefnogaeth.
 - **Cam 2: Archwiliad a Chefnogaeth Partner Uniongyrchol:** Wedi'i gwblhau ym mis Ebrill 2014, cefnogodd Partneriaid RhGG ysgolion i gwblhau hunanwerthusiad neu archwiliad o'u cynnydd mewn gweithredu'r FfLIRhC a rhoesant gyngor a gwybodaeth am gamau cychwynnol gweithredu'r FfLIRhC. Defnyddiwyd hyn er mwyn helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer cefnogaeth.

⁴⁸ Mae pob ysgol yng Nghymru yn gymwys i dderbyn cefnogaeth gan Bartner RhGG. Caiff Partneriaid RhGG eu recriwtio gan CfBT ac maent yn gyfrifol am gefnogi ysgolion i gyflwyno'r FfLIRhC a'r Profion Cenedlaethol drwy raglen gymorth wedi'i theilwra.

- **Cam 3: Cefnogaeth Gweithredu Ysgolion.** O fis Ebrill 2014 hyd fis Gorffennaf 2015, yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd yn yr archwiliadau ysgol, cydlynodd Partneriaid RhGG raglen gefnogi wedi'i thargedu, yn cynnwys mynediad at arbenigwyr pwnc.
- **Cam 4: Cynnal a gwreiddio.** Roedd y cam hwn yn canolbwyntio ar brif-ffrydio gweithgaredd a chynllunio ar gyfer cefnogaeth barhaus ar gyfer y FfLIRhC wrth i'r RhGG gael ei dirwyn i ben yn raddol a throsglwyddo'r atebolrwydd am ddarparu'r gefnogaeth i'r Consortia. Bwriadwyd i'r cam hwn redeg rhwng mis Medi 2015 a mis Gorffennaf 2016. Fodd bynnag golygodd y cynnydd a wnaed gan y Consortia a'r RhGG bod y cam hwn wedi'i gyflwyno ochr yn ochr â cham 3 a daethpwyd â'r RhGG i ben ym mis Gorffennaf 2015.
- **Rhaglen Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol (ALIRhRh):** Er mwyn cael mynediad at y Grant Effeithiolrwydd Ysgol (o 2013 hyd 2015) roedd hi'n ofynnol i Consortia addysg rhanbarthol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'Consortia'): *'rannu arfer gorau drwy ddefnyddio athrawon llythrennedd a rhifedd rhagorol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a mentora ar gyfer staff addysgu sydd angen cefnogaeth ychwanegol* (Llywodraeth Cymru, 2013c). Yn dilyn lansiad Grant Gwella Addysg, o fis Ebrill 2015, mae'r Consortia wedi cael mwy o hyblygrwydd i ddewis sut i ddefnyddio eu cyllid er mwyn cefnogi gwelliant mewn ansawdd addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd yn eu hardaloedd. Galluogodd y penrhyddid sylweddol mewn canllawiau lefel rhaglen drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol i'r modelau cyflwyno a fabwysiadwyd gan y pedwar Consortium fod yn wahanol, o ran nifer yr ALIRh neu ALIRh a recriwtiwyd, a dwysedd y gefnogaeth a ddarparwyd. Gyda lansiad y Grant Gwella Addysg, mae amrywiaeth o'r fath mewn dulliau yn debygol o gynyddu wrth i Consortia geisio mabwysiadu ymhellach eu model cychwynnol fel eu bod yn addas i anghenion a blaenoriaethau lleol.
- **Ystod o ddeunydd canllaw ac adnoddau wedi'u cynnwys ar wefan Dysgu Cymru:** Er nad oedd wedi'i bwriadu'n benodol i gefnogi'r RhLIRhC pan y'i cyflwynwyd ym mis Medi 2013, datblygwyd gwefan Dysgu Cymru i roi siop un stop i ymarferwyr gyrchu'r canllawiau statudol diweddaraf ac ymchwil cyfoes. Drwy roi mynediad i ymarferwyr at adnoddau o ansawdd uwch, yn arbennig ym meysydd llythrennedd a rhifedd, y gobaith yw y bydd hyn yn cefnogi gwelliant mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd. Roedd cefnogaeth benodol i'r FfLIRhC a roddwyd ar gael drwy Dysgu Cymru yn cynnwys dogfennau canllaw,

pecynnau hyfforddi ac ystod o adnoddau enghreifftiol ac adnoddau dosbarth.

- **Canllawiau penodol a ddatblygwyd i gefnogi datblygiad Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDP):** Datblygwyd y Model Cenedlaethol ar gyfer CDP, a lansiwyd yn wreiddiol yn 2008 i gefnogi gweithrediad y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol, gan Lywodraeth Cymru i roi model effeithiol o gydweithredu cymar i gymar i ymarferwyr. Seilir CDP ar ymchwil presennol ar effeithiolrwydd gwahanol fathau o weithio cymar i gymar a nodweddion modelau dysgu effeithiol. Gan ddefnyddio'r Model Cenedlaethol, mae gan CDP y potensial i wella ansawdd dysgu proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2013b).
- Yn 2014, lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y **Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg**, wedi'i thanategu gan Fodel Dysgu Proffesiynol. Seilir y Model ar ddulliau dysgu proffesiynol a brofwyd i gael yr effaith fwyaf cynaliadwy ar godi safonau ymarfer proffesiynol. Mae un o bedwar llinyn craidd y Model Dysgu Proffesiynol wedi'i ganolbwyntio ar 'Gydweithredu Effeithiol' (Llywodraeth Cymru 2015).

A.5 Yn eu tro, atgyfnerthir y mentrau hyn gan **gefnogaeth a gynigir gan y pedwar Consortiwm Addysg Rhanbarthol (Consortia), yn bennaf drwy Gynghorwyr Her cysylltiedig**. Fel yr amlinellir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol, mae'r Consortia wedi chwarae rôl allweddol mewn cefnogi ysgolion i wella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd, yn bennaf drwy gefnogi gweithrediad y FfLIRhC ochr yn ochr â chefnogaeth a gynigir gan y RhGG. Er bod y model cyflwyno a fabwysiadwyd gan y Consortia wedi amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau lleol, a dewisiadau eu Hawdurdodau Lleol (ALI), rhaid i ran allweddol o hyn gynnwys darpariaeth ar gyfer pob ysgol i gael mynediad at Gynghorydd Her. Mae Cynghorwyr Her yn rhoi cysylltiad uniongyrchol rhwng y Consortia, yr ALI priodol ac ysgol, ac yn darparu ffynhonnell o gefnogaeth a her. Gan fod yn gyfrifol am ddatblygu pob agwedd ar wella ysgol, mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ynglŷn ag addysgu llythrennedd a rhifedd. Lle bo angen hynny, awdurdodir Cynghorwyr Her i froceru mynediad at gefnogaeth arbenigol. Mewn nifer o achosion bydd hyn yn golygu darpariaeth cyllid ar gyfer mynediad at gefnogaeth gan arbenigwyr pwnc.

Dyluniad yr Ymchwil

- B.1 Mae'r adran hon yn trafod y dull a fabwysiadwyd gan y tîm gwerthuso er mwyn bodloni nodau'r astudiaeth. Crynhoir y gweithgareddau ymchwil allweddol yn ôl llinyn yn Nhabl B-1. Mae'r testun sy'n dilyn yn trafod y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer y cam terfynol hwn o'r ymchwil yn unig; mae manylion llawn y gweithgareddau yn y camau cynharach wedi'u cynnwys yn yr adroddiad interim.

Tabl B-1: Gweithgareddau ymchwil allweddol yn ôl llinyn

Llinyn Gwerthuso	Gweithgareddau Gwerthuso	Disgrifiad
Gwerthuso Proses	Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid	Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn Medi-Hydref 2013, a Gorffennaf-Medi 2014 a Gorffennaf 2015 - Gorffennaf 2016
	E-arolwg o arweinwyr ysgol	E-arolwg o arweinwyr ysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (yn cynnwys ysgolion arbennig) ym Mehefin-Hydref 2014 a Mai-Gorffennaf 2015
	E-arolwg o Athrawon Rhagorol	E-arolwg o Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol ym Mehefin-Gorffennaf 2014
	Astudiaethau achos seiliedig ar ardal	Ymweliadau ag ugain ysgol mewn pedair ardal awdurdod lleol rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2014 a 19 ysgol mewn chwe awdurdod lleol rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2016
	Astudiaethau achos thematig	Dwy astudiaeth thematig rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2014 a mis Ionawr a mis Mawrth 2014. <i>Effaith y RhLIRhC ar ANG</i>: Cyfweliadau gydag athrawon newydd gymhwyso a mentoriaid mewn ysgolion. <i>Effaith diwygiadau i Ddarpariaeth Llythrennedd a Rhifedd o fewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon</i>: Cyfweliadau gydag uwch aelodau staff, darlithwyr, myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon a mentoriaid mewn ysgolion.
Gwerthuso Effaith	Dadansoddiad gwaelodlin a thueddiadau mewn perthynas â data cyrhaeddiad disgyblion	Dadansoddiad o ddata gwaelodlin a chyrhaeddiad disgyblion o'r Cyfrifiad Ysgol

Ffynhonnell: SQW

Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid

B.2 Dilynwyd ymgynghoriadau â rhanddeiliaid cychwynnol, a gynhaliwyd ym Medi-Hydref 2013, gan rownd arall o gyfarfodydd yng Ngorffennaf-Medi 2014 a Gorffennaf-Medi 2015, a rhai cyfweiliadau ychwanegol yn y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2016. Targedwyd cyfweiliadau at y rheini oedd â throsolwg strategol o elfennau allweddol y RhLIRhC. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Arweinwyr Prosiect yn Llywodraeth Cymru ar gyfer pob elfen o'r RhLIRhC
- Arweinydd Llythrennedd a/neu Rhifedd yn Estyn
- Pennaeth y Gynghrair GMYA
- Y Cynghorydd 'Expect' i Lywodraeth Cymru ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
- Yr Arweinydd Llythrennedd a/neu Rhifedd ym mhob un o'r pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol
- Y swyddog atebol am gyflwyno'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn y National Foundation for Educational Research
- y swyddog atebol am gyflwyno'r RhGG yn Ymddiriedolaeth Addysg CfBT
- Penaethiaid y tair Canolfan Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.

B.3 Cynhaliwyd ymgynghoriadau gan ddefnyddio canllawiau pwnc rhannol strwythuredig. Pan fo hynny'n bosibl, cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ond cynhaliwyd rhai dros y ffôn. Cynhaliwyd 15 ymgynghoriad ym Medi-Hydref 2013. Cyfrannodd tri ar ddeg o ymgynghoreion i drafodaeth yng Ngorffennaf-Medi 2014. Cyfrannodd pedwar ar bymtheg rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Gorffennaf 2016.

B.4 Defnyddiwyd ymgynghoriadau i gyfoethogi ein dealltwriaeth o bob elfen o'r RhLIRhC, a'u heffaith ar weithwyr addysg proffesiynol. Rydym hefyd wedi ceisio deall y rhwystrau a'r galluogwyr y daeth rhanddeiliaid ar eu traws wrth weithredu'r RhLIRhC, a sut y teimlwyd bod hyn wedi effeithio ar berfformiad y Rhaglenni.

E-arolwg o arweinwyr ysgol

B.5 Cynhaliom e-arolwg o arweinwyr ysgol yng Nghymru rhwng diwedd mis Mehefin a mis Hydref 2014 ac ym mis Mai hyd fis Gorffennaf 2015. Wedi'u

targedu at uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (yn cynnwys uwch arweinwyr mewn lleoliadau arbenigol), nod yr arolwg hwn oedd rhoi mewnwelediad i:

- Lefelau ymgysylltu â'r RhLIRhC
- Rhesymau dros gyrchu cefnogaeth neu wneud newidiadau
- Rhesymau dros beidio cyrchu cefnogaeth neu wneud newidiadau
- Yr heriau a wynebwyd gan ysgolion a oedd yn cyrchu cefnogaeth a gwneud newidiadau
- Effaith ganfyddedig y RhLIRhC ar ansawdd a chysondeb addysgu llythrennedd a rhifedd.

B.6 Gan ddefnyddio gwybodaeth gyswllt a ddarparwyd gan yr Arweinwyr Llythrennedd a/neu Rhifedd ym mhob un o'r pedwar Consortiwm, anfonwyd yr arolwg at 1,605 o gyfeiriadau e-bost ym mis Mehefin 2014. O'r rhain, cadarnhawyd 1,575 fel cyfeiriadau dilys. Yn 2015 darparwyd gwybodaeth gyswllt wedi'i diwygio gan un o'r tair ardal consortiwm. Anfonwyd yr arolwg at 1,561 cyfeiriad e-bost dilys. Er mwyn cael y gyfradd ymateb orau posibl, defnyddiodd y tîm gwerthuso nifer o dechnegau gan y tîm gwerthuso mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru:

- Hyrwyddwyd yr arolwg yng nghylchlythyr wythnosol Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd hwn y tîm gwerthuso a thrafododd sut y byddai'r canfyddiadau'n cael eu defnyddio.
- Lle bo hynny'n bosibl, anfonodd SQW ddolen bersonol i'r arolwg at bob uwch arweinydd yr oeddem wedi cael gwybodaeth gyswllt ar eu cyfer. Roedd hon yn nodi diben yr arolwg ac yn eu gwahodd i ymateb. Hefyd rhoddwyd cyfeiriadau e-bost ar gyfer un aelod o'r tîm gwerthuso, a galluogodd hyn i ymatebwyr posibl ddarparu adborth am yr arolwg a/neu gofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'i ddiben a'i ddefnydd.
- Gwahoddwyd ymatebwyr i ymateb i'r arolwg naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg, yn dibynnu ar ddewis personol. Roedd yr e-bost cyflwyniadol hefyd yn y ddwy iaith.
- Rhoddwyd strategaeth atgoffa ar waith er mwyn annog rhai nad oedd wedi ymateb i gwblhau'r arolwg. Anfonwyd e-bost atgoffa, gyda dolen uniongyrchol i'r arolwg, bob deufis rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2014.

- B.7 Yn 2015 cafwyd ymatebion gan 431 o ysgolion (cyfradd ymateb o 28%). Roedd hyn yn gynydd sylweddol (18%) ar y 352 ymateb a gafwyd yn 2014, ac mae'n debygol o fod wedi nodi bod uwch arweinwyr yn fwy cyfarwydd â'r gwerthusiad a'r pwysigrwydd a roddwyd i'r astudiaeth gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf y gwelliant yn y gyfradd ymateb, wrth ddehongli canlyniadau'r arolwg mae'n bwysig cydnabod nifer o gyfyngiadau i'n dadansoddiad. Yn bennaf, er bod gan faint sampl o 431 y potensial i roi mewnwelediadau gweddol gywir o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd, rhaid bod yn ofalus wrth archwilio unrhyw is-boblogaethau o fewn hyn.
- B.8 Wrth benderfynu i ba raddau y mae'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r arolwg yn debygol o roi mewnwelediad dibynadwy i'r boblogaeth, mae'n bwysig ystyried sut y mae nodweddion yr ymatebwyr yn cymharu â rhai'r boblogaeth gyfan. Er enghraifft, roedd ymatebion yn cynnwys arweinwyr ysgol o 257 ysgol gynradd (60% o'r ymatebwyr) a 105 ysgol uwchradd (24% o'r ymatebwyr), gyda 69 ymatebydd arall yn cynrychioli ysgolion canol, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig. Ym mis Ionawr 2015, roedd y Cyfrifiad Ysgolion yn dangos bod 1,330 o ysgolion cynradd (tua 84% o'r boblogaeth), a 207 o ysgolion uwchradd (tua 13% o'r boblogaeth) yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae hyn yn dynodi ein bod wedi cael ymateb cyfatebol uwch gan ysgolion uwchradd ac ymatebion cyfatebol is gan ysgolion cynradd nag y gellid fod wedi'i ddisgwyl o'r proffil cenedlaethol. Oherwydd hyn, wrth ddehongli ein canlyniadau fe fydd hi'n bwysig ein bod yn ystyried i ba raddau y gallai'r proffil ymatebwyr hwn fod wedi dylanwadu ar ein canlyniadau. Wedi dweud hynny, drwy gael ymatebion gan 51% o'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru (os dadansoddir yn ôl math ysgol) mae gan y canlyniadau a gafwyd gan arweinwyr ysgol uwchradd y potensial i roi darlun mwy clir o farn y boblogaeth honno yn ei chyfanrwydd.
- B.9 Ym mis Ionawr 2015 cafodd 489 (tua 31%) o'r ysgolion yng Nghymru eu dosbarthu fel rhai Cyfrwng Cymraeg (yn cynnwys ysgolion Dwy Ffrwd, ysgolion Dwyieithog ac ysgolion Trawsnewidiol fel sy'n briodol) (Llywodraeth Cymru, 2014g). Ymatebodd arweinwyr ysgol o 125 o ysgolion cyfrwng Cymraeg (26% o'r ysgolion o'r math hyn) i'r arolwg. Mae'r gyfradd ymateb hon yn rhoi hyder i ni y rhoddwyd ystyriaeth i farn ymarferwyr cyfrwng Cymraeg.
- B.10 Er gwaethaf y dadansoddiad cynrychioliadol bras o ymatebwyr, roedd hi'n werth nodi, fodd bynnag, bod nifer yr ymatebwyr i gwestiynau unigol yn amrywio. Isafswm nifer y dim-ymatebwyr gan arweinwyr ysgol yn 2015 i gwestiynau'n ymwneud â'r Prawf Darllen Cenedlaethol oedd 106 (25% o gyfanswm nifer yr ymatebwyr ac yn uwch na'r saith y cant o'r ymatebwyr yn 2014). I'r gwrthwyneb, dim ond 70 o ymatebwyr yr arolwg (16% o gyfanswm nifer yr ymatebwyr) na wnaeth ateb cwestiynau'n ymwneud â gwreiddio'r

FfLIRhC yn y cylch asesu yn yr ysgol, a oedd yn cymharu'n ffafriol â'r 263 ymateb coll yn 2014 (75% o'r holl ymatebwyr yn y flwyddyn honno). Rhoddwyd ystyriaeth i gyfran yr eitem dim ymatebion yn nadansoddiad yr arolwg, er bod y siartiau yn yr adroddiad yn cyflwyno'r data ar sail ymatebwyr yn unig.

Astudiaethau achos seiliedig ar ardal

- B.11 Gwnaethom ymweld ag 20 o ysgolion astudiaeth achos mewn pedair ardal ALI rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2014. Cynhaliwyd 19 ymweliad arall rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2016. Cynhaliwyd ymweliadau er mwyn deall ymwybyddiaeth, ymgysylltiad ac effaith elfennau allweddol o'r RhLIRhC ar ymarferwyr unigol, ysgolion a'r clwstwr ysgol ehangach.
- B.12 Er mwyn cefnogi'r dull hwn rhoesom ystyriaeth i nifer o elfennau wrth ddewis ysgolion astudiaeth achos yn 2014 ac yn 2016:
- **Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol yr oedd yr ysgol yn perthyn iddo;** Er mwyn rhoi ystyriaeth i'r gwahaniaethau yn y dull a fabwysiadwyd ym mhob Consortiwm Addysg Rhanbarthol, dewiswyd pum ysgol ym mhob ardal Consortiwm.
 - **Perfformiad hanesyddol pob ALI:** Yn hanesyddol, mae canlyniadau disgyblion wedi amrywio'n sylweddol o fewn ardaloedd consortia. Gan ddefnyddio data sy'n ymwneud â'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion difreintiedig, a'r adborth gan yr Arweinydd Llythrennedd a/neu Rhifedd ym mhob ardal, gwnaethom nodi dau ALI a oedd yn cynrychioli'r rheini oedd â'r canlyniadau mwyaf a lleiaf ffafriol.
 - **Natur yr ecosystem addysg lleol:** Er mwyn datblygu dealltwriaeth o effaith y RhLIRhC ar ddiwylliant addysg o fewn cymdogaethau penodol, ac mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Llythrennedd a Rhifedd ym mhob Consortiwm Addysg Rhanbarthol, yn gyntaf gwnaethom nodi dwy ysgol uwchradd o fewn radiws o 10-15 milltir i'w gilydd yn yr ALI targed. Er mwyn rhoi croestoriad da i ni o wahanol lefelau perfformiad hanesyddol ysgolion, lle'r oedd hynny'n bosibl dewiswyd ysgolion ar amrywiaeth o wahanol gamau yn eu taith gwella ysgol. Unwaith yr ymgysylltwyd â hwy, a gyda chefnogaeth y Cynghorydd Her priodol gwnaethom recriwtio dwy ysgol gynradd ychwanegol (yn y rhan fwyaf o achosion roedd y rhain yn ysgolion bwydo ar gyfer pob ysgol uwchradd) ac Ysgol Arbennig neu Uned Cyfeirio Disgyblion leol. Rhoddodd hyn bum ysgol i ni ym mhob ardal astudiaeth achos.

- **laith yr ysgolion:** Cymerwyd camau i sicrhau bod nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yn y sampl.

- B.13 Yn gyson â'r dull a nodir uchod, rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2014 gwnaethom ymweld ag 20 o ysgolion mewn pedwar ALI (un ym mhob ardal Consortia). Er ein bod yn wreiddiol wedi cynllunio ymweld ag wyth ysgol uwchradd ac wyth ysgol gynradd, ymwelwyd â saith ysgol uwchradd, naw ysgol gynradd, tair ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion. Gwnaed y penderfyniad i recriwtio ysgol gynradd ychwanegol yn un o'r pedair ardal yn dilyn penderfyniad un ysgol uwchradd i dynnu'n ôl oherwydd newid mewn uwch arweiniad, a bod ysgolion uwchradd lleol eraill yn gyndyn i ymgysylltu ar fyr rybudd. Oherwydd mai'r dewis arall oedd chwilio am ardal ddaearyddol wahanol, penderfynwyd recriwtio ysgol gynradd fwydo ychwanegol.
- B.14 Yn 2016, y bwriad unwaith eto oedd ymweld ag 20 ysgol ar draws pedwar ALI (un ym mhob Consortiwm). Yn y diwedd, cynhaliom 19 o ymweliadau ysgol mewn chwe ALI (ar draws pob un o'r pedwar ardal Consortia). Gwnaed y penderfyniad i gynyddu sampl yr ysgolion i awdurdodau lleol ychwanegol oherwydd amharodrwydd uwch arweinwyr i gyfranogi yn yr astudiaeth. Ymhlith y pryderon cyffredin oedd y gallai ymweliad ar adeg arholiadau o bosibl dynnu sylw disgyblion ac athrawon a hefyd yr angen i gyfiawnhau ymgysylltu mewn 'prosiect ymchwil arall eto' (Uwch arweinydd mewn ysgol gynradd). Yn anffodus methodd un ysgol uwchradd y trefnwyd i ymweld â hi i hwyluso ymweliad ar y dydd oherwydd problemau staffio. Nid oedd modd i ni aildrefnu'r ymweliad â'r ysgol na threfnu ymweliad ag ysgol uwchradd arall cyn diwedd y flwyddyn academaidd.
- B.15 Ym mhob ysgol astudiaeth achos cynhaliwyd cyfweliadau gydag ystod o wahanol randdeiliaid yn cynnwys; uwch arweinwyr, arweinwyr canol⁴⁹, athrawon dosbarth, rhieni a disgyblion. Cynhaliwyd y cyfweliadau yn unigol ac ar ffurf trafodaeth grŵp. Crynhoir nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phob grŵp rhanddeiliaid yn Nhabl B-2 isod.

Tabl B-2: Nifer y cyfweliadau a gynaliwyd yn 2014 a 2016

Grŵp rhanddeiliaid	Nifer y Cyfweliadau	
	2014	2016
Uwch Arweinwyr	23	22
Arweinwyr Canol	-	36

⁴⁹Yn 2016, gofynnodd ymchwilwyr yn benodol i glywed arweinwyr canol yn hytrach nag uwch arweinwyr (yn arbennig mewn ysgolion uwchradd). Yn ymarferol, mewn nifer o ysgolion, roedd uwch arweinwyr eisiau cyfranogi. Pan oedd hynny'n bosibl cytunwyd i'r ceisiadau.

Grŵp rhanddeiliaid	Nifer y Cyfweiliadau	
	2014	2016
Athrawon Dosbarth	40	27
Rhieni	27	18
Disgyblion	116	117

Ffynhonnell: SQW

- B.16 Cynhaliwyd cyfweiliadau gan ddefnyddio canllawiau pwnc rhannol strwythuredig a, lle bo hynny'n bosibl, cawsant eu recordio. Defnyddiwyd meddalwedd asesu ansoddol i godio'r ymatebion ac i gefnogi dadelfeniad cywir o farn is-boblogaethau, megis arweinwyr ysgol neu athrawon dosbarth.
- B.17 Er mwyn cael dealltwriaeth gyfannol o bob ysgol a'i hymgysylltiad yn y RhLIRhC, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phob Cynghorydd Her ac ymarferwyr eraill a oedd yn rhan mewn darparu cefnogaeth. Yn 2014 cynhaliom gyfweiliadau gydag 16 Cynghorydd Her (ac mewn rhai achosion Uwch Gynghorwyr Her) a gyda 12 Partner RhGG. Mewn nifer o achosion roedd ysgolion yn rhannu'r un Cynghorydd Her a Phartner RhGG. Fodd bynnag, mewn achosion eraill doedd ysgolion naill ai ddim yn gwybod pwy oedd eu Cynghorydd Her (ac ni ellid cadarnhau hyn gan y Consortiwm priodol), neu nid oedd ganddynt Bartner RhGG. Mewn achosion o'r fath, ni chynhaliwyd cyfweiliadau. Yn 2016 cynhaliom gyfweiliadau gyda saith Cynghorydd Her a chwe phartner cefnogi (yn y rhan fwyaf o achosion roedd staff yn gweithio i Gonsortia). Mewn dau o'r pedwar Consortiwm, nododd ymghyngnoreion strategol oherwydd cyfyngiadau gallu nid oeddent yn teimlo y byddai'n briodol i ni siarad â Chynghorwyr Her yn eu rhanbarth. O ganlyniad, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda Chynghorwyr Her dim ond mewn dau ranbarth.

Gwerthusiad Effaith

- B.18 Daw disgyblion o amrywiol gefndiroedd cartref ac ysgol ac mae ganddynt alluoedd academiaidd a galluoedd eraill gwahanol. Er mwyn dadansoddi effaith y RhLIRhC ar gyrhaeddiad disgyblion mae'n bwysig ystyried y gwahaniaethau hyn, yn ogystal â'r ffaith y cafodd y rhaglen ei lansio yn 2013 ac felly bydd disgyblion wedi cael gwahanol raddau o brofiad ohoni.
- B.19 Roedd data'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion (CDdGD) a roddwyd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn hierarchaidd, gyda gwybodaeth yn cael ei nodi ar wahanol lefelau (disgybl, ysgol, consortia) ac felly gwnaethom fabwysiadu dull modelu aml-lefel ar gyfer dadansoddi data. Mae'r broses hon yn dechrau drwy nodi'r newidyn canlyniadau (megis lefelau'r Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3) ac yna, ar gyfer pob lefel data, y lefelau cefndir y gellid

teimlo efallai fyddai'n dylanwadu ar y canlyniad (megis rhyw, cyrhaeddiad blaenorol, nifer y blynyddoedd o brofiad o'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol). Waeth beth fo'r newidyn canlyniad a ddewisir, disgwylir y bydd gwahaniaethau canlyniad ar bob lefel:

- bydd disgyblion yn wahanol i'w gilydd
- bydd disgyblion mewn un ysgol yn gyfunol wahanol i'r rheini mewn ysgolion eraill
- bydd disgyblion mewn ysgolion mewn un Consortiwm yn gyfunol wahanol i'r rheini mewn Consortia eraill.

B.20 Gellir mesur y gwahaniaethau hyn drwy edrych i ba raddau y mae pob newidyn canlyniad yn 'gyflyredig' gan y newidynnau cefndir ar bob lefel. Drwy ddadansoddi'r data yn y modd hwn, gallwn weld effaith gyffredinol pob un o'r newidynnau a nodi'r newidynnau sy'n cael effaith arwyddocaol.

B.21 Roedd pŵer esboniadol y modelau cyrhaeddiad sylfaenol, nad oedd yn cynnwys cyrhaeddiad blaenorol (a grynhoir yn Nhabl B-4) yn gymedrol. Unwaith yr oedd newidynnau cefndir disgyblion a lefel ysgol wedi'u cynnwys yn y modelau, roedd y modelau sylfaenol yn esbonio tua un rhan o dair o'r amrywiant rhwng disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 (a rhwng 80% a 99% o'r amrywiant ysgol). Roedd y pŵer esboniadol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn fwy amrywiol. Esboniodd y modelau ar gyfer Saesneg a Mathemateg dros 90% o'r amrywiant ar lefel ysgol ond dim ond 24% a 17%, yn yr un drefn, ar lefel disgybl. Esboniodd y rheini ar gyfer Cymraeg a Chymraeg ail iaith gyfran is o'r amrywiant ar lefel ysgol (37% a 44%, yn yr un drefn), er cyfran debyg o'r amrywiant ar lefel disgybl (22% a 15%, yn yr un drefn).

B.22 Amlygodd y modelau hyn bwysigrwydd cynnwys cyrhaeddiad blaenorol disgyblion yn y modelau, rhywbeth a oedd wedi hyn yn ganolog i'r modelau cynnydd (o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4). Ar gyfer y modelau hyn, roeddem yn gallu creu nifer o garfanau, gan gyfatebu data ar gyfer cyrhaeddiad blaenorol ar Gyfnodau Allweddol cynharach i ddata canlyniad mewn Cyfnodau Allweddol diweddarach. Roedd pŵer esboniadol y modelau hyn yn uchel, gyda chynnwys cyrhaeddiad blaenorol disgyblion yn lleihau lefel yr amrywiant rhwng disgyblion gan rhwng hanner a dwy ran o dair yn y mwyafrif o achosion (er nid mewn Cymraeg Ail iaith, lle'r oedd yr amrywiant wedi'i leihau gan rhwng dwy ran o bump a hanner). Mewn geiriau eraill, gellir esbonio cyfran uchel o'r gwahaniaeth mewn canlyniadau rhwng disgyblion drwy edrych ar eu cyrhaeddiad academiaidd mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd disgyblion a

wnaeth yn dda mewn cyfnodau allweddol blaenorol yn tueddu, ar y cyfan, i barhau i wneud yn dda (a chyrraedd y lefel cynnydd disgwyliedig) yn eu cyfnod allweddol presennol.

- B.23 Er bod pŵer esboniadol y modelau cynnydd yn gymharol uchel, maent yn dal yn dangos bod ffactorau eraill a fyddai angen cael eu cynnwys yn y modelau er mwyn datblygu dadansoddiad mwy cynhwysfawr o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â chynnydd disgyblion (yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 3, lle'r oedd amrywiant lefel ysgol fel petai'n uwch nag mewn Cyfnodau Allweddol eraill). Felly, dylid trin canlyniadau'r modelu fel rhai dangosol ar y cam hwn, a dylid bod yn ofalus wrth edrych ar faint (er nad cyfeiriad) unrhyw newid.
- B.24 Dylem nodi, fodd bynnag, bod y modelau'n cynnwys dim ond y newidynnau yr oeddem angen mynediad atynt; nid ydynt yn cynnwys data presenoldeb. Nid yw'r modelau chwaith yn nodi achosiaeth, ond yn syml y ffactorau arwyddocaol sy'n ymddangos i fod â rhywfaint o berthynas â'r canlyniadau dewisedig.

Tabl B-4: Canran yr amrywiant a esbonir gan y modelau

Modelau aml-lefel		Canran yr amrywiant lefel disgybl a lefel ysgol wedi'i esbonio				
		Cyrrhaeddiad (trawsadrannol)			Cynnydd (hydredol)	
Pwnc		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4
Saesneg	Disgybl	33%	29%	24%	54%	61%
	Ysgol	97%	99%	93%	99%	92%
Cymraeg	Disgybl	31%	30%	22%	55%	65%
	Ysgol	80%	99%	37%	92%	82%
Cymraeg Ail Iaith*	Disgybl	31%	27%	15%	40%	50%
	Ysgol	85%	98%	44%	97%	54%
Mathemateg	Disgybl	29%	25%	17%	56%	65%
	Ysgol	97%	99%	89%	88%	84%

* Nid yw'r RhLIRhC yn targedu'n benodol Cymraeg Ail Iaith
Ffynhonnell: SQW